

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Auditor General for Wales

# Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: mwyhau'r buddion i Gymru

Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac ar gael oddi wrth:

Y Llyfrfa Oriel
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd, CF1 2BZ

Ffôn 029 2039 5548
Ffacs 029 2038 4347

Printed on Greencoat paper.
Greencoat is produced using 80% recycled fibre and 20% virgin TCF pulp from sustainable forests.

ISBN - 1-904219-00-4



# Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: mwyhau'r buddion i Gymru

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol

Cymru i'w gyflwyno i Gynulliad

Cenedlaethol Cymru ar

13 Mehefin 2002

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

| | |
|---|---|
| John Bourn<br>Archwilydd Cyffredinol Cymru | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Bae Caerdydd<br>Caerdydd<br>CF99 1NA<br><br>27 Mai 2002 |

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu gweithrediadau.

Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Cynhwysodd tîm archwilio'r NAO Gillian Body, James Verity, Ben Robertson, Lisa Griffiths and Bethan Williams.

Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
23-24 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3BA

Ffôn: 029 20 67 8500

e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk
gillian.body@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r Wê: http://www.acc.cymru.gov.uk/dangoseg.htm

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Rhan 1 - Cyflwyniad:** | **6** |
| **Rhan 2 - Cymru a'r Cronfeydd Strwythurol:** | **8** |
| **Rhan 3 - Y System Reoli** | **16** |
| **Rhan 4 - Rheoli'r Risgiau** | **29** |

**Atodiad:**

1. Methodoleg a ddefnyddiwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru 49
2. Camau allweddol yn natblygiad Rhaglenni Ewropeaidd 2000-06 50
3. Cynlluniau Ariannol Amcan 1, 2 a 3 52
4. Arolwg o'r ymgeiswyr 55
5. Meini prawf dewis grantiau Amcan 1, 2 a 3 61
6. Amodau grant 63

# CRYNODEB GWEITHREDOL

1 Mae gan yr Undeb Ewropeaidd bedair Cronfa Strwythurol sydd ar gael iddo er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd:

- **Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd** (ERDF), sydd â'r nod o leihau anghydraddoldebau rhanbarthol;
- **Cronfa Gymdeithasol Ewrop** (ESF), sydd â'r nod o wella rhagolygon ar gyfer cyflogaeth ar draws yr Undeb Ewropeaidd;
- **Cronfa Arweiniad a Gwarant Amaethyddol Ewrop** (EAGGF), sy'n cynorthwyo yn y broses o ddatblygu cymunedau mewn ardaloedd gwledig a'u helpu i arallgyfeirio; ac
- **Offeryn Ariannol Cyfarwyddyd Pysgodfeydd** (FIFG), sy'n cynorthwyo yn y broses o ailstrwythuro'r diwydiant pysgota.

2 Caiff y Cronfeydd Strwythurol eu cyflwyno i'r rhai sy'n eu derbyn drwy raglenni wedi'u targedu, sy'n ymdrin ag amcanion penodol a bennir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Yn ystod y cylch ariannu cyfredol, sef 2000-06, yng Nghymru mae tair rhaglen Amcan a phedair Menter Gymunedol, sy'n llawer llai o ran maint. Y tair rhaglen Amcan yw:

- **Amcan 1**, sy'n gweithredu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Ei nod yw cynorthwyo datblygiad ac addasiad strwythurol rhanbarthau y mae eu datblygiad economaidd ar ei hôl hi;
- **Amcan 2**, sy'n gweithredu mewn rhannau o Ddwyrain Cymru. Ei nod yw cynorthwyo yn y broses o weddnewid yn economaidd ac yn gymdeithasol yr ardaloedd hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn sgîl dirywiad trefol a diwydiannol, ailstrwythuro a cholli gweithgareddau traddodiadol mewn ardaloedd gwledig;
- **Amcan 3**, sy'n gweithredu ymhob ardal y tu allan i ardal Amcan 1. Ei nod yw mynd i'r afael â diweithdra hirdymor drwy ymdrin â materion megis allgáu cymdeithasol a chyfle cyfartal, a thrwy hyrwyddo dysgu gydol oes.

3 Ymhob Rhaglen, mae'r Cronfeydd Strwythurol ond yn darparu cyfran o'r adnoddau ar gyfer prosiect neu gynllun (mae'r gyfran hon yn amrywio ond ar gyfartaledd mae ychydig o dan 50 y cant). Mae'n rhaid ariannu'r gweddill, a elwir yn arian cyfatebol ar y cyd, naill ai o'r sector cyhoeddus neu'r sector preifat o fewn yr Aelod-Wladwriaeth.

4 Bu newid sylweddol yn ystod y cyfnod rhaglennu cyfredol o ran lefel yr arian sydd ar gael i Gymru. Bydd cyfanswm o £1.4 biliwn (heb gynnwys yr elfen o arian cyfatebol) ar gael i'w ymrwymo yn ystod y saith mlynedd rhwng 2000-06, o'i gymharu â'r £395 miliwn o arian a gafodd gan yr Undeb Ewropeaidd yn ystod y cyfnod blaenorol, sef y chwe blynedd rhwng 1994 a 1999. Y rheswm dros y cynnydd hwn yw bod rhannau tlotaf Cymru bellach yn gymwys i gael statws Amcan 1 am y tro cyntaf a'r Rhaglen hon sy'n denu'r rhan fwyaf o arian y Cronfeydd Strwythurol.

5 Rheolir y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru gan un o awdurdodau gweithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru Ewropeaidd Cymru (WEFO) a sefydlwyd ym mis Ebrill 2000. Fodd bynnag, yn unol ag arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau mai un o gysyniadau allweddol gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yw partneriaeth. Ymhlith y partneriaid mae rhai â buddiant amlwg yn y ffordd y caiff y rhaglenni eu cyflwyno a'u canlyniad gan gynnwys busnesau, undebau llafur, cyrff gwirfoddol, grwpiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chydraddoldeb, a chyrff y sector cyhoeddus. Mae Pwyllgorau Monitro'r Rhaglenni, sy'n cynnwys aelodau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, yn goruchwylio pob rhaglen. Yn ogystal, mae'r Cynulliad wedi creu rhwydwaith o bwyllgorau sy'n ymwneud yn fanwl â'r gwaith o gyflwyno'r rhaglenni er mwyn rhoi'r cysyniad o bartneriaeth ar waith. Ar gyfer rhaglen Amcan 1 (ceir llai o bartneriaethau ar gyfer rhaglenni eraill, llai o ran maint), y partneriaethau yw:

- o bartneriaethau lleol, yn seiliedig ar yr awdurdodau lleol yn rhanbarth Amcan 1;
- 10 o bartneriaethau rhanbarthol, sy'n gyfrifol am sectorau penodol o'r economi; a
- pedair partneriaeth strategaeth, y daw nifer gyfartal o'r aelodau o bartneriaethau lleol a phartneriaethau rhanbarthol.

6 Prif rôl y partneriaethau lleol a rhanbarthol yw nodi, cefnogi a chynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu prosiectau. At y partneriaethau hyn y cyfeirir darpar ymgeiswyr am gymorth i ddatblygu syniadau a pharatoi ceisiadau. Prif swyddogaeth y partneriaethau strategaeth yw asesu prosiectau am eu cyfraniad tuag at amcanion strategol y rhaglen a gwneud argymhelliad terfynol i WEFO ynghylch p'un a ddylid cymeradwyo'r prosiect ai peidio.

7 Er bod y cysyniad o bartneriaeth wedi bod yn sail i'r ymagwedd a fabwysiadwyd yng Nghymru ers y dechrau, datblygodd rhai agweddau ar y strwythur a roddwyd ar waith i reoli'r Cronfeydd yn ystod blynyddoedd cyntaf Rhaglen Amcan 1. Yn arbennig, bu'n anodd cysoni rhai cynlluniau gweithredu lleol a rhanbarthol a luniwyd a'u cydlynu â'r strategaeth lefel uwch a nodir yng nghynllun cyffredinol y Rhaglen (y Ddogfen Raglennu Sengl). Yn sgîl y broblem hon crëwyd y partneriaethau strategaeth ym mis Ebrill 2001. Hefyd, wynebodd WEFO yr her o roi'r Rhaglen ar waith - a chynhyrchu gwariant - o dan bwysau ar adeg pan nad oedd y strwythur rheoli eto ar ei wedd derfynol a newydd eu cymeradwyo oedd y cynlluniau allweddol a'r meini prawf dewis. Mae'r gwaith o gyd-drefnu strategaethau ar wahanol lefelau yn dasg sylweddol, barhaus ac yn un arbennig o bwysig gan mai'r strategaethau hyn yw'r prif system o asesu anghenion a chyfleoedd, a thrwy hynny arwain y broses o ddewis prosiectau effeithiol.

8 Yn erbyn y cefndir hwn ac o gofio mai ar gam cymharol gynnar y mae'r rhaglenni, archwiliwyd gennym y risgiau allweddol i Gymru o ran sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r Cronfeydd Strwythurol a sut y rheolir y risgiau gan WEFO a'i phartneriaid. Mae rheoli risg yn dda yn gofyn am nodi'r risgiau allweddol, ac asesu pa mor debygol o ddigwydd ydynt ynghyd â'u heffaith debygol, ac ystyried pa fesurau ataliol neu fesurau wrth gefn, os o gwbl, sy'n briodol. Er mwyn llywio ein gwaith o nodi risgiau, yn ogystal â chyfweld â staff WEFO, rydym wedi ymweld â nifer o bartneriaethau, wedi dadansoddi sampl o geisiadau prosiectau ac wedi cynnal arolwg o'r ymgeiswyr.

9 O ran y cwestiwn **p'un a oes gan WEFO yr adnoddau o ran staff i weithredu ei swyddogaethau'n effeithiol**, canfuwyd gennym bod natur gweithgareddau'r sefydliad yn golygu bod WEFO wedi cael anawsterau i recriwtio digon o staff a oedd yn meddu ar y sgiliau cywir ers ei sefydlu. Ymhlith y canlyniadau mae baich gwaith trwm iawn ar y staff craidd, a phwyslais, a hynny'n ddealladwy, ar y tasgau y mae angen eu gwneud ar unwaith ar draul gwaith nad oes cymaint o frys amdano. Er bod y sefyllfa wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf, mae lefel y staffio yn WEFO yn parhau i fod yn is na'r hyn sydd ei angen ym marn y sefydliad.

10 O ran y cwestiwn **p'un a oes gan WEFO y systemau gwybodaeth i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol**, canfuwyd gennym nad oedd y gwahanol systemau a etifeddodd WEFO oddi wrth y sefydliadau a oedd wedi'i rhagflaenu wedi'u cynllunio i ymdopi â rhaglen lawer mwy o ran maint, ac nad oeddent wedi'u hintegreiddio â'i gilydd. Mae WEFO wrthi'n gwella'r systemau hyn fel un o'i blaenoriaethau pennaf; dylai ffrwyth y gwaith hwn fod ar gael yn ddiweddarach yn 2002. Mae WEFO hefyd yn bwriadu datblygu system wedi'i hintegreiddio'n llawn drwy'r we a fydd yn caniatáu i bobl wneud cais am grant a hawlio arian yn electronig, ond mae'n annhebygol y bydd y system hon yn barod cyn 2004.

11 O ran y cwestiwn **p'un a yw'r rhaglenni'n cael eu hyrwyddo'n effeithiol**, canfuwyd gennym bod prif gyfrwng gwybodaeth WEFO, sef ei gwefan, yn cymharu'n dda â gwefannau rhanbarthau Amcan 1 eraill yn Lloegr. Mae hefyd wedi sefydlu Unedau â'r

nod penodol o gysylltu â'r sectorau hynny sydd wedi cael llai o brofiad uniongyrchol o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol: y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae lle o hyd i gyd-drefnu gweithgareddau hyrwyddo gyda'r partneriaethau yn well.

12 O ran y cwestiwn **p'un a gaiff ceisiadau prosiectau eu harfarnu drwy weithdrefnau arfarnu cadarn**, canfuwyd gennym, er bod gweithdrefnau WEFO yn gadarn yn y bôn, bod lle i'r Swyddfa, ynghyd â'r partneriaid ddefnyddio dulliau mwy soffistigedig, yn enwedig wrth asesu a oes angen prosiect, gwerth ychwanegol prosiectau, gwerth am arian a risg. Rydyn ni wedi gwneud nifer o argymhellion, a nodir isod, er mwyn cynorthwyo yn hyn o beth.

13 O ran y cwestiwn **p'un a yw'r broses arfarnu yn rhy llafurus a chymhleth**, canfuwyd gennym y dylai fod modd i WEFO gyrraedd ei tharged o 90 diwrnod ar gyfer ymdrin â cheisiadau ar yr amod bod y ceisiadau'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae'r terfyn amser hwn yn unol â rhanbarthau tebyg. Mae cryn dipyn o arweiniad ar gael i ymgeiswyr ac mae WEFO yn ymateb i'w dymuniadau i symleiddio'r arweiniad, ond mae amrywiaeth a natur gymhleth y rhaglenni'n golygu bod hyn yn dipyn o her. Mae sawl opsiwn ar gael i WEFO leihau'r baich ar ymgeiswyr o ran gwybodaeth yn enwedig drwy weithio gyda phartneriaid i gomisiynu prosiectau sy'n bodloni meini prawf penodol.

14 O ran y cwestiwn **p'un a yw arian cyfatebol ar gael yn hawdd**, canfuwyd gennym bod swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach yn gweithio gyda WEFO i sicrhau y bydd gwell arweiniad ar ffynonellau posibl o arian cyfatebol ar gael i ymgeiswyr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu nifer o ffynonellau o arian cyfatebol. Dylai'r cynlluniau gynnwys gwell gwybodaeth ar arian cyfatebol fel rhan o'r broses o ddatblygu'r systemau TG newydd helpu i dynnu sylw WEFO a'r partneriaethau at unrhyw broblemau dechreuol o ran mynediad ymgeiswyr i arian cyfatebol.

15 O ran y cwestiwn **p'un a gaiff prosiectau eu rheoli'n gywir yn ariannol**, canfuwyd gennym bod WEFO wedi sefydlu gweithdrefnau er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau'n effeithiol tra'n bodloni gofynion yr Undeb Ewropeaidd. Mae maint a natur gymhleth y rhaglenni'n golygu ei bod yn arbennig o bwysig bod gweithgareddau WEFO ym maes rheolaeth ariannol yn canolbwyntio ar feysydd allweddol o risg, yn ôl ei bwriad.

16 O ran y cwestiwn **p'un a gaiff prosiectau a rhaglenni eu monitro yn ddigonol**, canfuwyd gennym bod WEFO, gan weithio gyda'r partneriaethau, yn cymryd camau i fonitro llawer mwy ar lefel prosiectau. Ar lefel y rhaglenni, y prif fwlch yw'r diffyg gwybodaeth dda o hyd ar yr hyn a gynhyrchir; mae gwaith mewn llaw i fynd i'r afael â hyn.

17 O ran y cwestiwn **p'un a gaiff y cronfeydd eu gwario'n ddigon cyflym i osgoi "dadymrwymo"** (y Comisiwn Ewropeaidd yn tynnu arian yn ôl), canfuwyd gennym mai risg isel sydd o ran ERDF a ESF, ar yr amod y caiff ymrwymiadau eu troi'n geisiadau dilys. Mae'r risg o ran EAGGF ac FIFG yn uwch, lle mae WEFO yn dibynnu ar nifer gymharol fach o brosiectau i fynd rhagddynt yn ôl y bwriad. Mae WEFO yn ymwybodol iawn o'r risg bosibl y bydd Cymru yn colli arian, ond erys hyn yn risg anodd i'w rheoli, yn enwedig am fod WEFO yn dal i ddatblygu ei gwybodaeth ynglŷn â'r ffordd y mae'r rhaglenni'n gweithredu a'i dealltwriaeth ohonynt.

18 O ran y cwestiwn **p'un a oes trefniadau gwerthuso effeithiol**, canfuwyd gennym y dylai fod modd i WEFO ragori ar yr isafswm safonau a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn enwedig pan ddaw'r gwelliannau arfaethedig i'w systemau gwybodaeth i fod.

19 O ran y cwestiwn **p'un a gaiff Cymru arian o'r gronfa berfformiad Wrth Gefn**, (pedwar y cant o werth y rhaglenni sy'n daladwy gan ddibynnu ar ganlyniadau'r gwerthusiad canol tymor allanol), canfuwyd gennym y dylai Cymru fod mewn sefyllfa dda i fod yn gymwys i gael arian o'r gronfa wrth gefn.

20 Argymhellwn:

i y dylai WEFO barhau i weithio i ddatblygu systemau technoleg gwybodaeth gwell gyda'r bwriad o roi system wedi'i hintegreiddio'n llawn ar waith mor fuan â phosibl;

ii y dylai WEFO sicrhau y caiff pob mater sy'n gofyn am lunio barn, gan gynnwys sgoriau asesiadau a ddyfernir yn y broses arfarnu, ei gyfiawnhau'n ysgrifenedig;

iii y dylai WEFO gyfrannu 'n fwy at asesu'r ddadl dros werth ychwanegol (y gofyniad bod prosiectau'n rhoi manteision ychwanegol gwirioneddol) wrth arfarnu prosiectau, drwy ganolbwyntio ar sefyllfaoedd lle mae risg yn bodoli a sicrhau bod pob parti yn ymwybodol o'r hyn sydd ar angen.

iv y dylai WEFO ymgorffori asesiad manylach o ansawdd prosiectau a ph'un a oes eu hangen yn ei meini prawf dewis wrth asesu prosiectau ERDF, EAGGF ac FIFG, ac ar gyfer pob Cronfa y dylai gwaith partneriaethau o ran hynny gael ei ddogfennu a'i ymgorffori'n uniongyrchol yn y broses arfarnu er mwyn lleihau dyblygu gwaith i'r eithaf. Lle na wneir asesiad manwl, dylai WEFO adolygu'r dystiolaeth angenrheidiol ei hun a'i dogfennu'n llawn ar ei ffeiliau arfarnu;

v y dylai WEFO ailystyried ei threfniadau ar gyfer bodloni ei hun ar y gwerth am arian a roddir gan brosiectau sy'n gwneud cais am arian, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r wybodaeth a ddefnyddir i lunio barn a'r arweiniad sydd ar gael i'r staff sy'n llunio barn;

vi y dylai WEFO ymgorffori arweiniad manylach ar y themâu trawsbynciol sef cyfle cyfartal, cynaliadwyedd amgylcheddol a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu yn ei meini prawf sgorio;

vii y dylid gofyn i noddwyr prosiectau nodi'r risgiau sy'n ymwneud â'u prosiectau a sut y cânt eu rheoli;

viii y dylai WEFO ystyried y posibilrwydd o fyrhau'r ffurflen gais er mwyn iddi gynnwys yn bennaf fanylion penodol ynglŷn â'r prosiect a'i gydymffurfiad â'r rheoliadau, gyda chynllun busnes sy'n cynnwys y cyfiawnhad terfynol dros y prosiect;

ix y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu arweiniad ar ffynonellau o arian cyfatebol, yn gweithio mewn cydweithrediad â'r partneriaethau er mwyn sicrhau y caiff anghenion ymgeiswyr eu diwallu ac y caiff yr adnoddau presennol eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl;

x y dylai WEFO adolygu'r holl gyfarwyddiadau i archwilwyr er mwyn sicrhau y caiff digon o wybodaeth gefndirol ei darparu, y caiff sylw archwilwyr eu tynnu at risgiau cyffredin a bod y rhaglenni profi yn gyson ac yn gynhwysfawr;

xi y dylai WEFO adolygu cwmpas ei gwaith ym maes rheolaeth ariannol i ganolbwyntio ar gael cadarnhad cynnar bod systemau digonol ar waith, a dilysu manylion nas cwmpaswyd gan yr archwilwyr allanol;

xii y dylai WEFO barhau i ddatblygu ei strategaeth i fonitro prosiectau mawr neu gymhleth, wedi'i seilio ar yr adnoddau sydd ar gael ac wedi'i chyd-drefnu â gwaith ei Thîm Rheoli Ariannol ac

xiii y dylai WEFO barhau â'i hymdrechion cyfredol i leihau'r risg y caiff arian EAGGF ac FIFG ei ddadymrwymo.

## Casgliad cyffredinol

21 Bu'r her i WEFO a'i phartneriaid ledled Cymru yn un sylweddol ac erys her sylweddol o hyd. Mae'r swm sydd ar gael o'r Cronfeydd Strwythurol yn ystod y cyfnod rhaglennu cyfredol, yn uwch o lawer na'r hyn a gafodd Cymru o'r blaen, a bu cryn bwysau yn wleidyddol a chan y cyhoedd i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r arian hwn. Bydd rhywfaint o densiwn bob amser rhwng proses gwneud cais sy'n hwylus i ymgeiswyr a'r angen i WEFO arfarnu prosiectau'n drylwyr yn erbyn y meini prawf dewis a nodir gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni, yn unol â rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd a'r safonau a ddisgwylir gan gorff cyhoeddus. Yn erbyn y cefndir hwn, mae angen i WEFO gael y cydbwysedd iawn rhwng cymeradwyo prosiectau'n gyflym er mwyn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd ac osgoi dadymrwymo, a sicrhau bod systemau cadarn ar waith er mwyn i'r prosiectau cywir gael eu dewis yn unol â'r amcanion strategol a bod pob gwariant yn cael ei fonitro a'i reoli'n gywir. Bu'n arbennig o anodd yn ystod blynyddoedd cynnar y cyfnod rhaglennu cyfredol i wneud hyn ac mae'n her allweddol o hyd gan fod pawb sydd ynghlwm wrth y broses wedi gorfod dysgu llawer yn gyflym. Er ein bod wedi awgrymu rhai ffyrdd o dynhau'r broses arfarnu, ac mae'n rhy gynnar i farnu faint yw'r risg o ddadymrwymo, rydym yn fodlon yn gyffredinol bod WEFO wedi bod yn effro i'r her hon ac wedi ceisio cael y cydbwysedd iawn.

22 Yn ogystal, o ganlyniad i'r penderfyniad i weithio drwy bartneriaethau ar bob lefel, yn enwedig ar raglen Amcan 1, bu'r broses yn fwy cymhleth a llafurus yn ystod y camau cynnar wrth i'r partneriaid ymdrechu i ddod i gytundeb ar faterion allweddol. Mae WEFO o'r farn bod yr anawsterau a'r tensiynau a gafwyd yn sgîl y penderfyniad hwn yn anochel, ac y bydd yr amser a'r ymdrech a roddwyd i gael consensws ar ddechrau'r rhaglenni yn talu ar ei ganfed wrth i'r rhaglenni ddatblygu ac aeddfedu. Mae'n siwr mai dim ond ar ôl i'r rhaglenni ddod i ben ac ar ôl iddynt gael eu gwerthuso y gellir barnu pa mor lwyddiannus oedd y penderfyniad hwn.

23 Mae cynnydd ar waith. Ond nid ymarfer yn unig yw cywiro'r gwaith papur am resymau gweithredol. Un cymhleth yw maes Cronfeydd Strwythurol gydag arian mawr yn y fantol. Llunir ein cymeradwyaethau i helpu Cymru, trwy asiantaeth WEFO a'i phartneriaid, gwneud y gorau o'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael i'r wlad yn y cyfnod hwn.

# RHAN 1 - CYFLWYNIAD

1.1 Diben Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yw mynd i'r afael â phroblemau strwythurol economaidd a chymdeithasol er mwyn lleihau anghydraddoldebau rhwng gwahanol ranbarthau a grwpiau cymdeithasol. Mae'r Undeb yn negodi rhaglen o gymorth gyda'r awdurdodau perthnasol dros gyfnod o saith mlynedd; dechreuodd y cyfnod rhaglennu cyfredol ar 1 Ionawr 2000 a daw i ben ar 31 Rhagfyr 2006.

1.2 Mae cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd wedi'u cynllunio i gyflwyno adnoddau pellach wedi'u hanelu at ardaloedd â'r angen mwyaf. O dan y telerau ar gyfer rhoi arian strwythurol, mae'n rhaid i arian a ddarperir gan yr Undeb Ewropeaidd fod yn wirioneddol ychwanegol at yr arian sydd eisoes yn cael ei wario ar weithgareddau cyffelyb gan yr aelod-wladwriaeth. Gelwir y cysyniad hwn yn ychwanegedd ac fe'i gymhwysir mewn dwy ffordd:

- bydd y Cronfeydd Strwythurol ond yn ariannu cyfran o brosiect neu gynllun - caiff y gweddill ei ariannu ar y cyd naill ai gan y sector cyhoeddus neu'r sector preifat o fewn yr aelod-wladwriaeth (a elwir yn arian cyfatebol); a
- mae'n rhaid i gyfanswm y gwariant cyhoeddus ar weithgareddau go debyg, yn y meysydd a gwmpesir gan y rhaglen Ewropeaidd berthnasol beidio â gostwng o dan lefel y cytunwyd arni ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd ar y cychwyn.

1.3 Mae Cymru mewn sefyllfa i elwa cryn dipyn ar gronfeydd strwythurol Ewrop yn ystod y cylch cyfredol. Mae'r symiau dan sylw yn newid sylweddol o lefel yr arian a oedd ar gael yn flaenorol. Bydd cyfanswm o 2.2 biliwn o ewros (£1.4 biliwn) ar gael i'w ymrwymo yn ystod y saith mlynedd rhwng Ionawr 2000 a Rhagfyr 2006, sef £200 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd. Dylid cymharu'r swm hwn â chyfanswm o £395 miliwn yn y cyfnod o chwe blynedd rhwng 1994 a 1999 a oedd yn cyfateb i £66 miliwn y flwyddyn.

1.4 Y rheswm dros y cynnydd yn yr arian hwn yw bod rhannau tlotaf Cymru, sef y gorllewin a chymoedd y de-ddwyrain bellach yn gymwys i gael statws "Amcan 1" (esbonnir hyn ymhellach ym mharagraff 2.11). O ganlyniad, er y bydd Cymru gyfan yn elwa ar y Cronfeydd Strwythurol, dyrannwyd 84 y cant o'r arian i ardal Amcan 1.

1.5 Mae'n annhebygol y bydd yr un lefel o gymorth ar gael yn ystod y cyfnod nesaf o saith mlynedd (2007-2013) gan fod nifer o wladwriaethau canol a dwyrain Ewrop yn debygol o fod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd erbyn hyn. Gan fod y gwledydd hyn yn llawer llai ffyniannus na'r aelod-wladwriaethau presennol, ar ôl iddynt ymuno bydd effaith amlwg ar gymhwyster ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol ac mae'n annhebygol y bydd Cymru yn gymwys i gael yr un faint o arian o'r Cronfeydd Strwythurol ag a gafodd yn y gorffennol. Felly mae'n hanfodol bod Cymru yn sicrhau'r budd mwyaf posibl o raglenni presennol y Cronfeydd Strwythurol.

1.6 Caiff Cronfeydd Strwythurol Ewrop eu rheoli yng Nghymru gan Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), sef un o awdurdodau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth ag ystod eang o bartïon â diddordeb gan gynnwys awdurdodau lleol, asiantaethau'r llywodraeth, mudiadau gwirfoddol, busnesau preifat ac undebau llafur. Prif amcanion WEFO yw "sicrhau bod Cymru yn cael y budd mwyaf posibl o raglenni Ewrop a chronfeydd adfywio eraill a:

- hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy;
- cynyddu ffyniant ymhob rhan o Gymru;
- lleihau anghysonderau yng Nghymru; a
- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, anweithgaredd ac allgáu cymdeithasol."

1.7 Mae WEFO a'i phartneriaid yn rheoli ac yn hyrwyddo'r rhaglenni, gan helpu i ddatblygu gallu noddwyr prosiectau i wneud y defnydd gorau o'r cronfeydd a rhoi grantiau i gefnogi prosiectau. Nid yw WEFO yn datblygu ei phrosiectau ei hun; caiff yr arian a ddarperir gan y Cronfeydd Strwythurol ei wario ar lawr gwlad gan nifer o noddwyr prosiectau amrywiol iawn.

## Cwmpas yr astudiaeth

1.8 Yng Nghymru bu disgwyl mawr y bydd yr arian hwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, ochr yn ochr ag amheuon ynglŷn â'r ffordd y mae'r rhaglenni, yn arbennig Amcan 1, yn cael eu gweithredu. Yn erbyn y cefndir hwn, penderfynasom, gydag anogaeth Pwyllgor Archwilio y Cynulliad, ystyried y ffordd y caiff y cronfeydd eu gweinyddu. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y rhaglen oherwydd nid oes ond ychydig iawn o brosiectau wedi'u cwblhau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt ar gam cynnar. Diben yr adroddiad hwn felly yw:

- rhoi trosolwg o'r Cronfeydd Strwythurol fel y maent yn gymwys i Gymru (Rhan 2);
- cynnig beirniadaeth ar y system reoli sydd ar waith i weinyddu'r rhaglenni, gan nodi cymariaethau â rhanbarthau eraill yn Lloegr ac Iwerddon lle y bo'n briodol (Rhan 3); a

- nodi risgiau a allai atal Cymru rhag sicrhau'r budd mwyaf o'r cronfeydd, ac asesu'r camau a gymerwyd gan WEFO ac eraill i reoli'r risgiau hynny (Rhan 4).

1.9 Felly bydd pwyslais yr adroddiad hwn ar edrych ymlaen i'r dyfodol ar y cyfan. Y nod yw cloriannu'r cynnydd a wnaed eisoes, gan gydnabod mai ar gam cymharol gynnar y mae'r rhaglenni o hyd, ac asesu a yw Cymru ar y trywydd cywir i wneud y defnydd gorau o'r arian hwn. Felly nid ydym wedi cyfeirio at y rhaglenni Ewropeaidd blaenorol (1994-1999) ac eithrio pan fyddant yn llywio ein dadansoddiad o'r risgiau i lwyddiant y rhaglenni cyfredol. Gan fod y rhan fwyaf o'r cylch ariannu cyfredol wedi'i hanelu at Amcan 1, rydym wedi canolbwyntio ar y rhaglen honno ar y cyfan.

1.10 Ceir manylion llawn am ein methodoleg yn Atodiad 1. I grynhoi, rydym:

- wedi adolygu dogfennau perthnasol a gweithdrefnau WEFO;
- wedi cynnal arolwg o 100 o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus i'r Cronfeydd i asesu eu barn hwy ar y ffordd y mae'r gweithdrefnau ar gyfer dewis prosiectau yn gweithredu ac ar rôl y partneriaethau;
- wedi adolygu 42 o geisiadau prosiectau i asesu'r ffordd y mae'r gweithdrefnau arfarnu a monitro yn gweithredu;
- wedi cyfweld ag aelodau allweddol o staff WEFO;
- wedi cynnal cyfarfodydd â ysgrifenyddiaethau partneriaethau a ddewiswyd i drafod y ffordd y caiff y Cronfeydd Strwythurol eu rheoli; ac
- wedi ymweld â dau ranbarth yn y Deyrnas Unedig sy'n cael arian Amcan 1 (Cernyw a Glannau Merswy) a Gweriniaeth Iwerddon er mwyn edrych ar agweddau ar y ffordd y maent hwy yn rheoli'r Cronfeydd o'u cymharu â Chymru.

1.11 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn talu pob cymorth gan y Cronfeydd Strwythurol mewn ewros. Mae'r gwerth sterling yn dibynnu ar y gyfradd gyfnewid yn weithredol ar ddiwrnod gwaith olaf y mis cyn y mis pan delir noddwyr prosiectau gan WEFO. Mae WEFO yn defnyddio cyfradd gynllunio o 1.62 ewro i'r bunt, ac rydym wedi defnyddio'r un gyfradd drwy'r adroddiad hwn. Ers dechrau'r rhaglen ym mis Ionawr 2000, nid yw'r gyfradd gyfnewid wedi newid yn sylweddol o'r ffigur hwn. Fodd bynnag, gallai newidiadau mawr yn y gyfradd hon gael effaith sylweddol ar y swm sydd ar gael i Gymru.

# RHAN 2 - CYMRU A'R CRONFEYDD STRWYTHUROL

## Beth yw'r Cronfeydd Strwythurol?

2.1 Mae gan yr Undeb Ewropeaidd sawl Cronfa Strwythurol sydd ar gael iddo er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd. Mae pedair Cronfa ar gael i Gymru yn y cyfnod 2000-06:

- y **Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd** (ERDF), sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhwng rhanbarthau drwy gynorthwyo rhanbarthau o dan anfantais. Mae'n ariannu seilwaith, buddsoddiadau i greu swyddi, prosiectau datblygu lleol a chymorth i fentrau bach a chanolig eu maint;
- **Cronfa Gymdeithasol Ewrop** (ESF), sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol rhwng rhanbarthau a rhwng grwpiau cymdeithasol. Mae'n annog grwpiau o bobl ddi-waith a grwpiau o dan anfantais i ddychwelyd i'r gweithlu, yn bennaf drwy ariannu mesurau hyfforddiant a systemau o gymorth recriwtio;
- **Cronfa Arweiniad a Gwarant Amaethyddol Ewrop** (EAGGF), sy'n rhoi cymorth i ddatblygu gwledig; ac
- **Offeryn Ariannol Cyfarwyddyd Pysgodfeydd** (FIFG), sy'n cynorthwyo yn y broses o ailstrwythuro'r diwydiant pysgodfeydd yng nghyd-destun y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

2.2 Mae'r dyraniad blynyddol cyfartalog o'r Cronfeydd Strwythurol o fewn cyllideb yr Undeb Ewropeaidd wedi cynyddu o 13.6 biliwn ewros (prisiau 1997) yn y cyfnod 1988-1993 i 30.4 biliwn ewros bob blwyddyn yn 2000-06. Dyrennir cyfanswm o 195 biliwn o ewros ar gyfer y Rhaglenni cyfredol dros saith mlynedd, y daw 2.2 biliwn o ewros (£1.4 biliwn), neu 1.1 y cant ohono i Gymru. Fel cymhariaeth, mae Cymru yn cyfrif am 0.8 y cant o boblogaeth yr Undeb Ewropeaidd sef 376 miliwn o bobl.

## Pwy sy'n elwa ar y Cronfeydd Strwythurol?

2.3 Caiff y Cronfeydd Strwythurol eu cyflwyno i'r rhai sy'n eu derbyn drwy raglenni wedi'u targedu. Yn nherminoloeg yr Undeb Ewropeaidd, mae tair rhaglen Amcan a phedair Menter Gymunedol, sy'n llawer llai o ran maint. Disgrifir pob un yn **Ffigur 1** isod.

## Mentrau Cymunedol

2.4 Bydd Cymru hefyd yn elwa ar bedair **Menter Gymunedol** sydd â'r nod o fynd i'r afael â materion penodol sef:

- INTERREG IIIa: sy'n hyrwyddo cydweithrediad trawsffiniol, rhyngwladol a rhwng rhanbarthau. Mae cyd-raglen Iwerddon/Cymru o dan linyn INTERREG IIIa yn cwmpasu Gorllewin Cymru a de-ddwyrain Iwerddon. Dyrennir cyfanswm o £29.4 miliwn ar gyfer y rhaglen o'r ERDF. Mae Cymru hefyd yn gymwys o dan linyn INTERREG IIIb (dyraniad dynodol y Deyrnas Unedig £92 miliwn) sy'n hyrwyddo datblygiad cytbwys ar draws grwpiau mawr o ranbarthau Ewrop, a llinyn INTERREG IIIc (dyraniad dynodol y Deyrnas Unedig £14 miliwn) sy'n benodol ar gyfer rhwydweithio rhwng rhanbarthau;
- URBAN II: cymorth ar gyfer strategaethau arloesol i adfywio dinasoedd ac ardaloedd trefol sy'n dirywio. Rhoddir y rhan fwyaf o'r cymorth i nifer fach o ardaloedd trefol. Yng Nghymru, dewiswyd gorllewin Wrecsam i gael £6.6 miliwn dros oes y rhaglen;
- LEADER+: yn cynorthwyo yn y broses o ddatblygu strategaethau lleol arloesol ar gyfer datblygu cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig. Bydd yr Undeb Ewropeaidd yn darparu tua £9.1 miliwn i Gymru dros y cyfnod 2000-06; ac
- EQUAL: yn hyrwyddo ffyrdd newydd o wrthsefyll pob math o gamwahaniaethu ac anghydraddoldebau yn y farchnad waith, drwy gydweithrediad rhyngwladol. Bydd yr Undeb Ewropeaidd yn darparu tua £13 miliwn i Gymru dros y cyfnod 2000-2006.

Yn ogystal, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn dyrannu swm bach (£2 filiwn ar gyfer Cymru) yn benodol ar gyfer prosiectau sy'n datblygu ffyrdd gwell o gyflwyno rhaglenni drwy ddulliau ac arferion arloesol. Astudiaethau ymchwil, prosiectau peilot a chyfnewid profiad yw'r prosiectau arferol o dan y cronfeydd arloesol hyn. Bydd Cymru hefyd yn cael £5 miliwn o arian strwythurol i gynorthwyo yn y gwaith o roi'r Cynllun Datblygu Gwledig ar waith, sy'n dwyn ynghyd ystod o fesurau i gynorthwyo datblygiad integredig a chynaliadwy Cymru wledig.

## Ffigur 1

### Rhaglenni Amcan 1, 2 a 3

| Amcan | Nod | Cronfeydd Strwy-thurol a ddefnyddir | Cyfanswm yr ariannu ar draws Ewrop 2000-06 £ biliwn (canran o'r cyfanswm) | Uchafswm cyfradd grant[1] | Cyfran o boblogaeth yr UE | Rhanbarth yng Nghymru | Rhanbarthau eraill y DU (heb gynnwys rhanbarthau trosiannol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cynorthwyo datblygiad ac addasiad strwythurol rhanbarthau y mae eu datblygiad ar ei hôl hi, yn gyffredinol y rhai sydd â CMC y pen sy'n is na 75% o gyfartaledd yr UE. | ERDF<br>ESF<br>EAGGF<br>FIFG | 85<br>(70%) | 75%<br>(85% mewn ardaloedd anghys-bell) | 22% | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cernyw, Glannau Merswy, De Swydd Efrog<br><br>(Mae gan Ogledd Iwerddon raglen Amcan 1 arbennig, sef PEACE) |
| 2 | Cynorthwyo'r broses o weddnewid ardaloedd sy'n wynebu anawsterau strwythurol yn economaidd ac yn gymdeithasol:<br>• sectorau diwydiannol neu wasanaeth sy'n cael eu hailstrwythuro<br>• colli gweithgareddau traddodiadol mewn ardaloedd gwledig<br>• ardaloedd trefol sy'n dirywio<br>• anawsterau yn y sector pysgodfeydd | ERDF yn bennaf<br><br>ESF<br><br>EAGGF<br><br>FIFG | 14.5<br>(11.5%) | 50% | 18% | Rhannau o Gaerdydd Cas-newydd, Sir Fynwy a Phowys | Nifer fawr o leoedd ar draws y DU, o fewn ardaloedd trefol neu ddiwydiannol mawr yn bennaf |
| 3 | Cynorthwyo yn y broses o addasu a moderneiddio polisïau cenedlaethol a systemau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Rhoddir pwyslais ar grwpiau cymdeithasol difreintiedig yn hytrach na rhanbarthau | ESF | 15<br>(12.3%) | 50% | Ar draws yr UE y tu allan i ardaloedd Amcan 1 | Pob rhan o Gymru y tu allan i ardal Amcan 1 | Pob rhan o'r DU y tu allan i ardal Amcan 1 |

**NODIADAU**

1. Canran cyfanswm gwariant y rhaglen a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol (yn wahanol i'r elfen arian cyfatebol)

   Mae Amcan 2 yn cynnwys elfen o arian trosiannol ar gyfer ardaloedd a gwmpaswyd yn flaenorol gan Amcan 2 ac Amcan 5b o dan Raglenni cyn 2000 ond nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan y Rhaglenni newydd

*Ffynhonnell: Gwefan Inforegio a Dogfennau Rhaglennu Sengl Cymru / Rhaglen Weithredol*

*Dogfen Raglennu Sengl neu Raglen Weithredol*
Mae pob rhanbarth neu aelod-wladwriaeth yn llunio cynllun datblygu ar gyfer y rhanbarthau neu'r grwpiau cymdeithasol yr effeithir arnynt, sy'n ystyried canllawiau thematig y Comisiwn Ewropeaidd. Rhaid i'r cynlluniau adolygu'r sefyllfa economaidd a chymdeithasol gyfredol, dadansoddi cryfderau a gwendidau, nodi blaenoriaethau a chynnig rhaglen integredig o weithgareddau ynghyd â chyllidebau a thargedau penodol i fynd i'r afael â gwendidau. Rhaid i'r cynllun hefyd ystyried datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal, a threfniadau cyflawni. Gelwir y cynllun yn Ddogfen Raglennu Sengl ar gyfer Amcan 1 ac Amcan 2 ac yn Rhaglen Weithredol ar gyfer Amcan 3 sy'n gweithredu o fewn Fframwaith Cymorth Cymunedol ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo'r Ddogfen Raglennu Sengl neu'r Rhaglen Weithredol ni ellir ei newid heb ganiatâd y Comisiwn.

*Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni*
Sefydlir Pwyllgor Monitro ar gyfer y Rhaglen, yn cynnwys unigolion o ystod eang o bartneriaid a gefnogir gan gynghorwyr sy'n arbenigwyr i oruchwylio pob rhaglen (disgrifir y Pwyllgor am raglen Amcan 1 yng Nghymru ymhellach ym mharagraff 3.8). Fodd bynnag mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r rhaglen o ddydd i ddydd yn nwylo WEFO fel yr Awdurdod Rheoli.

*Dogfen Ategol y Rhaglen*
Mae'r Rhanbarthau neu'r aelod-wladwriaethau yn paratoi Dogfen Ategol ar gyfer y Rhaglen, sy'n manylu ar natur, cyllideb a thargedau'r mesurau ar gyfer pob blaenoriaeth (disgrifir mesurau a blaenoriaethau ym mharagraff 2.15). Mae gan yr Awdurdod Rheoli y disgresiwn i newid Dogfen Ategol y Rhaglen o fewn cyfyngiadau'r Ddogfen Raglennu Sengl neu'r Rhaglen Weithredol gyda chytundeb Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni.

*Gwerthuso canol tymor*
Yn ystod pedwaredd flwyddyn y Rhaglenni (2003), caiff effeithiolrwydd pob rhaglen ei werthuso drwy werthusiad canol tymor sy'n cael ei drefnu gan y rhanbarth ond ei gyflawni gan gontractwr annibynnol sy'n dilyn arweiniad a roddir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Dyrennir cronfa berfformiad wrth gefn, sef pedwar y cant o gyfanswm pob rhaglen, i'r rhaglenni mwyaf llwyddiannus ymhob aelod-wladwriaeth (er bod y Comisiwn wedi cytuno y caiff y gronfa berfformiad wrth gefn sy'n ymwneud â Chymru ei chadw yn y wlad).

*Ymrwymo arian*
Bydd angen ymrwymo'r holl arian erbyn 31 Rhagfyr 2006 (31 Rhagfyr 2005 ar gyfer ardaloedd trosiannol Ardal 2) ac mae'n rhaid talu'r rhan fwyaf o'r gwariant cymwys erbyn 31 Rhagfyr 2008. Cyflwynir cais terfynol i'r Comisiwn erbyn 31 Rhagfyr 2008 ynghyd ag adroddiad terfynol ar ddechrau a datganiad gan awdurdod sy'n annibynnol yn swyddogaethol (yng Nghymru, Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad) sy'n nodi a fodlonwyd amodau penodol ai peidio.

## Sut y mae'r Cronfeydd Strwythurol yn gweithio?

2.5 Ceir nifer o reoliadau sy'n rheoli'r ffordd y caiff y Cronfeydd eu defnyddio, sy'n gyfrwymol ar bob aelod-wladwriaeth. Maent yn cwmpasu, er enghraifft, pa weithgareddau a chostau sy'n gymwys i gael cymorth; sut y dylid tynnu arian o'r Cronfeydd; a gofynion monitro a rheoli. Ceir rheoliadau hefyd ynglŷn â natur ac ystod nawdd y wladwriaeth y gellir ei roi i gwmnïau o ffynonellau sector cyhoeddus, ac mae'r rhain hefyd yn effeithio ar y cymorth a ddarperir drwy'r Cronfeydd Strwythurol.

2.6 Mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff penodol fod yn atebol ar gyfer y tasgau allweddol sy'n rhan o'r cylch rheoli:

- mae'r **Awdurdod Rheoli** yn gyfrifol am effeithlonrwydd a chywirdeb dulliau rheoli a chyflawni. Gall ddirprwyo ei bwerau i ddewis a monitro prosiectau i "Gyrff Atebol"; ac
- mae'r **Awdurdod Talu** sy'n gyfrifol am lunio a chyflwyno ceisiadau ardystiedig am daliadau a derbyn taliadau gan y Comisiwn.

Gall yr un sefydliad ymgymryd â'r ddwy rôl ond, er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau, mae'n rhaid bod swyddogaethau o fewn y sefydliad dan sylw wedi'u gwahaniaethu'n ddigonol. Yng Nghymru, gan y Cynulliad y mae'r swyddogaethau hyn ac fe'u dirprwywyd ganddo i WEFO.

2.7 Gweinyddir pob un o'r rhaglenni Amcan a'r Mentrau Cymunedol ar wahân. Mae rhaglenni cronfeydd strwythurol yn gweithredu yn unol â gweithdrefn benodol a sefydlwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Nodir elfennau allweddol o'r weithdrefn yn y blwch isod. Ceir crynodeb llawn, gan gynnwys y dyddiadau pan gyflawnwyd pob cam (neu y disgwylir i gamau gael eu cyflawni) ar gyfer y tair Rhaglen Amcan yng Nghymru, yn Atodiad 2.


## Faint o arian sydd ar gael i Gymru?

2.8 Bwriedir gwario cyfanswm o £2.9 biliwn dros y cyfnod o saith mlynedd rhwng 2000 a 2006 ar brosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. O'r swm hwn, bydd yr Undeb Ewropeaidd yn darparu hyd at £1.36 biliwn, neu 47 y cant o'r Cronfeydd Strwythurol (mae cyfran yr arian a roddir gan yr Undeb Ewropeaidd, "y gyfradd grant" yn amrywio yn dibynnu ar y rhaglen a'r mesur). Rhennir y gweddill

sef £1.55 biliwn, yr elfen o arian cyfatebol, rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Dengys **Ffigur 2** ddadansoddiad o'r ffordd y caiff Rhaglenni Ewropeaidd eu hariannu. Dengys **Ffigur 3** y ffordd y rhennir y cyfanswm rhwng y gwahanol Gronfeydd, Amcanion a Mentrau Cymunedol.

**Ffigur 2**

**Ffynonellau arian wedi'u cynllunio ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Dogfennau Rhaglennu Sengl a'r Rhaglen Weithredol*

## Pa ardaloedd yng Nghymru a fydd yn elwa ar y cronfeydd?

2.9 Dengys **Ffigur 4** pa rannau o Gymru a fydd yn elwa ar y Cronfeydd. Dosberthir yr arian yn bennaf yr yn ardal Amcan 1 sydd leiaf ffyniannus.

## Pam bod Cymru yn cael arian o'r Cronfeydd Strwythurol?

2.10 Diben y Cronfeydd Strwythurol yw cynorthwyo yn y broses o sicrhau bod rhanbarthau o dan anfantais yn cydgyfeirio â chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd, a rhoi cymorth i grwpiau cymdeithasol o dan anfantais. Ers amser maith bu Cymru yn llai ffyniannus na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, gyda CMC y pen ar gyfartaledd rhwng 80 y cant a 85 y cant o'r cyfartaledd cenedlaethol dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Mae Cymru hefyd wedi bod ar ei hôl hi o ran nifer o ddangosyddion o ffyniant, megis diweithdra, cyfraddau gweithgaredd economaidd, ffurfio a datblygu busnesau, enillion cyfartalog ac incwm cartref.

2.11 Mae'r problemau hyn yn arbennig o ddwys yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, y mae eu CMC y pen 73 y cant o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Yn y gorffennol dim ond dau ranbarth yng Nghymru a gydnabuwyd gan yr Undeb Ewropeaidd: Gogledd Cymru a De Cymru, na fyddai'r naill na'r llall wedi bod yn gymwys i gael statws Amcan 1. Fodd bynnag, derbyniodd y Comisiwn Ewropeaidd ddadl Cymru bod y gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn gyfiawnhad dros eu cydnabod fel rhanbarthau - a thrwy hynny'n caniatáu i Orllewin Cymru a'r Cymoedd fod yn gymwys i gael statws Amcan 1.

## Sut y bydd Cymru yn defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol?

2.12 Nod y strategaeth a nodir yn Nogfen Raglennu Sengl Amcan 1 yw mynd i'r afael â phroblemau strwythurol gwaelodol y rhanbarth a gwella ei berfformiad economaidd ynghyd â gallu hirdymor y rhanbarth ar gyfer twf. Ceir tri phrif nod:

- cynyddu CMC y pen o 73 y cant i 78 y cant o gyfartaledd y Deyrnas Unedig erbyn diwedd 2006;

**Ffigur 3**

**Systemau ar gyfer dosbarthu Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru**

| **Y Cronfeydd Strwythurol:** | **Grant ar gael £m** | **Canran y grant cyfan** |
|---|---|---|
| Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd (ERDF) | 800 | 58.9 |
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) | 460 | 33.8 |
| Crona Arweiniad a Gwarant Amaethyddol Ewrop (EAGGF) | 90 | 6.6 |
| Offeryn Ariannol Cyfarwyddyd Pysgodfeydd (FIFG) | 9 | 0.7 |
| Cyfanswm | 1,359 | 100.0 |

| **Lle y caiff y cronfeydd eu gwario** | **Grant ar gael £m** | **Cyfradd y grant (canran)** | **Arian Cyfatebol £m** | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| Amcan 1 (Gorllewin Cymru a' r Cymoedd) | 1,144 | 47 | 1,289 | 2,433 |
| Amcan 2 (Rhannau o Ddwyrain Cymru) | 75 | 40 | 112 | 187 |
| Amcan 3 (Dwyrain Cymru) | 82 | 42 | 114 | 196 |
| Cyfanswm ar gyfer amcanion | 1,301 | 46 | 1,515 | 2,816 |
| EQUAL (pob rhan o Gymru) | 13 | 50 | 13 | 26 |
| INTERREG III a (Gorllewin Cymru) | 29 | 73 | 11 | 40* |
| LEADER + (Cymru gwledig) | 9 | 47 | 10 | 19 |
| URBAN II (Wrecsam) | 7 | 50 | 7 | 14 |
| Cyfanswm ar gyfer y mentrau cymunedol | 58 | 59 | 41 | 99 |
| Cyfanswm ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol | 1,359 | 47 | 1,556 | 2,915 |

**NODER**

* Dyma' r cyfanswm am gydraglen Iwerddon/ Cymru.

Nid yw'r ffigurau yn cynnwys y Cronfeydd Adnewyddu a' r Cynllun Datblygu'r wlad.

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o' r Dogfennau Rhaglennu Sengl a Dogfennau Ategol y Rhaglenni ar gyfer y Rhaglenni Ewropeaidd*

- creu 43,500 o swyddi newydd dros y cyfnod; a
- lleihau nifer y bobl sy'n anweithgar yn economaidd ymhlith y boblogaeth o oedran gwaith.

2.13 Rhennir pob rhaglen yn feysydd eang o weithgarwch a elwir yn flaenoriaethau. Mae i Amcan 1 saith blaenoriaeth, pedair i Amcan 2 a chwech i Amcan 3. Mae gan bob blaenoriaeth ddyraniad o arian a thargedau allbwn penodol. Mae

## Ffigur 4

**Map o'r ardaloedd sy'n gallu derbyn Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru**

*Ardaloedd y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Prif Ffrwd 2000-2006*

Ardal Amcan 1


Ffin Amcan 3

Ardaloedd Amcan 2

Ardaloedd dros dro arfaethedig Amcan 2

Ardaloedd dros dro arfaethedig Amcan 5b

Ffin Ardal Etholiadol (ym mis Ebril 1998)



*Ffynhonnell: WEFO*

**Ffigur 5** yn rhestru blaenoriaethau Amcan 1, ac yn dangos sut y bwriedir i bob un gyfrannu tuag at ddod o hyd i ateb integredig i broblemau strwythurol y rhanbarth.

2.14 Mae gan bob amcan flaenoriaeth "cymorth technegol", sydd â'r nod o gynorthwyo yn y broses o reoli a gweinyddu'r rhaglen. Yn gyffredinol neilltuir £40.4 miliwn neu 1.4 y cant o'r holl gronfeydd sydd ar gael ar gyfer cymorth technegol dros y saith mlynedd y bydd y rhaglenni yn parhau.

2.15 Rhennir pob blaenoriaeth eto yn fesurau, sy'n nodi'n fanylach yr hyn a gaiff ei wneud i gyflawni nodau'r rhaglen. Mae gan bob mesur hefyd ddyraniad o arian a thargedau allbwn priodol. Mae 37 o fesurau i Amcan 1, naw i Amcan 2 a 18 i Amcan 3. Rhestrir mesurau Amcan 1, a blaenoriaethau'r Amcanion eraill yn Atodiad 3.

2.16 Wrth baratoi strategaeth pob rhaglen, bu'n rhaid i'r Swyddfa Gymreig gynt, a'r Cynulliad ddilyn canllawiau thematig y Comisiwn a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1999, sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer ei bolisi datblygu rhanbarthol. Yn gyffredinol, dangosodd y canllawiau y bu newid o'r buddsoddiadau mawr mewn seilwaith gyda phwyslais cryfach ar fusnesau bach a chanolig eu maint, arloesedd a grwpiau o dan anfantais. Credir bod gan y meysydd hyn fwy o botensial i greu twf cynaliadwy, hirdymor.

2.17 Felly tair prif elfen y rhaglen gyffredinol - a adlewyrchir bellach yn strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad, *Cymru sy'n Ennill* - yw:

- datblygu economi gref wedi'i harallgyfeirio sy'n creu swyddi ac yn ymelwa ar dechnolegau newydd. Bydd pwyslais mawr ar ddatblygu mentrau newydd a chymorth i sectorau penodol o dwf, gyda chymorth i fusnesau wedi'i dargedu ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint;
- datblygu gweithlu medrus, blaengar a hyblyg sy'n gallu elwa ar newid economaidd; a
- sicrhau ffyniant a bywyd o ansawdd uchel ar gyfer cymunedau ymhob rhan o Gymru, yn enwedig yr ardaloedd hynny yn y Cymoedd sy'n wynebu dirywiad diwydiannol, neu'r ardaloedd sydd o dan anfantais oherwydd eu lleoliad ymylol yng Nghymru wledig.

2.18 Cyflwynir y rhaglen ar sail prosiectau; nid yw'r Ddogfen Raglennu Sengl yn gwarantu arian i unrhyw sefydliad. Mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer

## Ffigur 5

### Amcan 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd: Blaenoriaethau

| Blaenoriaeth | Diben | Swm grant yr UE (£ miliwn) | Cyfradd gyfartalog grant yr UE | Enghreifftiau o weithgareddau |
|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 1 - ehangu a datblygu sylfaen mentrau bach a chanolig | Creu cyfoeth a chyflogaeth ar gyfer y rhanbarth drwy gefnogi twf y sector mentrau bach a chanolig eu maint | 285 | 46.5% | Cronfeydd benthyca ac ecwiti, grantiau busnes, cyngor a mentora, cymorth i fentrau bach a chanolig eu maint |
| Blaenoriaeth 2 - datblygu arloesedd a'r economi sy'n seiliedig ar wybodaeth | Gwella natur gystadleuol y rhanbarth drwy gael a defnyddio gwybodaeth a thechnolegau newydd | 183 | 49.0% | Canolfannau o arbenigedd ar gyfer technoleg a chydweithrediad diwydiannol, datblygiad clwstwr opto-electronig |
| Blaenoriaeth 3 - adfywio economaidd cymunedol | Mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol drwy dargedu gweithredu lleol yn y gymuned i'r cymunedau mwyaf difreintiedig er mwyn cynyddu sgiliau a chyflogadwyedd, rhoi mwy o fynediad i gyfleoedd mwy amrywiol a gwella'r amodau ar gyfer busnes | 110 | 68.9% | Undebau credyd, datblygu gallu (helpu grwpiau eraill i ddatblygu prosiectau), cymorth i'r economi gymdeithasol |
| Blaenoriaeth 4 - datblygu pobl | Datblygu sgiliau a chyflogadwyedd pobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal, yn enwedig y rhai sydd o dan unrhyw fath o anfantais | 289 | 55.0% | Hyfforddiant gwirfoddol, gofal plant i fyfyrwyr, Cronfa Defnyddio Gwybodaeth |
| Blaenoriaeth 5 - datblygu gwledig a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | Cyfuno amgylchedd iach, wedi'i reoli'n dda gyda chynhyrchiant ac hyfywedd economaidd | 131 | 35.4% | Arallgyfeirio fferm, adnewyddu coetir, datblygu'r economi wledig |
| Blaenoriaeth 6 - datblygu seilwaith strategol | Sicrhau buddsoddiad a chyflogaeth ychwanegol ar gyfer y rhannau llai datblygedig o'r rhanbarth drwy annog buddsoddiad busnes mewn ardaloedd wedi'i ategu gan welliannau allweddol i'r seilwaith | 130 | 36.1% | Safleoedd strategol ar gyfer datblygu busnes, mentrau trafnidiaeth rhyngfoddol |
| Blaenoriaeth 7 - cymorth technegol | Sicrhau y caiff y rhaglen ei rheoli mewn modd effeithlon a thryloyw | 16 | 50.0% | Cymorth i bartneriaethau, ymchwil, gwerthuso effeithiau |
| **Cyfanswm** | | **1,144** | **47.0%** | |

*Ffynhonnell: Dogfen Ategol y Rhaglen a Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru*

prosiect gyfiawnhau ei ddefnydd o'r Cronfeydd Strwythurol drwy ddangos ei fod yn cyfrannu at dargedau'r flaenoriaeth a'r mesur perthnasol. Yn ogystal, ceir tair thema drawsbynciol y mae angen eu hymgynghori ym mhob gweithgaredd a ariennir gan y rhaglenni;

- cyfle cyfartal - rhoddir blaenoriaeth i'r grwpiau hynny sydd wedi'u hallgáu fwyaf o ddarpariaeth prif ffrwd. Yr amcanion yw sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i ferched, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig, sicrhau bod canran uwch ohonynt mewn galwedigaethau mwy medrus â thâl uwch, a sicrhau bod mwy o gyflogwyr yn mabwysiadu polisïau cyfle cyfartal;

- y gymdeithas wybodaeth - gwella ymwybyddiaeth, hyfforddiant a'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu; a
- cynaliadwyedd amgylcheddol - hyrwyddo ynni cynaliadwy, trafnidiaeth integredig, defnydd effeithlon o adnoddau naturiol, defnydd cynaliadwy o dir, bioamrywiaeth, addysg amgylcheddol ac ansawdd amgylcheddol.

## Beth y gall y Cronfeydd Strwythurol ei gyflawni?

2.19 Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cyhoeddi ffigurau sy'n dangos bod rhanbarthau llai ffyniannus Ewrop yn raddol yn cydgyfeirio â'r cyfartaledd o ran CMC. Mae Iwerddon yn enghraifft drawiadol iawn gan ei bod wedi codi o fod yn gymharol dlawd i fod yn gyfoethocach na chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd **(Ffigur 6)**.

**Ffigur 6**

**Cydgyfeirio cyfoeth yr Undeb Ewropeaidd**

| | Canran o CMC cyfartalog yr Undeb Ewropeaidd y pen | |
|---|---|---|
| | 1988 | 1998 |
| 10 rhanbarth lleiaf ffyniannus | 54% | 65% |
| Iwerddon | 74% | 106% (1999) |

*Ffynhonnell: Gwefan Inforegio*

2.20 Cyfeirir at Iwerddon yn aml yng Nghymru fel enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni gydag arian strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, ac mae rhai yn disgwyl y bydd Amcan 1 yn helpu i weddnewid economi Cymru yn yr un modd. Fodd bynnag, mae datblygu economaidd llwyddiannus yn cymryd amser maith a dim ond un elfen o dwf economi Iwerddon oedd yr arian Ewropeaidd, sef swm a oedd yn llawer mwy na'r hyn sydd ar gael i Gymru. Dim ond dechrau'r broses o adfywio economaidd y gall y rhaglen gyfredol ei wneud. Mae gwelliannau hirdymor yn economi Cymru yn dibynnu cymaint ar ffactorau economaidd allanol - megis economi'r byd, cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid - ag y maent ar y symiau ychwanegol ar wariant cyhoeddus bob blwyddyn o'r Cronfeydd Strwythurol, sy'n hafal i lai nag un y cant o CMC Cymru. Felly mae'n hanfodol targedu'r arian lle y caiff yr effaith fwyaf er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf o'r arian sydd ar gael.

# RHAN 3 - Y SYSTEM REOLI


3.1 Mae'r rhan hon yn ystyried y strwythur rheoli a roddwyd ar waith i weinyddu'r rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru; sut y datblygwyd y strwythur hwn; a chymhariaeth â strwythurau Rhaglenni Amcan 1 yn Iwerddon ac yn rhannau o Loegr.

## Y trefniadau yng Nghymru

3.2 Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi nodi ei ofynion ar gyfer rheoli'r Cronfeydd Strwythurol mewn cyfres o reoliadau, sy'n berthnasol i bob aelod-wladwriaeth. Eu nod yw cadw safon uchel o reolaeth a fydd yn ei thro yn arwain at y cylch rhinweddol a ddangosir yn **Ffigur 7**.

**Ffigur 7**

**Y Cylch Rheoli**





*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

3.3 Nodir y trefniadau rheoli ar gyfer pob rhaglen yn y Ddogfen Raglennu Sengl neu ddogfen y Rhaglen Weithredol a gymeradwyir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae hon yn ddogfen gyfreithiol-gyfrwymol ac ni ellir ei newid heb ganiatâd y Comisiwn Ewropeaidd. Ceir crynodeb o'r system gyfredol yn **Ffigur 8 a Ffigur 9**.

**Ffigur 8**

**Y Cyfranogwyr allweddol o ran gweithredu Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru**



## Ffigur 9

### Prif rôl y cyfrangowyr allweddol

| Sefydliad | Strategaeth | Datblygu prosiect | Arfarnu'r prosiect a thalu'r grant | Monitro |
|---|---|---|---|---|
| Comisiwn Ewropeaidd | Gosod blaenoriaethau ar gyfer cymorth i raglenni<br><br>Cymeradwyo'r Ddogfen Raglennu Sengl | | Cymeradwyo prosiectau dros 50 miliwn ewro | Statws Cynghorydd ar Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni<br><br>Derbyn Adroddiad Cyflawni Blynyddol gan WEFO |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Cymeradwyo'r ddogfen raglennu sengl a'r rhai tebyg | | | Aelod o Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni<br><br>Mae gan y Pwyllgor Datblygu archwilio rôl archwilio |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | Negodi'r rhaglenni<br>Paratoi strategaeth datblygu economaidd genedlaethol (y fersiwn ddiweddaraf - Cymru Sy'n Ennill)<br><br>Paratoi Dogfen Raglennu Sengl a Rhaglenni Gweithredol<br><br>Penderfyniadau gan y Gweinidogion / cabinet ar bolisi | | Arfarnu ceisiadau i'r Gronfa Adfywio Lleol ar y cyd | Penodi Cadeirydd Pwyllgor monitro rhaglenni<br><br>Goruchwylio WEFO |
| Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni | Cymeradwyo penderfyniadau strategol allweddol gan bartneriaethau strategol<br><br>Cymeradwyo strategaethau lleol a rhanbarthol | | Cymeradwyo Dogfen Ategol y Rhaglen<br><br>Cymeradwyo'r meini prawf ar gyfer dewis prosiectau | Adolygu'r cynnydd a wneir wrth gyflwyno rhaglenni (gwariant ac allbynnau)<br><br>Adolygu gwerthusiadau<br><br>Cymeradwyo Adroddiad Cyflawni Blynyddol |
| WEFO | Rheoli'r rhaglenni<br><br>Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni a'r is-bwyllgorau<br><br>Cyd-ysgrifenyddiaeth ar gyfer partneriaethau strategol<br><br>Cydlynu â'r Comisiwn Ewropeaidd | Hyrwyddo'r rhaglen ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddi<br><br>Rhoi arweiniad i bartneriaethau a noddwyr prosiectau | Arfarnu ceisadau prosiectau<br><br>Cynnig grantiau<br><br>Talu grantiau ar ôl derbyn ceisiadau am arian<br><br>Gwneud cais am arian oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd | Monitro'r cynnydd a wneir ar brosiectau<br><br>Monitro'r cynnydd a wneir ar lefel mesurau, blaenoriaethau a rhaglenni, gan roi adroddiad i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni a phartneriaethau<br><br>Gwerthuso gweithgaredd, canlyniadau ac effaith<br><br>Cynnal archwiliadau rheoli ariannol o brosiectau<br><br>Cynhyrchu Adroddiadau Cyflawni Blynyddol |
| Partneriaethau lleol a rhanbarthol | Paratoi strategaethau lleol neu ranbarthol o fewn fframwaith strategol a baratowyd gan bartneriaethau strategaeth | Partneriaethau lleol sy'n hyrwyddo'r rhaglen yn lleol<br><br>Pob partneriaeth yn helpu darpar- ymgeiswyr i ddatblygu cynnig y prosiect | Partneriaeth yn asesu'r prosiect ac yn penderfynu a ydyw'n ei gefnogi | Monitro'r cynnydd a wneir wrth gyflwyno eu strategaeth leol/ranbarthol |

**Ffigur 9 (continued)**

| Sefydliad | Strategaeth | Datblygu prosiect | Arfarnu'r prosiect a thalu'r grant | Monitro |
|---|---|---|---|---|
| Partneriaethau strategaeth | Cyhoeddi fframweithiau strategol<br><br>Cymeradwyo strategaethau rhanbarthol | | Asesu ansawdd prosiectau | Monittro'r cynnydd a wneir a datblygu fframwaith strategol yn ôl y gofyn |
| Noddwr prosiect | | Datblygu'r cais gyda chymorth y bartneriaeth berthnasol<br><br>Dod o hyd i arian cyfatebol ar gyfer y prosiect | Cyflwyno ei brosiect i'w arfarnu yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig | Rhoi'r prosiect ar waith<br><br>Hawlio grant gan WEFO<br><br>Monitro'r prosiect a darparu gwybodaeth i WEFO |

## Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

3.4 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Awdurdod Rheoli a'r Awdurdod Talu ar gyfer pob un o'r rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru, ac mae wedi creu awdurdod gweithredol i weithredu'r swyddogaethau hyn. Sefydlwyd WEFO ar 1 Ebrill 2000 a daeth â'r swyddogaethau a weithredwyd yn gynt gan ddau sefydliad ar wahân ynghyd:

- Welsh European Programme Executive Ltd, cwmni cyfyngedig trwy warant wedi'i ariannu gan y bartneriaeth drwy ffioedd ceisiadau a ffioedd rheoli, a oedd yn arfarnu a chymeradwyo pob prosiect. Peidiodd WEPE â bodoli ar ôl i'w swyddogaethau gael eu trosglwyddo i'r Cynulliad; ac
- yr elfennau sy'n ymwneud â thalu a monitro grantiau o fewn yr is-adrannau polisi perthnasol sy'n cynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad.

3.5 Mae WEFO yn atebol am bob agwedd ar Gronfeydd Strwythurol Ewrop yng Nghymru, ond mae'n rhannu'r cyfrifoldeb dros nifer fawr ohonynt gyda rhwydwaith o bartneriaethau. Mae'r cyfrifoldebau, ar gyfer pob rhaglen, yn cynnwys:

- codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen drwy wybodaeth a chyhoeddusrwydd;
- sefydlu systemau gwybodaeth;
- gweithredu Dogfen Ategol y Rhaglen (gweler y bwlch ar ôl paragraff 2.7);
- arfarnu a chymeradwyo cynigion ar gyfer prosiectau;
- rheoli'r rhaglen;
- cydgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd;
- sicrhau cydymffurfiad â pholisïau a rheoliadau Ewrop;
- talu grantiau i noddwyr prosiectau a thynnu arian o'r Comisiwn Ewropeaidd;
- monitro prosiectau a chynnal ymweliadau rheoli ariannol â sampl o brosiectau;
- monitro'r cynnydd a wna'r rhaglen a gwerthuso ei heffaith; a
- bodloni rhwymedigaethau penodol megis paratoi Adroddiadau Cyflawni Blynyddol a gwerthusiadau canol tymor pob rhaglen ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd.

3.6 Fel awdurdod gweithredol o fewn y Gwasanaeth Sifil, mae WEFO yn rhan o'r sefydliad sy'n cynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad. Mae ei staff yn Weision Sifil y Cynulliad, mae'n defnyddio adrannau personél a chyllid canolog y Cynulliad ac mae'n dilyn yr un gweithdrefnau personél a chaffael â gweddill Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Partneriaeth

3.7 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo **partneriaeth** fel un o'r cysyniadau allweddol sy'n sail i'r ffordd y caiff y Cronfeydd Strwythurol eu gweithredu. Mae partneriaid yn rhai â buddiant amlwg yng nghanlyniad y rhaglenni a'r ffordd y cânt eu cyflwyno, ac yn cynnwys busnesau, undebau llafur, cyrff gwirfoddol, grwpiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chydraddoldeb, a chyrff y sector cyhoeddus. Y system allweddol ar gyfer gwneud

hyn ar y cam cyflawni yw Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni, sydd â rolau penodol o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Y Pwyllgor Monitro'r Rhaglen sy'n ystyried sut y dylai'r bartneriaeth weithio'n ymarferol ac a oes angen datblygu unrhyw weithdrefnau ffurfiol eraill. Fodd bynnag, WEFO, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef yr Awdurdod Rheoli, sy'n atebol am y defnydd a wneir o'r cronfeydd - ac sy'n gwneud penderfyniadau gweithredol.

3.8 Yng Nghymru cadeirir Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 gan Aelod o'r Cynulliad. Mae'n cynnwys 18 o aelodau, y daw nifer gyfartal ohonynt o dri sector (mae'r Pwyllgor hefyd yn anelu at sicrhau isafswm o 40 y cant o ddynion a merched fel aelodau):

- y sector cyhoeddus (un Aelod o'r Cynulliad (yn ychwanegol at y Cadeirydd), dau gynghorydd lleol, a thri swyddog);
- y sector preifat/cymdeithasol (tri chynrychiolydd busnes, dau gynrychiolydd undeb llafur ac un cynrychiolydd o undebau amaeth); ac
- y sector gwirfoddol/cymunedol: chwe aelod o'r mudiadau sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol, a buddiannau sy'n ymwneud â chefn gwlad, yr amgylchedd a chydraddoldeb.

Cynorthwyir y Pwyllgor gan nifer o gynghorwyr arbenigol, gan gwmpasu materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a'r amgylchedd, twristiaeth a'r celfyddydau, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Comisiwn Ewropeaidd.

3.9 Yn rhanbarth Amcan 1, mae'r Cynulliad wedi creu rhwydwaith o bwyllgorau i roi'r cysyniad o bartneriaeth ar waith. Fel yn achos Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni, dylai fod gan bob pwyllgor nifer gyfartal o gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector cymdeithasol (busnes ac undebau llafur) a'r sector gwirfoddol, ac isafswm o 40 y cant o ddynion a merched yn aelodau. Cynorthwyir pob pwyllgor gan ysgrifenyddiaeth, fel arfer y darperir gan asiantaeth gyhoeddus. Mae'r partneriaethau yn gweithredu ar dair lefel:

- 15 o **bartneriaethau lleol**, yn seiliedig ar yr awdurdodau lleol yn rhanbarth Amcan 1; yr awdurdod lleol fel arfer yw'r ysgrifenyddiaeth.
- 10 o **bartneriaethau rhanbarthol**, sy'n gyfrifol am sectorau penodol o'r economi; Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad neu asiantaeth gyhoeddus arall yw'r ysgrifenyddiaeth fel arfer; a
- pedair **partneriaeth strategaeth**, y daw nifer gyfartal o'r aelodau o bartneriaethau lleol a phartneriaethau rhanbarthol. Rhoddir cymorth ysgrifenyddiaeth ar y cyd gan WEFO ac asiantaeth gyhoeddus neu wirfoddol arall.

3.10 Ceir system debyg iawn ar gyfer Amcan 2 ac Amcan 3, ond nid oes partneriaethau strategaeth. Mae gan Amcan 2 un bartneriaeth ranbarthol a chwe phartneriaeth leol; mae gan Amcan 3 un bartneriaeth ranbarthol a saith partneriaeth leol. Unwaith eto mae'r partneriaethau lleol yn seiliedig ar yr awdurdodau lleol. Mae gan y Mentrau Cymunedol drefniadau ar wahân, fel arfer un pwyllgor monitro neu bartneriaeth. Noda **Ffigur 10** y gwahanol bartneriaethau sy'n chwarae rôl wrth reoli Cronfeydd Strwythurol Ewrop yng Nghymru.

3.11 Prif rôl y partneriaethau lleol a rhanbarthol yw nodi, cefnogi a chynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu prosiectau[1]. Cyfeirir darpar ymgeiswyr at y bartneriaeth berthnasol sydd yn ei thro yn eu helpu i ddatblygu eu syniad a pharatoi cais. Fodd bynnag mae ganddynt rolau pwysig eraill hefyd:

- datblygu strategaeth i dargedu adnoddau at anghenion a chyfleoedd sy'n bodoli o fewn eu hardal (partneriaethau lleol) neu ychwanegu gwerth at bolisi cenedlaethol yn eu maes arbenigol (partneriaethau rhanbarthol). Ar gyfer partneriaethau Amcan 1, mae'n rhaid datblygu'r strategaethau hyn o fewn fframwaith strategol a osodir gan y partneriaethau strategaeth;
- hyrwyddo'r rhaglen yn lleol (partneriaethau lleol yn unig);
- cynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu prosiectau a chyflwyno'r prosiectau a gefnogir ganddynt i WEFO;
- cyfathrebu â phartneriaethau eraill, gan eu galluogi i ymgynghori'n effeithiol ar brosiectau sy'n cael eu datblygu a chydgysylltu ynglŷn â pholisi a strategaeth; a
- monitro'r cynnydd a wnânt wrth gyflawni eu strategaeth, a helpu i werthuso'r effeithiau ar eu hardal leol neu eu sector.

1 Yn seiliedig ar Objective 1 Partnership Guidance y Swyddfa Cyllid a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2001. Nid oes arweiniad ffurfiol ar gyfer Amcan 2 ac Amcan 3 ond mae gan bartneriaethau yr un swyddogaethau yn fras.

## Ffigur 10

### Pwyllgorau Partneriaeth yng Nghymru

| Rhaglen | PMC | Lleol | Rhanbarthol | Strategaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Amcan 1 | 1 | 15 | 10 | 4 | 30 |
| Amcan 2 a 2/5b trosiannol | 1 | 6 | 1 | | 8 |
| Amcan 3 | 1 | 7 | 1 | | 9 |
| EQUAL | 1 | | | | 1 |
| INTERREG IIIa | 1 | | | | 1 |
| LEADER + | 1 | | | | 1 |
| URBAN II | 1 | | | | 1 |
| **Cyfanswm** | **7** | **28** | **12** | **4** | **51** |

| | | Ysgrifenyddiaeth |
|---|---|---|
| Partneriaethau lleol Amcan 1 | Ynys Môn, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen | Awdurdod lleol perthnasol (ac eithrio Sir Gaerfyrddin - Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru) |
| Partneriaethau rhanbarthol Amcan 1 | Bwyd-amaeth | Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) |
| | Oes Gwybodaeth | WDA |
| | Entrepreneuriaeth | WDA |
| | Arloesedd/Ymchwil a Datblygu | WDA |
| | Cymorth Busnes | WDA |
| | Seilwaith | WDA |
| | Twristiaeth | Bwrdd Croeso Cymru |
| | Adfywio Cymunedol | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) |
| | Datblygu Adnoddau Dynol | Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) |
| | Rheoli Coedwigaeth, Cefn Gwlad a'r Arfordir | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Partneriaethau strategaeth Amcan 1 | Asedau Busnes | WEFO a'r WDA |
| | Asedau Cymunedol | WEFO a'r WCVA |
| | Asedau Adnoddau Dynol | WEFO a'r ELWa |
| | Asedau Gwledig | WEFO a'r WDA |
| Partneriaethau Amcan 2 | Rhanbarthol | WDA |
| | Lleol: Wrecsam (ar gyfer y rhaglen drosiannol), Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Bro Morgannwg | Awdurdod lleol perthnasol |
| Partneriaethau Amcan 3 | Rhanbarthol:Adnoddau Dynol | ELWa |
| | Lleol: Caerdydd, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam | Awdurdod lleol perthnasol |

*Ffynhonnell:Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

3.12 Crëwyd y partneriaethau strategaeth i roi mwy o gyfeiriad strategol i raglen Amcan 1. Mae iddynt ddwy rôl allweddol:

- datblygu strategaeth fanwl ar gyfer defnyddio arian Amcan 1 (fframweithiau strategol); ac
- asesu prosiectau unigol am eu cyfraniad tuag at amcanion y strategaeth, a gwneud argymhelliad terfynol i WEFO. Digwydd hyn ar ôl i'r bartneriaeth leol neu'r bartneriaeth ranbarthol asesu'r prosiect ac ar ôl i WEFO ei arfarnu. Bwriedir i hyn gynorthwyo WEFO wrth iddi benderfynu p'un a ddylid cymeradwyo'r prosiect ai peidio.

3.13 Mae WEFO o'r farn bod yr ymrwymiad mawr hwn i weithio mewn partneriaeth ar bob lefel, yn enwedig yn rhaglen Amcan 1, yn fuddsoddiad o ran amser ac ymdrech ar ddechrau'r rhaglenni a fydd yn talu ar ei ganfed wrth iddynt ddatblygu ac y bydd yn cynyddu capasiti yn y tymor hir. Ym marn WEFO mae cyfnod cychwynnol lle mae'n rhaid creu consensws ymhlith y gwahanol bartïon a gynrychiolir yn anochel er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddryswch neu anghydfod.

## Y broses o wneud cais ac arfarnu ceisiadau

3.14 O safbwynt yr ymgeisydd, gellir crynhoi proses Amcan 1 yn nhermau'r 11 o'r camau a nodir yn **Ffigur 11**. Digwydd y saith cam cyntaf wrth i'r prosiect gael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r partneriaethau perthnasol; mae'r camau eraill yn cyfeirio at rôl WEFO wrth asesu gwerth am arian a chadarnhau a yw'r prosiect yn gymwys ai peidio. Gellir gohirio prosiect neu ei dynnu'n ôl ar unrhyw un o'r camau hyn, gan ddibynnu ar faint o wybodaeth a gyflwynwyd ac a oes angen gwneud gwaith pellach ar y prosiect (prin iawn yw'r achosion pan na fydd WEFO yn gofyn am ragor o wybodaeth). Er bod Ffigur 11 hefyd yn awgrymu faint o amser a gymer pob cam, gall y cam o ddatblygu'r prosiect, yn arbennig, amrywio cryn dipyn yn dibynnu ar pa mor fawr a chymhleth yw'r prosiect a pha mor ddatblygedig ydyw pan gysylltwyd â'r bartneriaeth berthnasol yn y lle cyntaf. Felly er y disgwylir i'r broses o ddatblygu prosiect a'i arfarnu gymryd tua phum mis yn gyffredinol, yn aml gall gymryd mwy o amser.

3.15 Ceir gweithdrefn debyg ar gyfer Amcan 2 ac Amcan 3. Fodd bynnag, mae'n wahanol i Amcan 1 mewn sawl ffordd:

- dyrennir symiau dynodol o arian i bartneriaethau;
- nid oes partneriaeth strategaeth, gan fod gan bob Amcan un bartneriaeth ranbarthol eisoes i roi cyfeiriad strategol cyffredinol (felly hepgorir cam 10);
- nid oes cam ymgynghori gorfodol (hiy hepgorir cam 4 a cham 9); ac
- nid oes cam y ffurflen gais yn Amcan 2.

Mae hyn yn golygu bod y weithdrefn asesu ac arfarnu ychydig yn fyrrach, gan nad yw tri o'r 11 o'r camau ar gyfer Amcan 1 yn bodoli. Yn ogystal, asesir ceisiadau mewn cylchoedd - mae terfynau amser cyfnodol ar gyfer cyflwyno ceisiadau i WEFO - ac yna caiff y ceisiadau eu gwerthuso gyda'i gilydd i hwyluso'r broses o flaenoriaethu. Mae gan Amcan 1 raglen dreigl - gall partneriaethau gyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg.

3.16 Ar ôl i'w grant gael ei gymeradwyo, mae noddwyr prosiectau yn cael tri mis i ddechrau'r prosiect. Fel arfer mae noddwyr prosiectau yn gwneud cais am grant bob chwarter, ond mae ymgeiswyr i Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael 30 y cant o grant y flwyddyn gyntaf ar ddechrau'r prosiect a gallant gyflwyno ceisiadau bob mis neu bob chwe mis os dymunant yn lle hynny. Fel cydnabyddiaeth o'r ffaith bod y sefyllfa yn aml yn anodd o ran llif arian parod, gall noddwyr prosiectau ERDF, EAGGF a FIFG yn y sector gwirfoddol a'r sector preifat gael blaenswm bob chwarter sydd wedi'i wrthbwyso yn erbyn y gwariant yr aethpwyd iddo, ac yna addasir blaenswm y chwarter dilynol yn ôl yr angen.

3.17 Mae WEFO yn ei gwneud yn ofynnol i noddwyr prosiectau gyflwyno gwybodaeth gynhwysfawr am eu costau a'u hallbynnau bob chwarter hyd yn oed os nad ydynt yn gwneud cais am arian. Asesir costau yn erbyn y proffil a ddarparwyd pan gymeradwywyd y grant a thrafodir amrywiadau sylweddol gyda noddwyr y prosiect.

## Ffigur 11

### Y broses o wneud cais ac arfarnu ceisiadau

| Cam | Gweithdref | Amser arferol |
|---|---|---|
| 1 | Mae'r ymgeisydd yn cysylltu â'r bartneriaeth berthnasol i drafod syniad am brosiect. | |
| 2 | Mae'r bartneriaeth yn helpu'r ymgeisydd i ddatblygu'r syniad a pharatoi cais pro-forma sy'n crynhoi nodweddion allweddol y prosiect (sut y mae'n cydweddu â'r strategaeth leol neu ranbarthol, costau tebygol a ffynonellau arian, allbynnau a chysylltiadau â phrosiectau a strategaethau eraill). | Datblygu prosiect: o leiaf naw wythnos er hynny gweler y sylw ym mharagraff 3.14 |
| 3 | Ystyrir y ffurflen hon gan is-grŵp o fwrdd y bartneriaeth, a fydd yn asesu pa mor dda y mae'r prosiect yn cydweddu â'r strategaeth leol/ranbarthol, ei gysylltiadau â phrosiectau eraill a strategaethau, pa mor arloesol ydyw, gradd y newid, i ba raddau y mae'r cynnig wedi ymgorffori'r themâu trawsbynciol, ac a oes gweithdrefnau monitro digonol ar waith. | |
| 4 | Dosberthir y manylion ar y ffurflen i bartneriaethau eraill â diddordeb. Mae ganddynt fis i wneud sylwadau yn ei chylch. | |
| 5 | Ar ôl unrhyw ddatblygiad pellach sydd ei angen i adlewyrchu'r sylwadau a ddaeth i law, cyflwynir y cynnig i fwrdd llawn y bartneriaeth. | |
| 6 | Os yw bwrdd y bartneriaeth yn penderfynu cefnogi'r prosiect, bydd yn helpu'r ymgeisydd i gwblhau ffurflen gais gyflawn. | |
| 7 | Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno'r ffurflen gais i WEFO, gan nodi ei chefnogaeth i'r prosiect. | |
| 8 | Mae WEFO yn arfarnu'r prosiect. Efallai y bydd yn ceisio cyngor allanol ac fel arfer mae'n gohebu â'r ymgeisydd wrth ymdrin ag ymholiadau. Mae dwy brif elfen i'r arfarniad: cadarnhau cymhwyster (gwirio materion sy'n ymwneud â chydymffurfiad, deddfwriaeth a pholisïau'r Gymuned, cael sylwadau gan is-adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru); ac arfarnu'r prosiect er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Wrth arfarnu'r prosiect, ystyrir meini prawf amrywiol, yn cynnwys canlyniadau'r prosiect, sut y mae'n cydweddu â'r strategaeth a osodwyd yn Nogfen Ategol y Rhaglen, cysylltiadau â phrosiectau eraill, y themâu trawsbynciol a threfniadau monitro a gwerthuso. Sgorir y prosiect wedyn i adlewyrchu ei berfformiad posibl yn y meysydd hyn. | chwe wythnos |
| 9 | Mae WEFO yn paratoi adroddiad byr ar y prosiect gydag awgrym am gymeradwyaeth neu wrthodiad ac yn ei ddosbarthu i'r partneriaethau hynny sydd wedi cyflwyno sylwadau ar y cynnig o'r blaen ac i aelodau'r bartneriaeth strategaeth ar yr un pryd. Mae angen cyflwyno unrhyw sylwadau o'r partneriaethau lleol a rhanbarthol i'r bartneriaeth strategaeth berthnasol pan fydd yn cyfarfod. | tair wythnos |
| 10 | Mae'r bartneriaeth strategaeth yn cyfarfod i drafod y prosiect. Ei rôl yw gwneud asesiad ansoddol o ba mor dda y mae'r prosiect yn cyfrannu at y strategaeth gyffredinol (yn hytrach na natur feintiol y system sgorio, nad yw o bosibl yn adlewyrchu materion pwysig sy'n gofyn am bwyso a mesur). Bydd y bartneriaeth yn argymell p'un a ddylid cymeradwyo neu wrthod y cais, neu bydd yn gofyn am ragor o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad. | tair wythnos |
| 11 | Mae WEFO yn rhoi cynnig grant ffurfiol i'r ymgeisydd lle mae'n addas. Dylid ei lofnodi a'i ddychwelyd o fewn un mis. Yna mae'r llythyr hwn yn dod yn gontract rhwng WEFO a noddwr y prosiect. Mae'n nodi costau, gweithgareddau, canlyniadau disgwyliedig ac effeithiau'r prosiect, ac o dan ba delerau ac amodau y rhoddir y grant. | |

3.18 Bob blwyddyn mae'n rhaid i noddwyr prosiectau gyflwyno cais blynyddol am arian ac fel arfer mae'n rhaid iddo gael ei archwilio'n annibynnol. Ar ddiwedd y prosiect, mae WEFO yn cadw rhan o'r grant yn ôl nes y daw cais terfynol archwiliedig am arian i law. Ar gyfer prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mae'n rhaid cyflwyno adroddiad terfynu sy'n manylu ar ganlyniadau'r prosiect ac yn rhoi asesiad o'r hyn a gyflawnwyd ganddo.

## Datblygu'r broses yng Nghymru

3.19 Yn 1998 sefydlwyd Tasglu Ewropeaidd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd i ystyried sut y dylid rheoli'r Cronfeydd Strwythurol. Cynigiodd y grŵp hwn y dylid rheoli'r rhaglenni yn strategol drwy gyfres o **Gynlluniau Gweithredu** (gweler y blwch), wedi'u paratoi gan **bartneriaethau** yn cynrychioli pob parti â diddordeb mewn ardal neu sector. Byddai pob cynllun yn cael ei gyflawni gan **Gorff Atebol** i'w enwebu gan bob partneriaeth, y byddai arno gyfrifoldeb dirprwyedig dros fodloni pob rhwymedigaeth a oedd yn deillio o'r grant (byddai'r Cynulliad yn parhau â rôl goruchwylio uwch a rôl rheoli gyffredinol). Felly byddai'r Corff Atebol yn arwain wrth ddatblygu'r Cynllun Weithredol, a fyddai'n arfarnu ac yn monitro prosiectau, a chyflwyno adroddiad ar gynnydd i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni. A byddai arian yn cael ei ddyrannu i bob Corff Atebol er mwyn cyflawni'r Cynllun Gweithredu.

Byddai **Cynlluniau Gweithredu**, a baratoir gan y partneriaethau, yn dwyn ynghyd nifer o brosiectau cysylltiedig er mwyn sicrhau y caiff Cronfeydd Strwythurol ac adfywio a datblygu economaidd domestig eu cydlynu i'r eithaf a sicrhau y caiff ymagwedd integredig a strategol tuag at y defnydd o'r Cronfeydd ei mabwysiadu. Byddai Cynlluniau Gweithredu yn cael eu paratoi ar lefel leol - gan integreiddio'r holl themâu datblygu economaidd - ac ar lefel ranbarthol, bydd rhai themâu yn cael eu datblygu'n fanylach gan bartneriaid sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am y sector.

3.20 Mewn gwirionedd mae'r system wedi datblygu mewn ffordd braidd yn wahanol i'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol wrth i'r cyfyngiadau ymarferol ddod i'r amlwg. Rhoddwyd y cysyniad o bartneriaeth ar waith yn ôl y bwriad fwy neu lai, gyda phob un yn cael ei harwain gan bwyllgor a oedd yn cynrychioli buddiannau ehangach yr ardal neu'r sector. Nid oedd llawer o blaid Cyrff Atebol gan fod pryderon yngŷln ag adnoddau a rheolaeth ariannol (yn arbennig y costau gweinyddol a'r risgiau yn sgîl rhannu cyfrifoldeb dros arfarnu a monitro prosiectau ymhlith nifer o sefydliadau gwahanol) a gwrthdaro buddiannau (gan y byddai llawer o'r Cyrff Atebol am gyflwyno eu prosiectau eu hunain). Roedd yn amlwg hefyd y byddai'n cymryd amser hir iddynt ymsefydlu ac y byddai'n anodd rhannu'r arian a oedd ar gael yn deg. O ganlyniad, ym mis Mehefin 2000, penderfynodd Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 ohirio sefydlu Cyrff Atebol a mabwysiadodd system dros dro sef 'Cyrff Arweiniol' gyda llai o bwerau, a heb unrhyw ragdaliadau. Ym mis Rhagfyr 2001 penderfynodd y Pwyllgor na ddylai Cyrff Atebol chwarae unrhyw ran yng ngweddill rhaglen Amcan 1 o ystyried y profiad a gafwyd.

3.21 Un o'r agweddau ar roi Amcan 1 ar waith a achosodd y problemau mwyaf oedd y Cynlluniau Gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi dechrau'r broses o baratoi Cynlluniau Gweithredu ar ddechrau 1999. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwahodd sawl un o'r cyrff a noddir ganddo i baratoi Cynlluniau Gweithredu rhanbarthol ar gyfer eu sector hwy, ac erbyn Gorffennaf 2000 roedd ugain o gynlluniau yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, ni fu cytundeb pendant ynghylch faint o Gynlluniau Gweithredu Rhanbarthol ddylai fod, beth y dylent ei gwmpasu, a pha berthynas ddylai fod rhyngddynt hwy a'r Cynlluniau Gweithredu Lleol. Hefyd, ni chyhoeddwyd arweiniad manwl ar ffurf a chynnwys Cynlluniau Gweithredu, na'r meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio i'w hasesu, tan fis Mehefin 2000. Cyflwynwyd y Cynlluniau Gweithredu i WEFO erbyn diwedd Medi 2000, ond nid aseswyd y cynlluniau llawn erioed yn ffurfiol yn erbyn y meini prawf a sefydlwyd ar eu cyfer.

## Partneriaethau strategaeth

3.22 Cyfrannodd yr anawsterau hyn tuag at anfodlonrwydd a deimlai rhai pobl, ac ym mis Tachwedd 2000 crëwyd grŵp gorchwyl a gorffen gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i "ddwyn ynghyd y Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol a Lleol ac edrych ar y ffordd y maent yn cydweddu â strategaeth y Ddogfen Raglennu Sengl". Ni fu modd gwneud hyn yn y cyfnod byr a oedd ar gael, ond gwnaeth y grŵp sawl argymhelliad gyda'r bwriad o egluro'r broses o ddatblygu ac arfarnu prosiectau a datblygu fframwaith strategol mwy cydlynus. Yr elfennau allweddol oedd:

- grŵp polisi bach, ei aelodau wedi'u recriwtio am eu harbenigedd, i fynd i'r afael â'r prif faterion o ran polisi a chyflawni. Byddai'r grŵp yn gwneud argymhellion i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni er mwyn sicrhau bod y broses gyffredinol yn mynd yn ei blaen yn ddidrafferth a bod rhaglen Amcan 1 yn cael ei hintegreiddio'n effeithiol â'r strategaethau a'r rhaglenni domestig allweddol. Byddai hefyd yn adolygu strategaethau lleol ac yn cynghori Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni ynghylch p'un a ddylid eu mabwysiadu ai peidio.

- pedair partneriaeth strategaeth gyffredinol, i ddatblygu fframweithiau strategol ar gyfer eu sectorau a fyddai'n arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau rhanbarthol a lleol manylach. Byddai'r fframweithiau hyn yn gosod blaenoriaethau ar gyfer pob mesur, a gallent nodi ar ba lefel y dylid eu cyflwyno (yn rhanbarthol, yn is-ranbarthol neu'n lleol). Byddai'r partneriaethau hefyd yn adolygu pob cais prosiect er mwyn rhoi cyngor technegol i WEFO a sicrhau eu bod yn gyson â'r fframwaith strategol; a
- proses ymgynghori benodol rhwng partneriaethau lleol a rhanbarthol wrth i brosiectau gael eu datblygu a'u harfarnu.

3.23 Derbyniwyd argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni ac maent wedi'u gweithredu ar y cyfan. Sefydlwyd y partneriaethau strategaethau ym mis Ebrill 2001 a chyhoeddwyd fframweithiau strategol drafft ym mis Medi 2001, a dderbyniwyd gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni fel sail ar gyfer datblygu strategaethau lleol a rhanbarthol yn barhaus. Ar y pryd, roedd sawl mesur yn dal i fod ar gau am nad oedd strategaethau manwl wedi'u datblygu eto i'w defnyddio; ystyrid bod y rhain yn angenrheidiol i flaenoriaethu'r defnydd o'r arian cyfyngedig a oedd ar gael ar gyfer seilwaith, ac adlewyrchu polisïau domestig nad oeddent eto ar eu gwedd derfynol. Ers hynny mae'r cyd-destun o ran polisïau wedi dod yn fwy eglur; cymeradwywyd cynllun economaidd deng mlynedd y Cynulliad, *Cymru'n Ennill* ym mis Rhagfyr 2001, sy'n ategu themâu allweddol y Ddogfen Raglennu Sengl; a chwblhawyd yr Adolygiad o Wasanaethau Busnes yn derfynol, sy'n rhoi fframwaith clir ar gyfer datblygu ystod eang o fesurau sydd wedi'u hanelu at fusnes. Mae'r partneriaethau rhanbarthol priodol hefyd wedi datblygu strategaethau ar gyfer seilwaith trafnidiaeth, ynni a'r amgylchedd ynghyd â'r sector pysgodfeydd a fydd yn fodd i gymeradwyo prosiectau yn y sectorau hynny cyn bo hir.

3.24 Gwneir rhagor o waith ar hyn o bryd gyda'r nod o sicrhau:

- bod strategaethau lleol a rhanbarthol yn unol â'i gilydd ac yn unol â fframweithiau strategol y partneriaethau strategaeth; sefydlwyd grŵp ad hoc i weithredu ar hyn; a
- bod partneriaethau lleol yn cydweithredu'n fwy effeithiol ar lefel is-ranbarthol, er mwyn i'w strategaethau fynd i'r afael â materion sydd o bwys i bob un ohonynt ar y lefel fwyaf priodol a'u bod yn cyfuno eu hadnoddau lle y byddai hyn yn gwella gwasanaethau.

## Lansio Amcan 1

3.25 Penderfynodd Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni lansio'r rhaglen ym mis Gorffennaf 2000, drwy ddefnyddio gweithdrefn dull carlam i gymeradwyo un prosiect o bob partneriaeth yn gynt gyda'r bwriad o greu momentwm i'r rhaglen a chynhyrchu gwariant sylweddol. O ganlyniad, cymeradwywyd grantiau gwerth £17.6 miliwn erbyn diwedd 2000. Gwahoddwyd ceisiadau gan brosiectau eraill, ynghyd â Chynlluniau Gweithredu llawn erbyn 30 Medi 2000. Daeth 676 o geisiadau prosiect eraill i law erbyn y dyddiad hwn, ar gyfer mwy na £407 miliwn o grant.

3.26 Bu'r amserlen hon yn her fawr i bawb a oedd yn ymwneud â'r rhaglen. Ni chymeradwywyd y Ddogfen Raglennu Sengl gan y Comisiwn tan 20 Gorffennaf 2000 (amserlen a oedd yn unol ag ardaloedd Amcan 1 eraill yn y Deyrnas Unedig), ac o ganlyniad gohiriwyd cyhoeddi Dogfen Ategol Lawn y Rhaglen tan fis Hydref 2000. Cyhoeddodd WEFO fersiwn dros dro o'r Ddogfen Ategol ym mis Gorffennaf 2000 er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr, ond erbyn hyn roedd y ceisiadau cyntaf o dan y dull carlam eisoes wedi dod i law. Ni chyhoeddwyd meini prawf dewis manwl tan ganol mis Medi 2000, pythefnos cyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Oherwydd y niferoedd mawr o geisiadau bu'n anodd i WEFO arfarnu prosiectau mor gyflym ag y byddai wedi dymuno, ac oherwydd bod gofynion manwl y rhaglen yn anghyfarwydd, roedd yn rhaid dychwelyd llawer o geisiadau er mwyn cael rhagor o wybodaeth. Arweiniodd hyn at oedi mawr cyn prosesu rhai o'r prosiectau a gyflwynwyd ym mis Medi 2000.

3.27 O dan y rhaglen dreigl (paragraff 3.15), gall prosiectau gael eu cyflwyno ar unrhyw adeg yn awr ac felly nid oes angen datblygu prosiect ar frys bellach er mwyn cwrdd â dyddiad terfynol. Ym marn WEFO mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod partneriaethau yn ymwneud yn fwy â'r broses o ddatblygu prosiectau a bod pawb sydd ynghlwm wrth y broses wedi cael mwy o brofiad, wedi gwella safon y ceisiadau sydd yn ei dro yn arwain at broses lawer mwy esmwyth.

## Casgliad

3.28 Bu sefydlu Amcan 1 yng Nghymru yn gryn her i bawb dan sylw. Yn sgîl ychwanegu arian Amcan 1, bu'r rhaglenni newydd yn llawer mwy o ran maint nag unrhyw beth a welwyd yng Nghymru cyn hynny ac felly hefyd ddisgwyliadau'r cyhoedd. Oherwydd yr amseriad bu'n rhaid paratoi ar gyfer y cylch nesaf yn erbyn cefndir datganoli a sefydlu strwythurau gwleidyddol a gweinyddol newydd. Yn sgîl y penderfyniad i weithio drwy bartneriaethau ar bob lefel bu'r broses yn fwy cymhleth a llafurus ar y camau cyntaf wrth i'r partneriaid ymdrechu i ddod i gytundeb ar faterion allweddol. O ganlyniad bu anawsterau a thensiynau wrth i'r broses ddatblygu a thra roedd Cynlluniau Gweithredu a phrosiectau yn cael eu datblygu, a datblygodd arweiniad terfynol yn hwyr yn y broses. Eto i gyd, mae'r gweithdrefnau wedi ymsefydlu bellach ac eir i'r afael â'r materion strategol allweddol drwy'r systemau newydd sy'n cael eu rhoi ar waith.

3.29 Mae sawl gwers a all fod yn berthnasol ar gyfer rhaglenni tebyg yn y dyfodol:

- mae'n anodd cyd-drefnu ystod o strategaethau a baratowyd ar ddwy sail - ar sail ofodol (drwy awdurdodau lleol yng Nghymru) ac ar sail sector. Mae angen ystyried sut y gellir integreiddio'r ddau ddimensiwn hyn yn ofalus iawn a datrys y mater cymaint â phosibl cyn i'r partneriaethau ddechrau paratoi eu strategaethau;
- mae angen i strategaethau lleol a sectoraidd gael eu paratoi o fewn fframwaith clir, ac mae angen cytuno ar hyn cyn i'r rhaglen ddechrau;
- mae nifer fawr o strategaethau yn creu problemau logistaidd o ran cyd-drefnu a rheoli. Mae angen i'r Awdurdod Rheoli gael digon o staff, amser ac arbenigedd i gyflawni ei rôl yn effeithiol; ac
- mae angen i geisiadau prosiectau gael eu datblygu gan gyhoeddi arweiniad clir a meini prawf asesu mewn da bryd.

## Cymhariaeth ag ardaloedd Amcan 1 eraill

3.30 Er bod pob un a gaiff arian o'r cronfeydd strwythurol yn rhwym wrth yr un rheoliadau a chanllawiau gan y Comisiwn Ewropeaidd, mae aelod-wladwriaeth yn cael rhywfaint o ryddid ynglŷn â'r ffordd y mae'n eu gweithredu. Mae'r paragraffau isod yn nodi'r agweddau allweddol ar yr ymagwedd wahanol a fabwysiadwyd yng Nghymru, yn y ddwy ardal Amcan 1 yn Lloegr yr ymwelodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru â hwy, ac yn Iwerddon: integreiddio â rhaglenni domestig; cynnwys partneriaid; a'r ffordd y rheolir arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. (Nid ydym wedi ceisio nodi a yw'r naill ymagwedd yn well na'r llall boed hynny ymhlyg yn ein sylwadau neu fel arall; er mwyn llunio barn o'r fath byddai angen adlewyrchu'r cyd-destun gwahanol iawn ymhob ardal ac mae hynny y tu allan i gwmpas y gwaith hwn.)

## Integreiddio â rhaglenni domestig

3.31 Y gwahaniaeth mwyaf sylweddol yw bod Iwerddon wedi integreiddio ei Rhaglenni Ewropeaidd â'i rhaglenni domestig yn llawn, yn wahanol i **Gymru** a'r rhanbarthau yn **Lloegr**, felly caiff pob swm o arian ei ddosbarthu drwy gyrff y llywodraeth fel un ffrwd ariannu. Nododd Cynllun Datblygu Gwladol Iwerddon flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi ar gyfer y cyfnod 2000-2006 a dyrannodd arian i'r sectorau allweddol o weithgaredd. Mae'r ddogfen yn Iwerddon sy'n cyfateb i Ddogfen Raglennu Sengl Cymru yn cynnwys dwy elfen:

- mae'r Fframwaith Gymorth Gymunedol yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu Gwladol - bu llywodraeth Iwerddon yn negodi â'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch pa fesurau yn y Cynllun a fyddai'n cael eu hariannu ar y cyd o'r Cronfeydd Strwythurol; ac
- mae'r Rhaglenni Gweithredol yn seiliedig ar y Fframwaith, gan nodi'n fanylach pa weithrediadau a fyddai'n cael eu hariannu ar y cyd.

Mae'r sector preifat fel arfer yn cael arian o'r Cronfeydd Strwythurol drwy raglenni'r llywodraeth a ariannwyd ymlaen llaw. O ganlyniad nid oes angen system weinyddol ar wahân ar gyfer cronfeydd Ewrop yn unig.

3.32 Nid oes cynllun yn y Deyrnas Unedig sy'n cyfateb i Gynllun Datblygu Gwladol Iwerddon naill ai ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Mae'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol yng Nghymru yn nodi blaenoriaethau bras a strategaeth sy'n caniatáu i gyrff a noddir megis Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru ddatblygu eu cynlluniau busnes manylach o'i mewn; mae strategaethau Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol yn Lloegr yn cyflawni rôl gyffelyb. Mae'r Awdurdodau Rheoli ar gyfer pob rhaglen yn ystyried cynigion penodol ar gyfer prosiectau drwy gydol cyfnod y rhaglen. Y nod yw sicrhau mynediad ehangach i'r Cronfeydd y tu allan i'r asiantaethau

cyhoeddus sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau perthnasol fel arfer, a thrwy hynny annog arloesedd a chystadleuaeth. Bwriedir hefyd iddi greu diwylliant agored lle y gall pob parti sy'n ymwneud â datblygu economaidd (gan gynnwys adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, llywodraeth leol, mudiadau gwirfoddol, undebau llafur a busnesau preifat) wneud cais i'r Cronfeydd a dylanwadu ar y ffordd y cânt eu gwario. O ganlyniad

- mae'n rhaid i ymgeiswyr ddod o hyd i'w harian cyfatebol eu hunain, naill ai o'u hadnoddau eu hunain neu y tu allan i'r sefydliad; bwriedir i hyn sicrhau bod prosiect yn ymarferol a bod yr ymgeisydd yn ymrwymedig iddo;
- gall costau prosiectau amrywio o weithrediadau bach, lleol sy'n gwario ychydig filoedd o bunnau i brosiectau mawr sy'n costio degau o filiynau o bunnau; a
- gall y sector preifat gael arian o'r Cronfeydd Strwythurol yn uniongyrchol, neu yn fwy cyffredinol, fel partner arian cyfatebol neu fel rhai sy'n manteisio ar brosiect a gynhelir gan rywun arall.

## Cynnwys partneriaid

3.33 Mae **Cymru, Cernyw** a **Glannau Merswy** wedi creu strwythurau tebyg i gynnwys partneriaid yn y broses o ddatblygu strategaeth a gwneud penderfyniad. Ar y lefel uchaf, mae'r partneriaid yn cymryd rhan ym Mhwyllgor Monitro'r Rhaglenni (er bod mwy o bwyslais yng Nghymru ar gael nifer gyfartal o aelodau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat/cymdeithasol a'r sector gwirfoddol). Mae gan y partneriaid ddylanwad mawr hefyd o ganlyniad i gymryd rhan yn y partneriaethau strategaeth (Cymru), grwpiau rheoli blaenoriaeth (Cernyw) a'r paneli blaenoriaethu (Glannau Merswy); mae'r pwyllgorau hyn yn cymeradwyo cynlluniau strategol ar gyfer eu themâu perthnasol ac yn helpu i arfarnu prosiectau.

3.34 Mae'r strwythurau hyn yn gweithredu ar lefel y rhaglenni. Mae mwy o amrywiaeth ar lefel yr is-raglenni. Mae Cymru wedi creu 15 o bartneriaethau lleol, a 10 o bartneriaethau rhanbarthau (thematig); mae i'r rhain rôl fwy ffurfiol ac estynedig na'r pwyllgorau cyffelyb yn rhanbarthau Glannau Merswy a Chernyw sy'n llai o ran maint ac yn llai amrywiol:

- yng **Nghymru**, mae'n rhaid i bob prosiect gael ei gefnogi'n ffurfiol gan fwrdd y bartneriaeth berthnasol cyn y bydd yr Awdurdod Rheoli yn ystyried ei arfarnu. Yng **Nghernyw a Glannau Merswy**, nid oes angen i'r rhan fwyaf o'r prosiectau gael cefnogaeth ffurfiol y pwyllgorau partneriaeth cyn iddynt gael eu harfarnu (er bod prosiectau adfywio cymunedol yn cael eu cefnogi gan bartneriaethau lleol fel arfer);
- yng **Nghymru**, mae partneriaethau lleol yn ymwneud â phob blaenoriaeth a mesur gan eu bod yn ymdrin â phob prosiect sy'n cwmpasu pedair ardal awdurdod lleol neu lai. Yng Nghernyw a **Glannau Merswy**, mae rôl y partneriaethau lleol wedi'u cyfyngu ar y cyfan i brosiectau adfywio cymunedol bach a pheth buddsoddiad strategol yn yr ardal. Ymdrinnir â chymorth busnes a datblygu adnoddau dynol ar lefel ranbarthol (ardal y rhaglen) fel arfer;
- yng **Nghymru** a **Glannau Merswy**, dyrennir arian i bob partneriaeth leol ar gyfer gweithgaredd adfywio cymunedol, ac yn y tri rhanbarth yn y DU targedwyd gwariant ar seilwaith i leoliadau sy'n strategol bwysig. Fodd bynnag, mae pob rhanbarth (gan gynnwys Iwerddon) wedi gwrthod dyrannu arian i ardaloedd daearyddol ar sail ehangach, gan eu bod o'r farn y byddai hyn yn tanseilio pwyslais strategol eu rhaglenni;
- yng **Nghymru** a **Chernyw**¸ mae partneriaid yn annog ac yn cynorthwyo ymgeiswyr prosiect drwy'r partneriaethau lleol neu ranbarthau (Cymru) neu dasgluoedd sy'n seiliedig ar themâu a Chynlluniau Ardal lleol wedi'u Hintegreiddio (Cernyw), sydd fel arfer â'u staff eu hunain i roi'r cymorth hwn. Yng **Nglannau Merswy**, tîm datblygu busnes yn Swyddfa'r Llywodraeth sy'n ymgymryd â'r rôl hon yn bennaf.

3.35 Yn **Iwerddon**, ymgynghorir â'r partneriaid wrth baratoi'r strategaeth ac fe'u cynrychiolir ar Bwyllgorau Monitro'r Rhaglenni. Fodd bynnag, y sector cyhoeddus sy'n dominyddu'r Pwyllgorau hyn ac maent yn tueddu i gyfarfod yn llai aml na'r rhai yn y Deyrnas Unedig; nid ydynt yn ymwneud â gweithdrefnau cyflawni cymaint am fod y rhain eisoes wedi ymsefydlu. Nid oes gan y partneriaid cymdeithasol gorff ffurfiol cyffredinol sy'n cynrychioli eu buddiannau neu'n rhoi cymorth gweinyddol yn benodol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewrop, ac maent yn tueddu i ddylanwadu drwy strwythurau gwleidyddol ehangach.

## Rheoli Cronfa Gymdeithasol Ewrop

3.36 Mae cryn wahaniaeth yn y ffordd y rheolir Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Yng **Nghymru**, gall sefydliadau unigol (megis colegau, cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad neu awdurdodau lleol) wneud cais i WEFO am grantiau o'r Gronfa hon. Yn **Lloegr** mae'r Adran Addysg a Sgiliau wrthi'n cyflwyno system a elwir yn gyd-ariannu, lle mae un sefydliad mawr yn gwneud cais am holl adnoddau'r Gronfa mewn ardal benodol, gan eu cyfuno ag arian cyfatebol domestig a'u trosglwyddo i ymgeiswyr fel un ffrwd ariannu. Yn y rhan fwyaf o achosion, Cynghorau Dysgu a Sgiliau lleol (sy'n cyfateb i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant) yw'r corff cyd-ariannu. Mae'n rhy gynnar i farnu a gyflawnwyd y manteision arfaethedig - lleihau'r gwaith gweinyddol a sicrhau bod arian cyfatebol ar gael yn gyfleus i'r colegau a darparwyr hyfforddiant eraill - gan nad yw'r system wedi ymsefydlu'n llawn eto. Nid yw Cymru wedi cyflwyno system o'r fath oherwydd gallai danseilio'r system o bartneriaethau lleol, a fyddai'n cael eu hepgor o'r broses i bob diben. Yn rhaglen **Iwerddon** sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn caiff pob gweithgaredd, gan gynnwys prosiectau a ariennir gan y Gronfa Gymdeithasol eu cyd-ariannu.

# RHAN 4 - RHEOLI'R RISGIAU

4.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried y prif risgiau a allai atal Cymru rhag sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r Cronfeydd Strwythurol, a sut y mae WEFO a'i phartneriaid yn rheoli'r risgiau posibl hyn. Rhestrir y prif risgiau yn **Ffigur 12**; mae'r ddwy risg gyntaf yn sail i holl weithgareddau WEFO, tra bod y lleill yn seiliedig ar y cylch rheoli a nodir yn Rhan 3 o'r adroddiad (Ffigur 7). Rydym wedi rhoi sylw arbennig i risgiau 4 a 5, ar weithdrefnau arfarnu, gan fod hon yn rhan hollbwysig o'r broses. O gofio maint y rhaglenni a'r her a wyneba WEFO, dim ond ein canfyddiadau allweddol lefel uchel a nodir gennym yn y rhan hon. Rydym yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar wahân i reolwyr WEFO ar ein canfyddiadau manylach.

## Ffigur 12

### Y prif risgiau

| Risg bosibl | Effaith bosibl |
|---|---|
| **1** A oes gan WEFO yr adnoddau o ran staff i weithredu ei swyddogaethau'n effeithiol? | • Mae'n bosibl nad yw gweithdrefnau arfarnu a monitro yn ddigon trylwyr neu y caiff eu cymhwyso'n anghyson<br>• Oedi posibl wrth gyflawni tasgau allweddol |
| **2** A oes gan WEFO y systemau gwybodaeth i weithredu ei swyddogaethau'n effeithiol? | • Gallai arwain at arferion gwaith aneffeithlon<br>• Perygl na fydd digon o wybodaeth rheoli i alluogi WEFO i wneud penderfyniadau da |
| **3** A yw'r rhaglenni yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol? | • Mae'n bosibl na ddaw cynigion cadarn ar gyfer prosiectau i law ar gyfer datblygu<br>• Mae'n bosibl na chaiff y sector preifat a'r sector gwirfoddol a phrosiectau arloesol eu cynnwys |
| **4** A yw ceisiadau prosiectau yn cael eu harfarnu drwy weithdrefnau arfarnu cadarn? | • Mae'n bosibl na fydd prosiectau'n canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol<br>• Mae'n bosibl na fydd prosiectau'n rhoi gwerth da am arian<br>• Mae'n bosibl y caiff prosiectau o safon wael eu cymeradwyo nad ydynt yn cyflawni amcanion y rhaglen ac nad ydynt yn mynd i'r afael â themâu trawsbynciol<br>• Mae'n bosibl na fydd prosiectau'n cydymffurfio â rheoliadau<br>• Mae'n bosibl na fydd prosiectau mewn gwirionedd yn ychwanegu gwerth |
| **5** A yw'r broses arfarnu yn rhy gymhleth a llafurus? | • Mae'n bosibl y caiff darpar ymgeiswyr da eu troi oddi wrth eu bwriad<br>• Mae'n bosibl y byddai oedi diangen wrth neilltuo a gwario'r Cronfeydd Strwythurol<br>• Mae'n bosibl y byddai defnydd aneffeithlon o amser ac arian |
| **6** A yw'r arian cyfatebol ar gael yn hawdd? | • Mae'n bosibl na fydd prosiectau da yn mynd rhagddynt<br>• Mae'n bosibl na chaiff cronfeydd Ewropeaidd eu defnyddio'n llawn |
| **7** A gaiff prosiectau eu rheoli'n briodol o safbwynt ariannol? | • Mae'n bosibl y caiff rheoliadau Ewropeaidd eu torri<br>• Mae'n bosibl na chaiff twyll gan ymgeiswyr ei ganfod<br>• Mae'n bosibl na fydd rhybudd digon cynnar am broblemau posibl o fewn prosiectau unigol |
| **8** A yw'r broses o fonitro prosiectau a'r rhaglen gyfan yn ddigonol? | • Mae'n bosibl na fydd rhybudd digon cynnar am broblemau posibl o fewn prosiectau unigol<br>• Mae'n bosibl na chaiff bylchau mewn darpariaeth eu henwi a'u datrys |
| **9** A gaiff arian ei wario'n ddigon cyflym i osgoi "dadrwymo"? | • Mae'n bosibl y caiff cronfeydd y Comisiwn Ewropeaidd eu dadrwymo (h.y. eu colli i Gymru) |
| **10** A oes trefniadau gwerthuso effeithiol? | • Mae'n bosibl na chaiff y gweithgareddau a'r prosesau mwyaf effeithiol eu nodi ac na chaiff y strategaeth ei diwygio i adlewyrchu canfyddiadau |
| **11** A fydd Cymru yn gallu manteisio ar gronfa berfformiad canol tymor? | • Mae'n bosibl y caiff arian ychwanegol ei golli i Gymru |

## Risg 1: A oes gan WEFO yr adnoddau o ran staff i weithredu ei swyddogaethau'n effeithiol?

### Cefndir

4.2 Ar y dechrau ar ôl i WEFO gael ei datblygu ym mis Ebrill 2000, eto bu rhaid penderfynu'n fanwl ym mha ffordd y byddai'r cronfeydd yn cael eu rheoli ; yr hyn a wnaeth hi'n anodd i'r Gynulleidfa a WEFO gynllunio nifer, sgiliau a swyddogaethau'r staff oedd angen. Wrth i swyddogaethau WEFO a'i phartneriaid ddod yn gliriach yn raddol, roedd WEFO yn gallu asesu angenion ei staff yn fwy cywir. Ar 31 Mawrth 2002, roedd WEFO yn cyflogi 142 o staff o'i gymharu â'r nifer sef 190 o swyddi llawn amser er nid oes angen llenwi rhai o'r swyddi hyn nes y bydd y gwaith yn cynyddu, wrth i raglenni gychwyn ac wrth i ymrwymiadau droi'n daliadau. Eto i gyd bu'n anodd i WEFO ers ei sefydlu recriwtio'r niferoedd o staff a oedd yn meddu ar y sgiliau yr oedd eu hangen arni. Erys y risg na fydd WEFO yn ymdrin â cheisiadau prosiectau mor gyflym â phosibl neu y cânt eu harfarnu'n llai trwyadl, neu na chaiff prosiectau eu harfarnu drwy arfarniad ariannol trylwyr neu y cyfyngir ar weithgaredd sy'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth oni chaiff swyddi gwag eu llenwi ar amser.

### Camau a gymerwyd gan WEFO

4.3 Mae WEFO wedi ymdopi â'r diffygion o ran staffio drwy ganolbwyntio ar ei gweithgareddau craidd sef arfarnu ceisiadau am grantiau, ymdrin â cheisiadau am grantiau, a bodloni'r rhwymedigaethau hanfodol o dan reoliadau Ewrop. Y gwaith a ohiriwyd yw'r gwaith nad oes angen ei wneud ar frys ond er hynny sy'n gwaith pwysig sy wedi'i ohirio: datblygu arweiniad ar gyfer y staff ac ymgeiswyr, cydlynu datblygiad strategau lleol a rhanbarthol a darpar y lefel o wasanaeth y mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglennu a'i bartneriaid yn dyheu amdani. Yn ymarferol, o gofio twf cyflym WEFO a'r cyfnod paratoi anochel ar gyfer hyfforddi staff newydd, mae'r rhan fwyaf o weithgareddau allweddol WEFO - gan gynnwys ymdrin â chraffu gwleidyddol ar lefel uchel - wedi'u gwneud gan y nifer fach o staff.

4.4 Cododd y problemau hyn o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau. Yn sgîl cyflwyno rhaglenni Ewropeaidd 2000-06 bu cynnydd sydyn yn nifer y staff yr oedd ei hangen, na allai'r sefydliadau a oedd yn rhagflaenu WEFO ond eu cyflenwi'n rhannol. Ar yr un pryd, mae'r galw am staff profiadol wedi cynyddu mewn mannau eraill ac mae llawer wedi gadael WEFO i ymuno â sefydliadau eraill. Mae WEFO wedi dilyn gweithdrefnau arferol y Cynulliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddi gwag gael eu hysbysebu'n fewnol cyn y gellir recriwtio'n allanol. Nid yw'r broses recriwtio wedi diwallu anghenion sefydliad sydd wedi tyfu'n gyflym. Bu'n anodd iawn recriwtio a chadw staff â sgiliau arbenigol, mewn meysydd megis ymchwil a gwerthuso, ac Uned y Sector Preifat. Fodd bynnag, mae WEFO wedi gwneud cynnydd erbyn hyn ar recriwtio staff ac mae nifer y swyddi gwag wedi gostwng. Ac mae'r Cynulliad wrthi'n adolygu ei weithdrefnau recriwtio, a all arwain at fwy o hyblygrwydd wrth benodi staff.

### Y casgliad ynglŷn â'r risg hon

4.5 O ystyried yr her sylweddol a wyneba sefydliad newydd, mae WEFO wedi gwneud yn dda i gychwyn y rhaglenni tra'n datblygu sefydliad o'r newydd. Fodd bynnag, oherwydd natur gweithrediadau WEFO - yn wasgaredig dros Gymru ac yn cynnwys rhai gweithgareddau arbenigol - bu'n fwy anodd recriwtio a chadw'r holl aelodau staff sydd eu hangen. Wrth i'r Rhaglenni dyfu, erys yn broblem i WEFO, ynghyd â'r Cynulliad, y mae'n rhaid iddynt ymdrin â hi. Yn anad dim fel na bydd y pwysau sydd ar y staff yn arwain at gamgymeriadau yn cael eu gwneud gyda'r cyfundrefnau cymhleth a ofynnir gan y Comisiwn Ewropeaidd.

## Risg 2: A oes gan WEFO y systemau gwybodaeth i weithredu ei swyddogaethau'n effeithiol?

### Cefndir

4.6 Mae WEFO wedi etifeddu tair system wybodaeth o'r sefydliadau a'i rhagflaenodd:

- **System Rheoli Cronfeydd Ewrop** - cronfa ddata o bob prosiect a gymeradwywyd o dan dair Cronfa: ERDF, EAGGF a FIFG;
- **system Dataflex**, yn cofnodi ceisiadau am grant a thaliadau ar gyfer pob prosiect nad yw'n ymwneud â ESF a gymeradwywyd yn rhaglenni 1994-99; a
- y **Gronfa Ddata Raglennu a Thaliadau**, a weithredwyd gan yr Adran Addysg a Chyflogeth ar y pryd, a ddarparodd system gwbl integredig ar gyfer prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop. (Gweinyddodd yr Adran bob taliad i brosiectau o dan y Gronfa hon tan Ebrill 2001, pan drosglwyddwyd y

cyfrifoldeb dros y rhaglenni newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol.)

4.7 Pan feddiannwyd y systemau hyn gan WEFO ar adeg ei sefydlu ym mis Ebrill 2000 nid oeddent wedi'u hintegreiddio â'i gilydd. Felly mae WEFO wrthi'n datblygu cyfres o brosiectau a fydd yn gwella ac yn integreiddio'r systemau. Yn y cyfamser, bu rhai problemau wrth i'r rhaglenni gychwyn gan nad yw'r systemau a etifeddwyd gan WEFO wedi'u cynllunio gyda golwg ar y rhaglenni cyfredol:

- oherwydd cyfyngiadau System Rheoli Cronfeydd Ewrop a system Dataflex bu'n rhaid i staff WEFO gofnodi manylion y prosiectau ar gyfres o daenlenni nad ydynt yn cael eu rheoli mor dynn â systemau gwybodaeth llawn ddatblygedig, sy'n ei gwneud yn anodd i goladu gwybodaeth reoli bwysig;
- gan nad oedd cyswllt rhwng y System Rheoli Cronfeydd Ewrop a Dataflex, ynghyd â chyfyngiadau system Dataflex, mae'n rhaid i ymgeiswyr gwblhau manylion ynglŷn â cheisiadau blaenorol am grantiau a gwariant ac mae'n rhaid i staff WEFO ymdrin â'r ceisiadau â llaw, gan fynd â mwy o amser y naill a'r llall; a
- treuliodd y staff gryn dipyn o'u hamser yn ailgofnodi data ar wahanol systemau cyfrifiadurol a pharatoi'r gwahanol daenlenni a gedwir gan is-adrannau WEFO.

## Camau a gymerwyd gan WEFO

4.8 Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn ac ymdopi â gofynion rhaglen lawer mwy a ragwelir, mae WEFO yn datblygu system integredig fel un o'i blaenoriaethau pennaf. Mae hyn yn cynnwys dwy elfen allweddol:

- **System Talu Grantiau Interim**, sy'n gwella System Rheoli Cronfeydd Ewrop ac yn disodli Dataflex, a fydd yn datrys y problemau a restrwyd uchod ar y cyfan drwy gysylltu'r systemau ar gyfer cymeradwyo grantiau a gwneud taliadau ar gyfer pob un o'r Cronfeydd Strwythurol ac eithrio ESF. Bwriedir rhoi'r system newydd ar waith yn raddol o Ebrill 2002 a dylai fod yn gwbl weithredol erbyn Medi 2002; a
- **System Rheoli Gwybodaeth am Grantiau** a fydd yn cysylltu â'r System Talu Grantiau Interim a'r Gronfa ddata Raglennu a Thaliadau er mwyn darparu adroddiadau rheoli cynhwysfawr ar bob un o'r Cronfeydd Strwythurol a'r Mentrau Cymunedol. Mae WEFO yn bwriadu cyflwyno'r system hon ym mis Medi 2002.

Bydd y gwelliannau hyn yn gwella'r ffordd y caiff cywirdeb ac uniondeb y data eu rheoli yn sylweddol, yn sicrhau bod y broses o dalu taliadau yn fwy effeithlon drwy leihau nifer y gwiriadau â llaw, ac yn hwyluso'r broses o fonitro gwariant ac allbynnau a fydd yn fodd i WEFO gynhyrchu adroddiadau rheoli gwell.

4.9 Penodwyd rheolwr technoleg gwybodaeth gan WEFO ym Mai 2000 i adolygu anghenion y sefydliad ac, ar ôl penderfynu ar yr atebion technegol a'r llwybr caffael, penodwyd rheolwr prosiect allanol ym mis Mawrth 2001. Sefydlwyd bwrdd prosiect ym mis Mehefin 2001 i roi cyfeiriad cyffredinol i'r prosiect a'i reoli. Oherwydd yr angen brys am y system interim newydd, penderfynodd WEFO fabwysiadu ymagwedd "datblygu ceisiadau yn gyflym", sy'n golygu bod y camau o gynllunio'r system, ei rhaglennu a chynnal profion defnyddwyr yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Maintais bosibl yr ymagwedd hon yw y bydd yn arbed cost ac amser ac yn creu cynnyrch terfynol sy'n adlewyrchu gofynion y defnyddiwr wrth iddynt ddatblygu yn well; mae'n rhaid gwrthbwyso hyn yn erbyn y risg uwch o bosibl yr aiff gwaith yn ofer.

4.10 Bwriad WEFO ar y dechrau oedd y byddai'r ddwy system hyn yn rhoi ateb dros dro, ond y gobaith erbyn hyn yw y cânt eu hymgorffori â system gwbl integredig drwy'r we a fydd yn caniatáu i bobl wneud ceisiadau am grant a hawlio arian yn electronig. Mae'n annhebygol y bydd y system newydd hon yn barod tan 2004 yn y fan gyntaf.

## Y casgliad ynglŷn â'r risg hon

4.11 O ystyried y symiau o arian yn y Cronfeydd Strwythurol, nid oedd y systemau a etifeddwyd gan WEFO yn hwyluso'r broses o reoli'n effeithiol ac yn effeithlon, er nad oes awgrym bod arian cyhoeddus wedi'i beryglu. O gofio'r angen brys am welliant, roedd y penderfyniad i wella System Rheoli Cronfeydd Ewrop yn y lle cyntaf yn un cadarn. Fodd bynnag, ni fydd modd cyflwyno'r system derfynol i WEFO tan hanner ffordd drwy'r cylch rhaglennu. ***Argymhellwn fod WEFO yn parhau i weithio i ddatblygu gwell systemau technoleg gwybodaeth gyda'r bwriad o roi system gwbl integredig ar waith mor fuan â phosibl.***

## Risg 3: A yw'r rhaglenni'n cael eu hyrwyddo'n effeithiol?

### Cefndir

4.12 Mae'n hanfodol y caiff y rhaglenni eu hyrwyddo'n eang ac yn effeithiol er mwyn i gynigion cadarn ar gyfer prosiectau ddod i law o'r ystod ehangaf o ffynonellau, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn draddodiadol wedi gwneud cais i'r Cronfeydd yn uniongyrchol - y sector preifat a'r sector gwirfoddol. WEFO sy'n bennaf cyfrifol am hyrwyddo'r rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru, ond mae partneriaethau lleol a rhanbarthau hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo'r rhaglenni yn eu hardal eu hunain.

### Camau a gymeradwyd gan WEFO

4.13 Cynhaliodd WEFO gyfres o seminarau a digwyddiadau ledled Cymru, yn aml wedi'u hanelu at y sector preifat. Cymaint fu'r diddordeb yn y rhaglenni fel y cynhaliwyd 10 o seminarau a sioeau teithio erbyn Mehefin 2001, o'u cymharu â'r ddau ddigwyddiad a ragwelwyd yn wreiddiol, ac mae rhagor yn yr arfaeth. Ym marn WEFO roedd hyn yn fwy defnyddiol na threfnu ymgyrch bosteri gyffredinol i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd: bu cryn sylw eisoes yn y wasg i Amcan 1 er nas ceisiwyd, a'r angen bellach oedd targedu'r grwpiau hynny a allant gyflwyno prosiectau.

4.14 Mae WEFO yn defnyddio ei gwefan fel y prif ffordd o ddarparu gwybodaeth. Mae'n seiliedig ar wefan Gweithrediaeth Rhaglenni Ewropeaidd Cymru, sydd wedi ennill gwobr am ei diwyg. Erbyn hyn y wefan yw'r ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir fwyaf ac mae'n cymharu'n dda â gwefannau rhanbarthau Amcan 1 eraill yn y DU o ran ystod ei chynnwys a pha mor hawdd ydyw i'w defnyddio a'i darllen **(Ffigur 13)**.

4.15 Dangosodd canlyniadau'r arolwg a gomisiynwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod gweithgareddau WEFO wedi cyrraedd ystod eang o'r rhai sy'n ymwneud â phrosiectau. Er enghraifft, roedd 88 y cant wedi ymweld â gwefan WEFO (o'i gymharu â 57 y cant a ymwelodd â gwefan yr hen Weithrediaeth Rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru), ac roedd 53 y cant wedi mynychu seminar neu gyflwyniad gan staff WEFO. Ceir manylion llawn yn Atodiad 4. Yn gyffredinol, dangosodd yr arolwg fod ychydig dros hanner yr ymgeiswyr a holwyd yn fodlon ar y cyhoeddusrwydd a'r wybodaeth gyffredinol a roddwyd gan WEFO.

4.16 Mae cyfrifoldebau'r partneriaethau lleol a rhanbarthol dros hyrwyddo'r rhaglenni yn debyg iawn i gyfrifoldebau WEFO ac mae yna berygl o ddyblygu ac aneffeithlonrwydd os na chaiff ymdrechion eu cydlynu'n ddigonol. Fel WEFO, mae gan lawer ohonynt eu gwefannau eu hunain, maent yn cyhoeddi newyddlenni, ac yn cynnal

**Ffigur 13**

**Cymharu gwybodaeth ar wefannau rhanbarthau Amcan 1 y DU**

| | Cymru | Cernyw | Glannau Merswy | De Swydd Efrog |
|---|---|---|---|---|
| Dogfen Raglennu Sengl / Dogfen Ategol y Rhaglen | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Arweiniad ESF / ffurflen gais ESF | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Arweiniad ERDF/ ffurflen gais ERDF | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Arweiniad a ffurflenni ar gyfer Cronfeydd eraill | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Y newyddion diweddaraf | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ffynonellau o arian cyfatebol | * | ✓ | ✗ | ✗ |
| Esboniad o'r broses gwneud cais /amseriad ac ati | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cofnodion Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni | ✓ | * | ✗ | ✓ |
| Logos cyhoeddusrwydd ar gael i'w hislwytho | ✓ | * | ✗ | ✗ |
| Rhestr o brosiectau cymeradwy / ymchwil prosiect | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |

* Yn cael eu datblygu

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

digwyddiadau hyrwyddo. Fodd bynnag, maent yn amrywio o ran faint y maent yn ymgymryd ag ef a faint o wybodaeth a ddarperir. Nododd pob un o'r ysrifenyddiaethau partneriaeth yr ymwelodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru â hwy nad oedd fawr o gydlynu rhwng eu hymdrechion hwy i hyrwyddo prosiectau ac ymdrechion WEFO, ac roedd rhai yn ansicr ynglŷn â threfniadau cyhoeddusrwydd WEFO. Roedd rhai partneriaethau lleol wedi datblygu cysylltiadau ag ymgynghorwyr lleol Cyswllt Busnes, fel y gellid cyfeirio'r rhai a oedd wedi gofyn am gyngor busnes cyffredinol at ysgrifenyddiaeth y bartneriaeth os oedd angen.

4.17 Yn ogystal â'r gweithgareddau uchod, mae WEFO wedi cymryd camau gyda nod penodol o gysylltu â'r sectorau hynny sydd â llai o brofiad uniongyrchol o Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Mae wedi sefydlu:

- Uned y Sector Preifat i roi cyngor i'r sector preifat ar y cyfleoedd a rydd y Cronfeydd Strwythurol, ac i helpu darpar ymgeiswyr i ddatblygu eu prosiectau (gweler y blwch); ac
- Uned Cymorth y Sector Gwirfoddol gyda swyddogaethau tebyg. Gweithredir yr Uned hon gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gyda chymorth ariannol gan y gyllideb ar gyfer cymorth technegol.

## Y casgliad ynglŷn â'r risg hon

4.18 Cyflawnwyd llawer, ond mae lle i gydlynu'r gweithgaredd hyrwyddo llawer mwy â'r partneriaethau er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei hyrwyddo'n eang a'i bod yn cwmpasu yr holl agweddau angenrheidiol, tra'n lleihau unrhyw orgyffwrdd ymhlith y rhai sy'n ymwneud â hi i'r eithaf. Mae lle hefyd i Gyswllt Busnes a WEFO gyfnewid mwy o wybodaeth â'i gilydd er mwyn i'r naill a'r llall gyfeirio ymholwyr at y pwynt cyswllt mwyaf addas ar gyfer anghenion ariannu (gan fod yr angen i ddangos mantais ehangach ynghyd â natur gymhleth y rhaglenni Ewropeaidd yn golygu nad hwy yw'r llwybr mwyaf addas o bosibl i lawer o brosiectau). Mae gan Uned y Sector Preifat ac Uned y Sector Gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau y caiff eu sectorau fwy o effaith ar y rhaglenni.

### Uned y Sector Preifat

Sefydlwyd Uned y Sector Preifat ym mis Medi 2000 er mwyn ei gwneud yn haws i'r sector preifat gael mynediad i'r Cronfeydd Strwythurol, a fu'n gyfyngedig mewn Rhaglenni blaenorol. Cymeradwywyd ei hamcanion penodol gan Bwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 ym mis Rhagfyr 2000:

- ymdrin ag ymholiadau cychwynnol y sector preifat;
- droi rheoliadau a dogfennau allweddol eraill yn arweiniad clir i'r sector preifat;
- roi arweiniad i sefydliadau sy'n gweithio gyda'r sector preifat a'u briffio'n rheolaidd;
- helpu noddwyr prosiectau o'r sector preifat i ddatblygu prosiectau, ac yn arbennig rhoi cyngor ac arweiniad ar gymhwyster, prosesu a chyflwyno cais. Fodd bynnag, nid yw'r Uned yn disodli rôl y bartneriaeth nac yn cymryd rhan uniongyrchol wrth arfarnu prosiectau;
- ddatblygu syniadau ar gyfer cynlluniau a fydd yn sicrhau twf economaidd sylweddol ac i "werthu" y rhain i ddarpar noddwyr; ac
- geisio sicrhau bod y broses mor hygyrch â phosibl i'r sector preifat.

Rhwystrwyd y cynnydd ar gyflawni'r amcanion hyn gan sawl ffactor: prinder staff, nifer uchel iawn o ymholiadau ar ddechrau rhaglen Amcan 1, yr angen i fynd i'r afael â rhai materion rheoliadol anodd ynglŷn â nawdd y wladwriaeth, a'r angen i gynnal digwyddiadau hyrwyddol cyffredinol ar ddechrau'r rhaglen. Golygodd hyn fod yr Uned wedi canolbwyntio ar waith craidd megis ymdrin ag ymholiadau a helpu noddwyr prosiectau drwy'r broses o wneud cais. Fodd bynnag, goresgynnwyd yr anawsterau cychwynnol hyn, recriwtiwyd ar raddfa fawr (gan gynnwys tri pherson ar secondiad o'r sector preifat) ac mae'r Uned bellach yn bwriadu mynd i'r afael ag amcanion tymor hwy.

Ar 31 Mawrth 2002, dim ond dau ddeg dau o brosiectau o dan arweiniad y sector preifat a oedd wedi'u cymeradwyo, er bod yr Uned yn ymdrin â 55 o brosiectau eraill sydd ar wahanol gamau yn eu datblygiad. Gall y Rhaglenni ond ariannu prosiectau sy'n dangos buddiant ehangach i'r rhanbarth a bodloni amcanion penodol y mesur y cant eu cyflwyno oddi tano. Cynhaliwyd tri grŵp gweithio ym mis Rhagfyr 2001 er mwyn ceisio barn ystod o gynrychiolwyr o'r sector preifat ar y ffordd yr oedd y Cronfeydd Strwythurol yn cael eu gweithredu, nodwyd cryn anfodlonrwydd ynglŷn â chyflymder a 'biwrocratiaeth'y broses. Mae WEFO o'r farn bod y problemau hyn yn deillio o'r ffaith bod pobl yn disgwyl gormod ar ddechrau'r rhaglen ynghyd â'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Erbyn hyn mae'r Uned yn bwriadu datblygu fframweithiau prosiect ar gyfer ardaloedd y rhaglen lle y gallai'r sector preifat gael y budd mwyaf. Ni fydd y rhain o reidrwydd yn rhai sy'n ennyn y diddordeb mwyaf ar hyn o bryd, megis cynlluniau seilwaith. Bydd y fframweithiau'n nodi'r hyn sydd ei angen, wedi'u cymeradwyo gan y partneriaethau strategaeth berthnasol, ac yna eu hyrwyddo fel cyfleoedd busnes penodol i'r sector preifat. Mae'r Uned yn gobeithio y bydd y fframweithiau hyn yn rhoi mynediad haws i'r rhaglenni ar gyfer y sector preifat ac yn sicrhau ei bod yn cael y budd mwyaf posibl.

## Risg 4: A yw ceisiadau prosiectau yn cael eu harfarnu drwy weithdrefnau arfarnu cadarn?

### Cefndir

4.19 Fel Awdurdod Rheoli'r rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru, mae WEFO yn gyfrifol am arfarnu pob cais gan brosiect i sicrhau ei fod yn gymwys i gael cymorth o dan reoliadau Ewrop, ei fod yn cydweddu â'r strategaeth osodwyd yn Nogfen Ategol y Rhaglen a dogfennau eraill a'i fod yn rhoi gwerth da am arian. Mae'r rôl hon yn hollbwysig i sicrhau bod prosiectau yn cyflwyno amcanion rhaglenni ar gost rhesymol a na chaiff grantiau eu hadennill yn ddiweddarach am eu bod wedi torri rheoliadau Ewrop. Mae'r partneriaethau lleol a rhanbarthol hefyd yn chwarae rôl hollbwysig, gan eu bod yn helpu i ddatblygu ac yna asesu prosiectau i ganfod i ba raddau y maent yn diwallu anghenion lleol neu ranbarthol. Bydd WEFO ond yn ystyried prosiectau a gefnogir gan y bartneriaeth berthnasol, ac fel arfer dim ond lle mae'r bartneriaeth strategaeth berthnasol wedi argymell y dylid cymeradwyo'r prosiect y bydd yn rhoi grant.

4.20 Astudiodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sampl o geisiadau prosiectau am y ERDF, ESF a EAGGF o dan Amcan 1 ac Amcan 3. Ystyriwyd ansawdd y dystiolaeth a roddwyd o dan y penawdau canlynol:

- cydymffurfiad â'r rheoliadau;
- gwerth ychwanegol (y gofyniad y daw manteision ychwanegol gwirioneddol i ardal y rhaglen yn sgîl y prosiect);
- p'un a oes angen y prosiect;
- sut y mae'n cydweddu â'r strategaeth ac yn integreiddio â phrosiectau eraill;
- gwerth am arian o ran cyfanswm cost uned am ganlyniadau'r prosiect;
- themâu trawsbynciol - cyfle cyfartal, cynaliadwyedd amgylcheddol a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu. (Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi gosod gofyniad newydd ar gyfer rhaglenni 2000-06 y dylai prosiectau ddangos sut y byddant yn cyfrannu at y themâu hyn.); ac
- asesu risgiau.

4.21 Yn gyffredinol, canfuwyd gennym bod WEFO yn arfarnu prosiectau'n systematig drwy ddefnyddio meini prawf dewis penodol (Atodiad 5). Mae gweithdrefnau wedi datblygu'n gyson ers i'r sefydliad ddechrau arfarnu prosiectau o dan y rhaglenni newydd ym mis Medi 2000; bryd hynny roedd llawer o'r staff yn newydd, ac roedd yn rhaid iddynt arfarnu prosiectau heb hyfforddiant ffurfiol na chyfarwyddiadau manwl. Ers hynny mae WEFO wedi datblygu arweiniad manylach a rhestrau gwirio mwy cynhwysfawr, ac mae safon y ddogfennaeth wedi gwella. Mae nifer o ddatblygiadau eraill yn rhoi sicrwydd pellach.

- gweithdrefnau sefydledig ar gyfer canoli ac adolygu er mwyn lleihau'r risg o sgorio anghyson a sicrhau y caiff pob gofyniad ei fodloni;
- ar gyfer Amcan 1, mae Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni wedi sefydlu gweithdrefnau ffurfiol er mwyn sicrhau yr ymgynghorir ynglŷn â phob prosiect yn eang cyn ei gymeradwyo;
- mae'r partneriaethau strategaeth yn rhoi argymhelliad annibynnol ar bob prosiect, yn seiliedig ar adroddiad arfarnu byr a baratoir gan WEFO;
- cyfeirir prosiectau yn aml at y rhannau priodol o Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer cyngor polisi; a
- gwneir defnydd helaethach o arfarnu ariannol (asesiad manwl o gynlluniau ariannol prosiect) ac arfarniad technegol gan arbenigwyr.

4.22 Caiff canlyniadau'r gweithdrefnau sgorio eu dogfennu ar restrau gwirio safonol, ond yn ein barn ni, nid yw'r rhain bob amser yn rhoi digon o wybodaeth ar y farn a luniwyd yn yr achos dan sylw. Ar gyfer prosiectau o dan ESF nid yw'r sgoriau a ddyfarnwyd ar gyfer pob maen prawf wedi'u hategu gan unrhyw sylwadau ysgrifenedig. Heb sylwadau o'r fath, nid yw'r broses gwneud penderfyniadau yn gwbl dryloyw. ***Argymhellwn y dylai WEFO sicrhau y caiff pob mater sy'n gofyn am lunio barn, gan gynnwys y sgoriau a ddyfernir, ei gyfiawnhau'n ysgrifenedig.***

4.23 O ran **cymhwyster** prosiectau, canfuwyd gennym bod WEFO yn cymhwyso'r rheolau'n drwyadl ond bod problemau wedi dod i'r golwg mewn rhai meysydd lle mae'r gofynion yn aneglur. Mae nawdd y wladwriaeth yn fater cymhleth iawn, ac mae WEFO yn cyflwyno pob prosiect mawr gan y sector preifat i Uned Nawdd y Wladwriaeth yn yr Adran Masnach a Diwydiant am gyngor. Mewn rhai achosion, mae materion cyfreithiol wedi arwain at gryn oedi cyn cymeradwyo prosiectau; gall rhain

godi am nad yw caniatad cynllunio wedi'i roi eto, am nad yw'r gweithgaredd yn digwydd yn ardal y rhaglen, neu am fod yr UE wedi capio'r arian refeniw neu gyfalaf o fewn mesurau. Yn gyffredinol rydym yn fodlon bod WEFO yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â chydymffurfiad yn drwyadl.

4.24 Mae'r cysyniad o **werth ychwanegol** yn hanfodol wrth arfarnu prosiectau ac mae'n ofyniad sylfaenol ar gyfer pob grant o'r Cronfeydd Strwythurol. Mae'n rhaid i'r grant a ddyrennir gyrraedd yr isafswm sydd ei angen er mwyn i'r prosiect fynd yn ei flaen ac mae'n rhaid i brosiectau:

- peidio â chymryd lle gweithgaredd sy'n mynd yn ei flaen eisoes neu weithgaredd arfaethedig (amnewid);
- peidio â dyblygu gweithgaredd sy'n mynd yn ei flaen eisoes; a
- dangos mantais ychwanegol a chynaliadwy i ddatblygiad economaidd-gymdeithasol yr ardal.

4.25 Mae'r rhain yn risgiau anodd i'w hasesu, yn enwedig ar gyfer prosiectau ESF. Mae WEFO yn dibynnu ar y partneriaethau, a'r ymgynghoriadau rhyngddynt, i nodi unrhyw ddarpariaeth a ddyblygir; mae hefyd yn ymgynghori â swyddogion ac arbenigwyr gyda gwybodaeth fanwl o'r sector. Mae'n anodd hefyd asesu effaith amnewid a ph'un a oes angen y grant; mae'r rhain yn risgiau arbennig ar gyfer prosiectau sy'n ymestyn gwasanaethau sy'n bodoli eisoes (megis cynlluniau grant datblygu busnes neu gyrsiau hyfforddi), prosiectau yn y sector preifat, a phrosiectau sy'n cynhyrchu refeniw a fyddai fel arfer yn cael eu hariannu'n breifat (er enghraifft, seilwaith).

4.26 Mae WEFO yn cynnal arfarniadau ariannol manwl o brosiectau yn y sector preifat er mwyn sicrhau bod y rhagamcanion o ran lefelau cost a refeniw ac elw yn rhesymol, ac y gall adennill canran briodol o unrhyw elw mawr anghyffredin a enillir drwy'r prosiect ar ôl iddo ddod i ben. Fodd bynnag, canfuwyd gennym bod llai o graffu ar brosiectau yn y sector preifat sy'n ymestyn darpariaeth sy'n bodoli eisoes; nid oedd yn amlwg bob amser faint o ddarpariaeth ychwanegol a ryddhawyd drwy'r grant ac i ble y byddai unrhyw adnoddau a ryddhawyd drwy ariannu'r prosiect yn cael eu hailgyfeirio.

4.27 O ystyried y materion cymhleth dan sylw, mae terfyn ar yr hyn y gall WEFO ei wneud wrth asesu gwerth ychwanegol ar y cam arfarnu. Fodd bynnag, yn hytrach na derbyn sicrwydd ymgeiswyr ar ei olwg, credwn fod lle i WEFO fod yn fwy soffistigedig wrth arfarnu'r mater hwn drwy:

- canolbwyntio ar brosiectau â risg uchel, megis prosiectau sy'n bodoli eisoes a fyddai'n cael eu hariannu fel arfer o ffynonellau prif ffrwd a mentrau preifat;
- gofyn cyfres o gwestiynau cysylltiedig. A yw'r prosiect yn un newydd? A gafodd arian o Ewropeaidd o'r blaen? A fydd y prosiect yn cynnwys gweithgareddau sy'n cael eu cynnal eisoes (os felly bydd angen dangos bod canlyniadau a chostau ychwanegol)? Os gofynnir am arian ar gyfer darpariaeth sy'n bodoli eisoes, a gaiff yr adnoddau a ryddhawyd eu hailgyfeirio? a
- sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r broses, yn arbennig ymgeiswyr prosiect, yn gwbl ymwybodol o'r gofynion ac o'r math o ddogfennaeth sydd ei hangen i gyfiawnhau gwerth ychwanegol.

4.28 Drwy gymryd y camau hyn yn gynnar, dylai WEFO fynd tipyn o'r ffordd i achub y blaen ar unrhyw risg y caiff grant ei adfachu pan fydd archwiliadau'n nodi problemau o ran gwerth ychwanegol. ***Argymhellwn y dylai WEFO wneud rhagor i asesu'r ddadl dros werth ychwanegol wrth arfarnu prosiectau yn y ffyrdd a nodwyd gennym uchod.***

4.29 O ran y cwestiwn **p'un a oes angen y prosiect**, canfuwyd gennym bod yr achos a gyflwynwyd dros brosiectau yn amrywio o ran safon, yn arbennig yn y cylch cyntaf o brosiectau yn 2000. Roedd rhai wedi gwneud ymchwil benodol i gefnogi eu hachos, ond cyfeiriodd llawer eraill at strategaethau a pholisïau a oedd yn bodoli eisoes mewn ffordd annelwig nad oedd yn dangos a oedd angen gweithgaredd penodol y prosiect yn ei leoliad arfaethedig. Gellir ymdrin â'r mater p'un a oes angen prosiect, a materion cysylltiedig, drwy ofyn cyfres o gwestiynau cysylltiedig, megis: pa angen penodol y mae'r prosiect yn ymdrin ag ef? Pa ddarpariaeth arall sydd ar gael a pham nad yw'n ddigonol? Pa dystiolaeth sydd y bydd y prosiect hwn yn effeithiol (er enghraifft, canlyniadau prosiectau peilot neu ganlyniadau prosiectau tebyg?) Pa ddewisiadau amgen a ystyriwyd? Sut y caiff y prosiect ei hyrwyddo a sut y caiff y rhai a fydd yn manteisio arno eu recriwtio i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau angenrheidiol? A oes gan yr ymgeisydd y gallu i gyflawni'r prosiect?

4.30 Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn yn uniongyrchol yn system dewis ESF, ond mae'r system sgorio ar gyfer y Cronfeydd eraill yn asesu sut y mae prosiect yn cydweddu â strategaethau a pholisïau perthnasol yn hytrach na'r angen am y prosiect yn benodol. Mae'r strategaethau hyn yn ddogfennau lefel uchel ac maent yn amrywio cryn dipyn yn y graddau y maent yn mapio'r anghenion a darpariaeth gwasanaethau presennol, yn nodi ac yn asesu atebion posibl ac yn blaenoriaethu gweithgareddau. Asesir hefyd i ba raddau y mae prosiect yn integreiddio â phrosiectau a rhaglenni eraill fel dangosydd o synergedd, er mwyn sicrhau effaith fuddiol fwyaf y rhaglenni. Ar gyfer pob un o'r Cronfeydd, mae WEFO yn dibynnu'n fawr ar y partneriaethau i asesu'n fanwl p'un a oes angen y prosiect ynghyd â'i ansawdd, ond fel arfer ni chaiff yr asesiadau hyn eu dogfennu'n llawn ar ffeiliau WEFO ac ni chânt eu hymgorffori'n ffurfiol yn system dewis prosiectau WEFO. Mae'r partneriaethau rhanbarthol a lleol yn defnyddio eu meini prawf asesu eu hunain sydd yn aml yn gorgyffwrdd â rhai WEFO, ond nid yw'n eglur yn y ddogfen arfarnu a gedwir gan WEFO pa mor drwyadl oedd yr asesiad.

4.31 Mae'n bwysig bod y dystiolaeth a nodwyd i ddangos bod angen prosiect yn cael ei gwirio lle bo angen. Nid oedd fawr o dystiolaeth o hyn yn ffeiliau WEFO; yn wir gofynnir i ymgeiswyr i ESF beidio â chyflwyno unrhyw ddogfennau ategol ar y cyd â'u ffurflen gais oherwydd dylai'r ffurflen gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer yr arfarniad. Mae lle i WEFO weithio'n fwy gyda'r partneriaethau er mwyn sicrhau y caiff adolygiad digon manwl ei gynnal yn ôl safon gyson. ***Argymhellwn y dylai WEFO ymgorffori asesiad manylach o ansawdd prosiectau a ph'un a oes eu hangen yn ei meini prawf dewis ar gyfer ERDF, EAGGF ac FIFG, ac, ar gyfer pob Cronfa, y dylid ymgorffori gwaith y partneriaethau yn hyn o beth yn uniongyrchol er mwyn lleihau dyblygu gwaith i'r eithaf. Lle na wneir asesiad manwl, dylai WEFO adolygu'r dystiolaeth angenrheidiol ei hun a'i dogfennu'n llawn ar ei ffeiliau arfarnu.***

4.32 Er bod y partneriaethau'n datblygu ac yn asesu prosiectau, WEFO sy'n gyfrifol yn y pen draw am arfarnu **gwerth am arian** cyffredinol prosiect. Gallai asesiad trylwyr o werth am arian gynnwys cwestiynau megis y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr):

- a yw'r holl gostau (a'r nwyddau a'r gwasanaethau a ariennir drwyddynt) yn rhesymol ac yn briodol;
- a fydd noddwr y prosiect yn caffael gwasanaethau mewn modd cystadleuol (gofyniad rheoliadol ar gyfer y rhan fwyaf o ymgeiswyr);
- faint o arian y mae'r sector preifat yn ei ddarparu (trosoledd); a
- a yw allbynnau'r prosiect (mesur o weithgaredd) a'i ganlyniadau (canlyniad uniongyrchol y gweithgaredd) yn realistig ac yn rhesymol o'u cymharu â'r costau cyffredinol. Mae cost fesul swydd yn fesur arbennig o bwysig ar gyfer ERDF.

4.33 Canfuwyd gennym bod WEFO fel arfer yn asesu costau yn eithaf manwl, a'i bod yn gwneud defnydd helaethach o gyngor technegol ac arfarniad ariannol i'r perwyl hwn. Mae hefyd yn sicrhau bod noddwyr prosiectau yn ymrwymo i broses gaffael gystadleuol, ac y caiff hyn ei dilysu wedi hyn drwy edrych ar sampl fel rhan o'r gwaith ar reolaeth ariannol a wneir gan WEFO.

4.34 Fodd bynnag, nid yw'r ffordd yr asesir canlyniadau a chostau uned yr un mor ddatblygedig. Nid yw'r system sgorio ar gyfer ERDF, EAGGF ac FIFG yn ystyried costau uned cymharol ac mae ond yn gwahaniaethu rhwng creu swyddi yn uniongyrchol, creu swyddi yn anuniongyrchol a chreu swyddi posibl /cynnydd mewn trosiant busnes. Ar gyfer ESF, nid yw costau uned wedi'u cynnwys yn y meini prawf dewis. Byddai'n ddefnyddiol pe bai fframwaith cadarnach gyda meini prawf manylach ar gyfer asesu gwerth am arian. Er enghraifft, yng Nghernyw, mae arfarniadau o dan ERDF yn seiliedig ar ddangosyddion penodol ar gyfer pob gweithgaredd, megis costau uned o ran gwaith adeiladu neu faint o swyddi y dylid eu creu o ran cyngor busnes, a ddatblygwyd gan ymgynghorwyr allanol. Mae'r dangosyddion hyn yn cwmpasu'r ddau weithgaredd (er enghraifft costau uned o ran gwaith adeiladu) a chanlyniadau (er enghraifft, y nifer debygol o swyddi a grëir drwy fuddsoddiad penodol mewn busnesau bach). Ni ddefnyddir dangosyddion o'r fath yng Nghymru, ond gellid eu datblygu o'r tybiaethau am gost ac allbwn sy'n sail i Ddogfen Ategol y Rhaglen. Ar gyfer ESF, mae'n arbennig o bwysig asesu pa mor realistig yw costau ac allbynnau oherwydd bu problemau difrifol o ran tanwariant yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

4.35 Mae gan y partneriaethau yng Nghymru rôl wrth asesu gwerth am arian prosiectau, ac mae'n bosibl bod arbenigwyr yn y partneriaethau rhanbarthol yn enwedig yn meddu ar y wybodaeth dechnegol arbenigol sydd ei hangen i lunio barn o'r fath. Mae gwahaniaeth pwysig rhwng rôl y partneriaethau

lleol a rhanbarthol wrth gyfrannu at ddatblygu prosiectau da a rôl WEFO wrth eu harfarnu yn erbyn ystod o feini prawf. Fodd bynnag, lle mae'r partneriaethau wedi gwneud gwaith gwerthfawr ar brosiect a allai fod o gymorth i WEFO o ran ei swyddogaeth arfarnu, yn amlwg mae'n gwneud synnwyr bod gwaith o'r fath ar gael i WEFO - yn bennaf er mwyn osgoi'r risg o ddyblygu ymdrech. **Argymhellwn y dylai WEFO ailystyried ei threfniadau ar gyfer bodloni ei hun ar werth am arian prosiectau, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r wybodaeth a ddefnyddir i lunio barn a'r arweiniad sydd ar gael i'r staff sy'n llunio barn;**

4.36 O ran y **themâu trawsbynciol** canfuwyd gennym bod llawer o ymgeiswyr wedi ei chael yn anodd i ymdrin â'r themâu hyn, ac wedi gwneud datganiadau cyffredinol o fwriad yn hytrach na nodi ymrwymiadau penodol ynghylch sut y caiff y themâu eu hintegreiddio â'u prosiect hwy. Er enghraifft, gall cynigion ar gyfer prosiectau nodi eu bod yn "yn hanfodol agored i bawb" neu "yn ymrwymedig i gyfle cyfartal", ond ychydig ohonynt sy'n nodi ymrwymiadau penodol megis rhoi cymorth i'r rhai sy'n manteisio ar gyrsiau am gostau gofal plant. Mae WEFO wedi cydnabod yr anawsterau sydd ynghlwm ac wedi penodi arbenigwr ar gyfer pob un o'r themâu sy'n rhoi cyngor i ymgeiswyr ac yn cynorthwyo aelodau eraill o staff wrth iddynt arfarnu prosiectau. Mae WEFO hefyd wedi cyhoeddi arweiniad ar gyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol ac mae'n defnyddio'r arweiniad a ddatblygwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru ar dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu. **Argymhellwn y dylai WEFO ymgorffori'r arweiniad manylach hwn yn ei meini prawf sgorio.**

4.37 O ran **asesu risgiau**, er bod WEFO wedi dweud wrthym bod y swyddogion arfarnu a'r partneriaethau yn ystyried bod risgiau prosiectau yn rhan o'u harfarniad, ychydig iawn o dystiolaeth o hyn a ganfuom yn ein hadolygiad o ffeiliau prosiectau. Bydd natur ac effaith bosibl y risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiect yn dibynnu ar y prosiect a pha mor dda y caiff ei reoli. Yn gyffredinol mae prosiectau mawr neu arloesol yn fwy tebygol o fod â risgiau, ond yn yr un modd gall y manteision posibl a ddaw yn eu sgîl fod yn fwy ac felly'n werth y risg. Dylid asesu'r holl ffactorau hyn fel rhan o arfarniad prosiect a dylid llunio barn ynghylch pa mor dderbyniol yw'r risg gyffredinol i'r rhaglenni Ewropeaidd. Mae WEFO wrthi'n datblygu system safonol ar gyfer dogfennu'r risgiau a nodir wrth arfarnu prosiect a'u bwydo i mewn i'r gweithgaredd monitro a rheolaeth ariannol sy'n dilyn. **Cefnogwn y fenter hon, ac argymhellwn y dylid gofyn i noddwyr prosiectau nodi risgiau eu prosiectau a sut y cânt eu rheoli.**

### Y casgliad ynglŷn â'r risg hon

4.38 Mae arfarnu prosiectau'n dda - dewis y prosiectau cywir, sy'n wirioneddol yn ychwanegu gwerth at economi Cymru - yn allweddol i lwyddiant y rhaglenni. Bu WEFO, ynghyd â'i phartneriaid, o dan bwysau i roi'r rhaglenni ar waith ac ymrwymo arian. Mae wedi cyflawni hyn. Wrth i'r rhaglenni ddatblygu, fodd bynnag, mae lle i WEFO ddefnyddio technegau arfarnu mwy soffistigedig, drwy, er enghraifft, ddatblygu dangosyddion gwerth am arian ac asesiadau risg cadarnach.

## Risg 5: A yw'r broses arfarnu yn rhy gymhleth a llafurus?

### Cefndir

4.39 Mae'r rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru yn gymhleth yn eu hanfod am eu bod yn cwmpasu ystod eang iawn o weithgareddau cydgysylltiol y mae angen iddynt gael eu cyd-drefnu â'i gilydd, a chyda rhaglenni a pholisïau eraill y llywodraeth, ac y mae angen iddynt gydymffurfio'n llawn â chyfres o reoliadau Ewropeaidd a domestig. Yng ngoleuni'r canfyddiadau o'n harolwg o'r ymgeiswyr (Atodiad 4), ystyriwyd gennym p'un a oedd y broses arfarnu yn debygol o droi darpar ymgeiswyr oddi wrth eu bwriad o dan dri chategori: hyd y broses, faint o wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen gais; a'r arweiniad sydd ar gael i ymgeiswyr.

#### Hyd y broses

4.40 Mae'r amseroedd arfarnu yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys faint o wybodaeth ychwanegol y mae WEFO a/neu'r bartneriaeth strategaeth yn gofyn amdani; p'un a ofynnwyd am gyngor allanol (dyma un o'r prif resymau pam bod ceisiadau o dan ESF yn tueddu i gael eu cymeradwyo'n gynt gan mai anaml y mae angen eu cyfeirio am gyngor proffesiynol allanol); p'un a godwyd unrhyw faterion cymhleth o ran polisi; ac a oes mwy nag un bartneriaeth strategaeth ynghlwm. Mae'r ffactor olaf yn effeithio ar brosiectau mawr sy'n cwmpasu sawl mesur sy'n cynnwys mwy nag un bartneriaeth strategaeth.

4.41 Mae gan WEFO darged o ymdrin â cheisiadau o fewn 90 diwrnod. Caiff perfformiad y Swyddfa yn erbyn y targed hwn ei fonitro gan dimau fesul achos fel arfer; nid yw WEFO yn meddu ar system

awtomataidd ar gyfer coladu'r data a chyflwyno adroddiad arno i'r rheolwyr hyd yma, er ei fod e'n datblygu hyn fel rhan o'r system TG newydd. Dangosodd ymarfer ar wahân ym mis Chwefror 2002 fod prosiectau a gymeradwywyd o dan y rhaglen dreigl (o 1 Ionawr 2001) yn cael eu harfarnu o fewn 103 o ddiwrnodau ar gyfartaledd, ac yr ymdriniwyd â 42 y cant o fewn y targed o 90 diwrnod. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y ceisiadau nad oedd WEFO wedi ymdrin â hwy erbyn 31 Ionawr 2002 nac ychwaith faint o amser a gymerir i ddatblygu'r prosiect mewn cydweithrediad â'r bartneriaeth leol neu ranbarthol berthnasol cyn iddo gyrraedd WEFO. Gall hyn gymryd o leiaf deufis (Ffigur 11).

4.42 Fodd bynnag, roedd yr amseroedd arfarnu ar gyfer y ceisiadau a ddaeth i law yn 2000 yn llawer hwy. Un rheswm dros hyn oedd y nifer fawr o brosiectau a gyflwynwyd ar yr un diwrnod er mwyn cwrdd â dyddiad terfynol ar 30 Medi 2000. Ar y pryd roedd gofynion y rhaglen newydd yn anghyfarwydd i WEFO (a oedd ond wedi'i sefydlu'n ddiweddar), y partneriaethau a'r ymgeiswyr. Yn ogystal, nid oedd polisi strategol ac arweiniad mewn rhai meysydd allweddol wedi'u sefydlu eto ac roedd WEFO yn gofyn am lawer o wybodaeth ychwanegol cyn iddi allu penderfynu p'un a ddylai gymeradwyo prosiectau ai peidio. Cymerodd o leiaf flwyddyn i ymdrin â nifer fawr o brosiectau ac mae penderfyniadau ar rai prosiectau heb eu gwneud yn derfynol o hyd.

4.43 Mae WEFO o'r farn bod y ffordd y mae'r broses yn gweithredu wedi gwella'n sylweddol ers y cylch cyntaf o geisiadau gan fod pawb sy'n gysylltiedig â hi wedi ymgyfarwyddo â'u rolau. Mae'n bosibl ymdrin â cheisiadau o fewn 90 diwrnod os ydynt yn ddatblygedig ac os ydynt yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol; mae hyn yn gofyn i'r partneriaethau, ymgeiswyr a WEFO gydweithio'n agos er mwyn sicrhau bod pob parti yn cael gwybod am yr hyn sydd ei angen a phryd. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd amseroedd asesu cyffredinol yn mynd yn llawer llai oherwydd y nifer fawr o gamau y mae'n rhaid i brosiect eu dilyn (gweler Ffigur 11 yn Rhan 3). Mae gan WEFO yr un targed, sef cyfnod arfarnu o dri mis, â'r un a bennwyd yng Nglannau Merswy a Chernyw.

### Faint o wybodaeth y gofynnir amdani ar y ffurflen gais

4.44 Mae'r ffurflen gais yn gyfiawnhad llawn o'r prosiect yn y bôn - mae'n rhaid iddi ddangos sut y mae'r prosiect yn bodloni pob un o'r meini prawf ar gyfer grant o'r Cronfeydd Strwythurol. Mae'r meini prawf hyn yn rhai heriol ac ymestynnol ac o'r herwydd mae angen rhoi cryn dipyn o wybodaeth ar y ffurflenni cais. Ar gyfer prosiectau o dan ESF mae'r ffurflen gais wedi'u chyfrifiaduro'n llawn a chaiff ei chyflwyno ar ddisg ryngweithiol. Ar gyfer y Cronfeydd eraill, mae'r ffurflen gais ar gael yn electronig ond nid yw'n rhyngweithiol, felly mae angen i ymgeiswyr, er enghraifft, ddadansoddi costau a chyfrifo'r cyfansymiau eu hunain. Mae arweiniad ar gwblhau'r ffurflen ar gael mewn dogfen ar wahân.

4.45 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi cymharu'r ffurflen gais Amcan 1 ar gyfer y ERDF, EAGGF ac FIFG yng Nghymru â gofynion y ffurflen cais ar gyfer y ERDF yn Lloegr. Y prif wahaniaeth yw bod y ffurflen yn Lloegr yn fyrrach, a'i bod yn canolbwyntio ar wybodaeth ffeithiol am y prosiect; fodd bynnag mae'r ymgeiswyr hefyd yn cyflwyno cynllun busnes sy'n rhoi'r cyfiawnhad terfynol dros y prosiect. Rhydd hyn fwy o ddisgresiwn i'r ymgeiswyr ynglŷn â chynnwys y wybodaeth a ddarperir ac ar ba ffurf y'i darperir. Yn gyffredinol, mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn Lloegr ac yng Nghymru yn debyg o ran maint a natur.

4.46 Byddai manteision ac anfanteision i fyrhau'r ffurflen gais a gofyn am ragor o fanylion yn y cynllun busnes, fel y gwnaed yn Lloegr. O safbwynt cadarnhaol, byddai gan yr ymgeisydd lawer mwy o ddisgresiwn i gyflwyno eu prosiect, a thrwy hynny yn rhoi gwell syniad i WEFO ynghylch pa mor ddatblygedig oedd syniad y prosiect mewn gwirionedd. Byddai hefyd yn caniatáu i ymgeiswyr y mae eu prosiectau yn cwmpasu mwy nag un mesur gyflwyno un cynllun busnes, gyda ffurflenni cais ar wahân ar gyfer cofnodi'r manylion sydd eu hangen ar wahân ar gyfer pob mesur yn unig; byddai hyn yn dileu cryn dipyn o'r gwaith a ddyblygir ar gyfer prosiectau o'r fath a byddai'n nodi'n fwy eglur y cysylltiadau rhwng prosiectau cysylltiedig. Mae llawer o ymgeiswyr, yn enwedig am y prosiectau mwy a'r prosiectau o'r sector preifat, eisoes yn paratoi cynlluniau busnes yn ogystal â ffurflen gais. Fodd bynnag, ar yr ochr negyddol, byddai llai o reolaeth dros y math o wybodaeth a gyflwynir, byddai'n well gan rai ymgeiswyr ffurflen gais strwythuredig na 'llyfr agored' cynllun busnes, ac efallai y bydd yn anodd yn ymarferol osgoi ailadrodd gwybodaeth yn y ddwy ddogfen. ***Argymhellwn y dylai WEFO ystyried y posibilrwydd o fyrhau'r ffurflen gais er mwyn iddi gynnwys yn bennaf fanylion penodol ynglŷn â'r prosiect a'i gydymffurfiad â'r rheoliadau, gyda chynllun busnes sy'n cynnwys y cyfiawnhad terfynol dros y prosiect.***

4.47 Mewn ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth ddaearyddol fanwl gan Bwyllgorau Monitro'r Rhaglenni a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, mae WEFO wedi gofyn am fwy o wybodaeth ar y ffurflenni cais gan gynnwys amseriad a lleoliad yr hyn a gyflawnir gan y prosiect (yr allbynnau). Bydd hyn yn caniatáu i ddosbarthiad daearyddol gweithgareddau pob rhaglen gael ei fonitro, a bydd yn ei gwneud yn haws i bartneriaethau lleol ddatblygu strategaethau. Fodd bynnag, ar gyfer prosiectau mawr, bydd yn golygu cynnydd sylweddol ym maint y wybodaeth y bydd ei hangen.

### Arweiniad i ymgeiswyr

4.48 Mae cryn dipyn o arweiniad ar gael i ymgeiswyr, sy'n adlewyrchu ystod eang iawn y rhaglenni. Er enghraifft, mae'r Ddogfen Raglennu Sengl a Dogfen Ategol y Rhaglen gyda'i gilydd yn parhau am fwy na 500 o dudalennau, gyda nifer o ffynonellau eraill o arweiniad hefyd yn parhau am gannoedd o dudalennau. Mae'r arweiniad sydd ar gael yn cynyddu o hyd. Erbyn hyn disgwylir i ymgeiswyr gyfeirio at y fframwaith strategol a luniwyd gan y partneriaethau strategaeth ar gyfer eu maes gweithgaredd hwy. Yn ymarferol, nid oes angen i ymgeiswyr ddarllen yr holl arweiniad a bydd y partneriaethau yn eu cyfeirio at y ffynonellau mwyaf addas.

4.49 Y canfyddiadau o'n harolwg o'r ymgeiswyr oedd bod y prif ffynonellau o arweiniad ysgrifenedig yn cael eu defnyddio'n helaeth a'u bod yn ddefnyddiol yn gyffredinol ym marn yr ymgeiswyr. Fodd bynnag, er nad oedd cytundeb cryf ynghylch sut yn union y dylid newid yr arweiniad, dengys y canlyniadau fod pobl yn gyffredinol yn awyddus iddo gael ei symleiddio, ei fyrhau neu ei gyfuno i'w wneud yn haws i'w ddefnyddio. Mae WEFO yn wynebu tasg anodd i gyfuno'r awydd am arweiniad byr, syml â'r angen am wybodaeth gynhwysfawr lle y bo angen hynny. Hefyd, gan fod blaenoriaethau strategol a meini prawf dewis yn debygol o newid dros amser, gallai un arweiniad cynhwysfawr fynd yn amherthnasol o fewn cyfnod byr.

4.50 Un opsiwn arall o bosibl yw datblygu "pecyn cychwyn" o wybodaeth sylfaenol ar gyfer ymgeiswyr, wedi'i ategu gan gyfres o nodiadau arweiniol manylach y gall ymgeiswyr a'u hymgynghorwyr gyfeirio atynt yn ôl yr angen. Mae sawl partneriaeth eisoes wedi cyflwyno eu harweiniad rhagarweiniol eu hunain. Bydd angen gwybodaeth fanwl o hyd am weithgareddau a sefyllfaoedd penodol, ond hyd y gellir dylid ei chadw ar wahân i'r arweiniad cyffredinol a'i lunio'n benodol ar gyfer pob mesur. Mae WEFO wedi ymchwilio i ddatblygu ei gwefan fel y gellir mynd o'r naill gyfres o arweiniad i'r llall yn electronig, ond ni weithredwyd ar hyn am nad oes gan lawer o'i chwsmeriaid fynediad band llydan â'r rhyngrwyd ac y byddai'n anodd islwytho gwefan fwy cymhleth.

4.51 Mae WEFO wedi cymryd camau i sicrhau bod ei harweiniad ar Amcan 1 yn fwy hwylus i ymgeiswyr drwy

- ailysgrifennu Dogfen Ategol y Rhaglen er mwyn ei gwneud yn fyrrach, yn haws ei defnyddio ac yn fwy perthnasol i ymgeiswyr. Rhoddwyd cymeradwyaeth amlinellol i'r fersiwn ddiwygiedig ym mis Mawrth 2002;
- datblygu taflenni gwybodaeth wedi'u hanelu at grwpiau penodol, ac sy'n awgrymu ffynonellau amgen i'r Cronfeydd Strwythurol os ymddengys fod y rhain yn fwy priodol; a
- cyflwyno arweiniad ar gynaliadwyedd amgylcheddol a defnyddio'r wybodaeth a thechnolegau cyfathrebu sy'n benodol ar gyfer pob mesur o'r rhaglen (er bod cryn dipyn o arweiniad cyffredinol o hyd).

### Cronfeydd allweddol a chomisiynu prosiectau

4.52 Dau opsiwn ar gyfer lleihau'r baich ar ymgeiswyr o ran gwybodaeth yw gwneud defnydd helaethach o gronfeydd allweddol a chomisiynu prosiectau (gweler y blwch). Ar gyfer y sawl sy'n manteisio ar y prosiect yn y pen draw megis menter fach neu ganolig ei maint neu fudiad gwirfoddol, mae gwneud cais i'r **cronfeydd allweddol** yn cwtogi ar y broses ymgeisio a'r ffurflen gais, gan nad oes raid wrth broses lawn Amcan 1 o ran asesu prosiect ac ymgynghori arno, a gellir addasu'r manylion y gofynnir amdanynt ar y ffurflen gais i'r gweithgaredd penodol a gwmpesir gan y gronfa allweddol. Yr anfantais sydd gan gronfeydd allweddol yw y bydd cyflwyno canolwr yn peri i'r cyfnod rhwng ymrwymo a gwario arian fynd yn hwy a thrwy hynny gynyddu'r risg y bydd Cymru yn colli arian drwy "ddadymrwymo" (gweler Risg 9).

4.53 Nododd WEFO ei bod yn awyddus i gyflwyno **comisiynu prosiectau**, ond byddai angen gwybodaeth fanwl arno ynglyˆn â'r hyn a gyflawnir gan brosiect, sef ei allbynnau, ynghyd â'u hamseriad a'u lleoliad; ni fydd hyn ar gael hyd nes y bydd y system TG newydd yn gwbl weithredol. Bydd gan y partneriaethau strategaeth rôl bwysig wrth nodi'r cyfleoedd gorau ar gyfer comisiynu prosiectau (er enghraifft sectorau neu leoliadau lle ceir bylchau yn y ddarpariaeth) a gosod meini prawf addas ar gyfer dewis prosiectau.

Gweithredir y **gronfa allweddol** neu'r grant cyffredinol gan ganolwr sy'n meddu ar rywfaint o arbenigedd yn y gweithgaredd penodol a gwmpesir. Bydd y canolwr yn gwneud cais am yr arian o'r Cronfeydd Strwythurol yn y ffordd arferol ac yn addo cyflawni allbynnau a chanlyniadau penodol. Yna darperir yr arian ar gyfer mudiadau llai sy'n gwneud cais i'r canolwr am grant o'r gronfa allweddol. Ymhlith yr enghreifftiau o gronfeydd allweddol mae Cyllid Cymru (ecwiti a benthyciadau, ynghyd â chyngor rheoli, ar gyfer busnesau bach), amryw gynlluniau grant ar gyfer busnesau bach a gynhelir gan awdurdodau lleol, a'r Gronfa Cyfalaf Risg Gymdeithasol (yn datblygu capasiti ar gyfer adfywio cymunedol) a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

O dan **gomisiynu prosiectau**, mae'r bartneriaeth neu'r Awdurdod Rheoli yn nodi angen penodol a'r ffordd orau o'i ddiwallu, ac yn gwahodd ceisiadau gan brosiectau sy'n bodloni'r meini prawf penodol hyn. Golyga hyn fod gan noddwr y prosiect syniad clir iawn o'r hyn sydd ei angen ac nad oes rhaid iddo ymchwilio i gysylltiadau â strategaethau eraill neu roi tystiolaeth bod angen y prosiect. Mae Uned y Sector Preifat yn bwriadu enwi rhannau'r rhaglenni a fyddai'n buddio yn enwedig o gysylltiad mwy gan y sector preifat, a gellid eu defnyddio i wahodd cynigion o dan arweiniad y sector preifat.

## Y casgliad ynglŷn â'r risg hon

4.54 Bydd rhywfaint o densiwn bob amser rhwng proses gwneud cais sy'n hwylus i ymgeiswyr a'r angen i WEFO arfarnu prosiectau'n drylwyr yn erbyn y meini prawf dewis a nodir gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni, yn unol â rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd a'r safonau a ddisgwylir gan gorff cyhoeddus. Dylai WEFO ystyried y posibilrwydd o fyrhau'r ffurflen gais a chyflwyno cynllun busnes sy'n rhoi mwy o ddisgresiwn i ymgeiswyr dros y ffordd y mae'n cyflwyno gwybodaeth, ac yn lleihau unrhyw ddyblygu ar gyfer prosiectau mawr. Gall cronfeydd allweddol a chomisiynu prosiectau fod yn fodd i leihau'r baich o ran gwybodaeth ar y rhai sy'n manteisio ar y Cronfeydd, ond mae'r cronfeydd allweddol yn cynyddu'r risg o ddadymrwymo. Cefnogwn fwriad WEFO i ddatblygu comisiynu prosiectau.

# Risg 6: A yw'r arian cyfatebol ar gael yn hawdd?

## Cefndir

4.55 Mae'n hanfodol bod digon o arian cyfatebol ar gael er mwyn i brosiectau cadarn fynd yn eu blaen, ac er mwyn sicrhau na chaiff darpar ymgeiswyr eu troi oddi wrth eu bwriad am ei bod yn anodd cael y cyllid angenrheidiol. Gall ymgeiswyr gael arian cyfatebol oddi wrth ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys eu harian eu hunain, ffynonellau cyllid allanol; a chyfraniadau mewn da, yn bennaf ar ffurf amser gwirfoddolwyr a chyfleusterau a ddarperir yn rhad ac yn ddim (mae rheolau ynglŷn â rhoi gwerth ariannol ar y cyfraniadau hyn). Mae pob ymgeisydd prosiect yn gyfrifol am sicrhau ei arian cyfatebol ei hun, ac mae WEFO yn cadarnhau ei fod ar gael cyn cymeradwyo grant prosiect. Nid yw WEFO ei hun yn gyfrifol am ddarparu arian cyfatebol (ond o dan amgylchiadau eithriadol mae'n rheoli'r system o ddyraniadau dynodol ar gyfer arian cyfatebol Adfywio Lleol a sefydlwyd gan awdurdodau lleol).

4.56 Ystyriwyd dwy elfen o'r risg hon gennym: p'un a oedd ymgeiswyr wedi cael digon o gymorth i nodi cyfleoedd ar gyfer arian cyfatebol, a ph'un a oes lle i wella'r cyflenwad o arian cyfatebol i ymgeiswyr.

### Cymorth wrth nodi arian cyfatebol

4.57 Dengys canlyniadau arolwg Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o'r ymgeiswyr (Atodiad 4) fod cryn le i wella'r arweiniad i ymgeiswyr ynghylch lle y gellir cael arian cyfatebol. Yn gyffredinol cadarnhawyd y farn hon gan y partneriaethau (yn enwedig y partneriaethau lleol), sef y man cyntaf ar gyfer helpu ymgeiswyr i ddatblygu eu prosiectau, yn ein trafodaethau â hwy. Roedd rhai partneriaethau yn datblygu eu rhestr eu hunain o ffynonellau yn annibynnol; mae lle i gydlynu'r ymdrechion hyn, a thrwy hynny wella effeithlonrwydd a lledaenu arfer gorau.

4.58 Mae'r Adran Masnach a Diwydiant wedi cyhoeddi arweiniad ar ffynonellau posibl o arian cyfatebol ar gyfer ymgeiswyr, ond mae llawer o'r wybodaeth ond yn berthnasol i ymgeiswyr yn Lloegr. Mae WEFO wedi dechrau datblygu ei gwefan fel ffynhonnell o wybodaeth am arian cyfatebol ar gyfer partneriaethau ac ymgeiswyr. Er nad yw WEFO yn gyfrifol yn uniongyrchol dros roi arweiniad o'r fath, mae lle iddi weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i ymestyn hyn. ***Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu arweiniad ar ffynonellau o arian cyfatebol, mewn cydweithrediad â'r partneriaethau er mwyn sicrhau y caiff anghenion ymgeiswyr eu diwallu ac y caiff yr adnoddau presennol eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl.***

### Mynediad i arian cyfatebol

4.59 Mae nodi ffynonellau posibl o arian cyfatebol yn dasg syml ar gyfer y rhan fwyaf o ymgeiswyr; y peth sy'n fwy anodd yw cael gafael ar yr arian mewn gwirionedd. Y sector gwirfoddol sy'n debygol o gael yr anhawster mwyaf i sicrhau arian cyfatebol a chydlynu dwy neu fwy o drefnau arian cyfatebol;

mae'r Bartneriaeth Strategaeth Asedau Cymunedol yn ystyried effaith y ffactorau hyn ar y nifer siomedig o geisiadau prosiectau a ddaeth i law ar gyfer Blaenoriaeth 3 Amcan 1 (adfywio cymunedol). Fodd bynnag, gall cyrff y sector cyhoeddus wynebu anawsterau wrth godi arian i gyd-ariannu prosiectau mawr. Felly mae Llywodraeth y Cynulliad wedi creu cronfeydd arbennig neu"gronfeydd arian cyfatebol" yn y gyllideb ar gyfer datblygu economaidd er mwyn darparu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau na allant ei gael o ffynonellau amgen. Bydd y cronfeydd hyn yn darparu hyd at £207 miliwn rhwng 2001 a 2004, sy'n cyfateb i 29 y cant o gyfanswm arian cyfatebol y sector cyhoeddus a gynlluniwyd ar gyfer tair blynedd gyntaf Amcanion 1, 2 a 3 **(Ffigur 14)**. Caiff ceisiadau i Ffordd i Ffyniant a'r Gronfa Adfywio Leol eu trafod ochr yn ochr â'r cais cysylltiedig i'r Gronfa Strwythurol, a dylai hyn fyrhau'r cyfnod paratoawl cyn cymeradwyo cais a lleihau'r baich gweinyddol ar ymgeiswyr prosiectau.

4.60 Mae WEFO yn casglu gwybodaeth benodol am nifer a ffynonellau'r arian cyfatebol ar gyfer mathau gwahanol o brosiectau fel rhan o'r broses arfarnu ond nid yw'n cael ei choladu na'i monitro ar hyn o bryd. Pan fydd y wybodaeth hon ar gael i'r partneriaethau strategaeth fel rhan o'r broses o ddatblygu system TG newydd, bydd yn golygu y gellir seilio polisïau ynglŷn â systemau cyflwyno ar wybodaeth gyflawn ac amserol. Cefnogwn benderfyniad WEFO i ddatblygu ei system wybodaeth i ddarparu data i'r partneriaethau strategaeth am yr arian cyfatebol y mae ymgeiswyr wedi llwyddo i gael gafael arno.

4.61 Dywedodd y rhan fwyaf o'r partneriaethau lleol yr ymwelodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru â hwy eu bod yn cefnogi'r defnydd o gronfeydd allweddol (gweler paragraff 4.52) er mwyn i brosiectau bach gael arian o'r Cronfeydd Strwythurol yn anuniongyrchol heb orfod dod o hyd i arian cyfatebol eu hunain. Fel enghraifft o'r ffordd y gallai hyn weithio yn ymarferol, mae Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 eisoes wedi mabwysiadu polisi o ddyrannu hyd at 80 y cant o'r cronfeydd sydd ar gael ar gyfer cyfnod o dair blynedd ar gyfer mesurau penodol o dan Flaenoriaeth 5 (datblygu gwledig) i gynlluniau mawr a weithredir gan Awdurdod Datblygu Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda'r nod o sicrhau bod cymorth i ffermwyr yn gyson â menter Cyswllt Ffermio Llywodraeth y Cynulliad. Un fantais bosibl a ddaw yn sgîl hyn yw na fyddai'n rhaid i ffermwyr a busnesau gwledig bach a gaiff arian nodi'r cyfleoedd arian cyfatebol eu hunain neu fynd drwy broses hir o wneud cais am Amcan 1. Y canlyniad amlwg yw bod mwy o risg o ddadymrwymo o bosibl, gan fod canran uchel o adnoddau un mesur yn dibynnu ar lwyddiant un prosiect. Mae Cyswllt Ffermio a'r cynlluniau bwyd-amaeth wedi methu â chyrraedd eu gwariant disgwyliedig o bell ffordd.

**Ffigur 14**

**Arian cyfatebol a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru**

| Arian-cyfatebol | Swm sydd ar gael 2001-04 (£000) | Ymgeiswyr a dargedir |
|---|---|---|
| Ffyrdd i Ffyniant | 60,000 | Sector preifat, WDA, Bwrdd Croeso Cymru, Cyswllt Busnes, Asiantaethau Menter, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Cyllid Cymru | 17,396 | Cyllid Cymru |
| Hwylusyddion Ewro | 1,500 | Sefydliadau y sector preifat a'r sector gwirfoddol |
| Cronfa Adfywio Leol (awdurdodau lleol) | 90,901 | Awdurdodau lleol ar gyfer adfywio cymunedol - dyraniad ariannol ar gyfer pob Awdurdod Lleol |
| Cronfa Adfywio Leol (sector gwirfoddol) | 13,605 | Cyrff gwirfoddol ar gyfer adfywio cymunedol |
| Prosesu bwyd a marchnata | 10,574 | WDA |
| Addasu ffermydd | 10,195 | WDA |
| LEADER+ | 3,000 | Prosiectau LEADER |
| **Cyfanswm** | **207,171** | |

## Y casgliad ynglŷn â'r risg hon

4.62 Mae mynediad hawdd i arian cyfatebol yn allweddol i lwyddiant y rhaglenni oherwydd dylai gyfrif am dros hanner cyfanswm gwariant rhaglenni - dros£1.5 biliwn. Nid yw WEFO yn gyfrifol yn uniongyrchol am cyfeirio ymgeiswyr at ffynonellau o arian cyfatebol, ond mae bellach yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y rhoddir gwell arweiniad i ymgeiswyr. Dylid datblygu systemau gwybodaeth fel y bo modd rhoi rhybudd am unrhyw broblemau sydd gan ymgeiswyr o ran cael arian cyfatebol mor fuan â phosibl.

## Risg 7: A gaiff prosiectau eu rheoli'n briodol o safbwynt ariannol?

### Cefndir

4.63 Mae WEFO yn gyfrifol, fel yr Awdurdod Talu, am sicrhau y caiff grantiau prosiectau eu talu'n gywir ac am sicrhau bod pob prosiect yn bodloni amodau ei grant ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. Dangosir y prif amodau, fel y'u nodir yn llythyr WEFO ar gyfer cymeradwyo prosiect, yn Atodiad 7, ynghyd â'r rheolaethau penodol a weithredir gan WEFO er mwyn sicrhau y cânt eu bodloni.

### Camau a gymerwyd gan WEFO

4.64 Mae gan WEFO dair prif system ar gyfer sicrhau bod prosiectau yn bodloni eu hamodau:

- gwiriadau ar bob ffurflen gais am arian (a gyflwynir bob chwarter fel arfer) gan y tîm taliadau perthnasol;
- archwiliad blynyddol allanol annibynnol o bob prosiect (ac eithrio prosiectau o dan ESF sydd wedi cael grant sy'n llai na £20,000); ac
- arolygiadau manwl o sampl o brosiectau gan y Tîm Rheoli Ariannol yn WEFO. O dan reoliadau Ewrop mae'n rhaid i'r Awdurdod Talu arolygu prosiectau sy'n cyfrif am bump y cant o gyfanswm y gwariant cymwys a gefnogir gan bob rhaglen. Mae'r rhain yn fwy eang eu cwmpas na'r archwiliadau blynyddol gan eu bod yn cwmpasu allbynnau a chydymffurfiad â'r rheoliadau sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd a chaffael.

4.65 O ran **gwirio a thalu ceisiadau am arian**, canfuwyd gennym bod gan WEFO weithdrefnau cadarn ar waith er mwyn sicrhau y daw ceisiadau am arian i law yn brydlon ac y cânt eu talu'n weddol gyflym. Ymdrinnir â cheisiadau o dan ESF o fewn pum diwrnod ac un diwrnod ychwanegol i'r arian gael ei ryddhau i'r system fancio. Mae ceisiadau o dan ERDF yn cymryd mwy o amser oherwydd maent yn tueddu i fod yn gymhleth ac maent yn cael eu talu drwy system gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru nad yw wedi'i hintegreiddio â system WEFO ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae WEFO yn cymryd 14 diwrnod ar gyfartaledd i ymdrin â chais am arian ac mae'r system gyllid yn cymryd tua'r un amser. Bydd y gwelliannau arfaethedig i'r systemau TG yn ei gwneud yn haws i dalu ceisiadau am arian yn gyflymach, yn haws i'r staff taliadau eu gwirio, ac yn haws i ddarparu data sefydlog ar geisiadau am arian pan gânt eu hanfon at ymgeiswyr.

4.66 O ran yr **archwiliad blynyddol annibynnol o geisiadau am arian**, canfuwyd gennym, er bod yr archwiliadau yn cwmpasu'r prif faterion, bod anghysondeb ynglŷn â chwmpas y gwaith y gofynnwyd i archwilwyr ei wneud. Rhoddwyd arweiniad i'r archwilwyr gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth gynt (ar gyfer pob prosiect o dan ESF), y Comisiwn Archwilio (ar gyfer prosiectau awdurdodau lleol o dan Gronfeydd eraill) a chan WEFO (ar gyfer prosiectau eraill). Mae'r arweiniad hwn yn amrywio'n sylweddol o ran faint o wybodaeth a ddarperir a chwmpas y gwaith y gofynnir i'r archwilwyr ei wneud. Er enghraifft, dim ond archwilwyr ESF y gofynnir iddynt gadarnhau refeniw prosiectau, dim ond archwilwyr y Comisiwn Archwilio y gofynnir iddynt gadarnhau caffael cystadleuol, a dim ond cyfarwyddiadau WEFO sy'n gofyn i archwilwyr adolygu rheolaethau ariannol cyffredinol a chadarnhau bod y gwariant gweinyddol wedi'i gyfyngu i 10 y cant o gostau'r prosiect. ***Argymhellwn y dylai WEFO adolygu'r holl gyfarwyddiadau i archwilwyr er mwyn sicrhau y caiff digon o wybodaeth gefndirol ei darparu, y caiff sylw archwilwyr ei dynnu at risgiau cyffredin a bod y rhaglenni profi yn gyson ac yn gynhwysfawr.***

4.67 Nododd yr Adroddiad Cyffredinol ar waith archwilio ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2000-01 fod "canlyniadau'r archwiliadau a gynhaliwyd hyd yn hyn [ar y rhaglenni newydd] yn nodi sawl problem sy'n deillio'n bennaf o fethiant y rhai sy'n cael grant i ddogfennu gwariant y prosiect mewn modd digonol. Mae hyn yn amlwg iawn mewn prosiectau a ariennir o dan ESF, sydd yn aml yn cael eu cyflwyno gan drydydd parti sy'n gweithredu ar hyd braich o noddwyr prosiectau." Ym mis Mawrth 2002, penderfynodd WEFO, ochr yn ochr â'r rhanbarthau yn Lloegr, ohirio archwiliadau blynyddol o geisiadau am arian o dan ESF tra bod cwmpas archwiliadau o'r fath yn cael eu hadolygu ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r cyrff cyfrifo perthnasol. Disgwylir i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2002.

4.68 O ran **arolygiadau manwl y Tîm Rheoli Ariannol** canfuwyd gennym nad oedd y gwaith wedi datblygu i'r graddau a fwriadwyd yn wreiddiol, yn bennaf oherwydd problemau o ran ceisiadau am arian o raglenni blaenorol. Cyhoeddwyd y rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Talu gynnal gwiriadau monitro ar ddiwedd 1997 ac roedd hefyd yn berthnasol i'r cylch rhaglennu blaenorol (1994-1999) a olygodd fod gan dîm rheoli ariannol WEFO dipyn o waith i'w wneud o ganlyniad. Ym mis Mawrth 2002, nid oedd WEFO yn disgwyl

cwblhau'r gwaith nas gwnaed ar y Rhaglenni blaenorol tan hydref 2002. Bydd gwaith ar y rhaglenni newydd yn cychwyn ar ddechrau 2003.

4.69 O ganlyniad i'r gwaith a wnaeth ar y rhaglenni blaenorol, mae'r Tîm Rheoli Ariannol wedi nodi nifer o faterion a'i harweiniodd at wrthod gwariant prosiect a archwiliwyd yn ystod ymweliadau arolygu a gynhaliwyd yn 2001 mewn rhai achosion. Ymhlith y problemau a welwyd roedd rheolaeth wael dros wariant prosiectau; ceisiadau am arian heb eu hategu gan ddogfennaeth wreiddiol; anawsterau wrth gadarnhau arian cyfatebol mewn da; anawsterau wrth brofi bod prosiectau o dan ESF yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth gyfredol; gwariant anghymwys, a gwariant nas cymeradwywyd gan Welsh European Programme Executive; a gorbenion nas dosrannwyd yn gywir i'r prosiect.

4.70 Er bod yr ymweliadau hyn yn ymwneud â'r hen raglenni, mae'r gofynion ar gyfer gwneud cais am arian o dan y rhaglenni newydd yn dra thebyg, ac mae'n bosibl y bydd y problemau hyn yn sail i ganfyddiadau archwilwyr prosiectau o dan ESF ar y rhaglenni newydd, y cyfeirir atynt uchod (paragraff 4.67). O ran arolygiadau o'r rhaglenni newydd, cefnogwn felly fwriad WEFO i ddewis prosiectau i'w hadolygu ar sail asesiadau o risg. Byddai'n dda hefyd pe cynhelid ymweliadau â phrosiectau ar gam gynnar ar y broses gyflwyno er mwyn sicrhau bod systemau digonol ar waith cyn i broblemau gael eu canfod gan archwiliadau a gynhelir yn llawer ddiweddarach yn ystod oes y prosiect. ***Argymhellwn y dylai WEFO adolygu cwmpas ei gwaith ym maes rheolaeth ariannol i ganolbwyntio ar gael cadarnhad cynnar bod systemau digonol ar waith, a dilysu manylion nas cwmpaswyd gan yr archwilwyr allanol.***

## Y casgliad ynglŷn â'r risg hon

4.71 Mae WEFO wedi sefydlu gweithdrefnau er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau am arian yn effeithiol, bod ceisiadau am arian yn cael eu datgan yn gywir a bod y Swyddfa yn bodloni'r gofynion Ewropeaidd sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol. Wrth i WEFO gwblhau'r gwaith o'r rhaglenni blaenorol, bydd mewn sefyllfa dda i sicrhau bod ei gweithgareddau ym maes rheolaeth ariannol yn canolbwyntio o'r newydd ar feysydd allweddol o risg. Yn hyn o beth, mae angen iddi sicrhau y rhoddir gwybodaeth ddigonol a chyson i archwilwyr ceisiadau am arian, ac y gwneir y defnydd gorau o'u gwasanaethau.

# Risg 8: A yw'r broses o fonitro prosiectau a'r rhaglen gyfan yn ddigonol?

## Cefndir

4.72 Mae WEFO yn gyfrifol am sicrhau bod y rhaglenni Ewropeaidd yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u bod yn cyflawni'r targedau a nodir yn y strategaeth (y Dogfennau Rhaglennu Sengl). Mae hyn yn golygu monitro ar lefel prosiectau, er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cyflawni'r hyn a ddisgwylir, ac ar lefel rhaglenni er mwyn sicrhau bod y rhaglenni yn cyflawni'r gweithgareddau, y canlyniadau a'r effeithiau yn ddigon cyflym i gyrraedd y targedau y cytunwyd arnynt â'r Comisiwn Ewropeaidd.

### Monitro prosiectau

4.73 Heblaw am rai prosiectau mawr, nid yw WEFO yn ymweld â noddwyr prosiectau fel mater o drefn i drafod y cynnydd cyffredinol a wneir yn hytrach na materion sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol. Bydd llwyddiant y rhaglenni yn dibynnu yn y pen draw ar ansawdd, nifer ac amseroldeb y gwasanaethau a ddarperir gan brosiectau unigol. Byddai cyfarfodydd â noddwyr prosiectau unigol - er mwyn ystyried materion megis recriwtio staff, y rhai sy'n cael grantiau a gosod contractau - yn rhoi cipolwg ar y cynnydd cyffredinol a wneir gan brosiectau nad yw ar gael drwy'r ffurflenni cais am arian.

4.74 Mae'r swyddfeydd sy'n cyfateb i WEFO yng Nghernyw a Glannau Merswy yn ymweld â phob prosiect a noddir ganddynt o dan ERDF. Oherwydd maint y rhaglenni yng Nghymru mae'n anodd iawn i WEFO, ar sail eu hadnoddau presennol, ymweld â phob prosiect o dan ERDF. Fodd bynnag, mae wedi datblygu rhai strategaethau yn ddiweddar a fydd yn ei galluogi i fonitro prosiectau'n well:

- o fis Ebrill 2002, rhoddwyd data wedi'i addasu'n benodol i'r partneriaethau a fydd yn eu galluogi i asesu cynnydd prosiectau yn lleol ac yn rhanbarthol. Er mwyn cynorthwyo yn y broses o ddatblygu'r rôl hon, bwriedir trefnu dau ddiwrnod hyfforddiant ym mis Gorffennaf 2002 ar osod targedau, monitro a gwerthuso;
- datblygwyd cyfarwyddiadau desg i staff WEFO er mwyn iddynt nodi anawsterau ar gychwyn prosiect a thangyflawni. O dan y gweithdrefnau hyn bydd gofyn i'r staff taliadau asesu risg ar bob prosiect a thynnu sylw timau rheoli at y rhai y mae angen craffu arnynt yn fanylach a rhoi mwy o gefnogaeth iddynt; a

- datblygu arweiniad ar gyfer prosiectau a phartneriaethau ar fonitro a gwerthuso. Mae wedi'i gynnwys yn Nogfen Ategol y Rhaglen ac mae'r Swyddfa wrthi'n ei ddatblygu ymhellach mewn arweiniad penodol.

***Argymhellwn y dylai WEFO barhau i ddatblygu ei strategaeth i fonitro prosiectau mawr neu gymhleth, wedi'i seilio ar yr adnoddau sydd ar gael ac wedi'i chyd-drefnu â gwaith y tîm rheoli ariannol.***

**Monitro rhaglenni**

4.75 Mae gan WEFO wybodaeth ddibynadwy ar werth ymrwymiadau (prosiectau a gymeradwywyd) a gwariant (ceisiadau am arian sydd wedi dod i law ac wedi'u talu). Mae'n cyflwyno adroddiad ar y wybodaeth hon i Bwyllgorau Monitro'r Rhaglenni, yn cynnwys asesiadau o'r cynnydd a wneir ar gyflawni'r proffil bob blwyddyn a ph'un a gaiff unrhyw arian ei ddadymrwymo o bosibl oherwydd diffyg gwariant. Mae hefyd yn paratoi Cynlluniau Busnes Monitro Blynyddol, sy'n dangos yr ymrwymiadau a'r gwariant gwirioneddol a'r ymrwymiadau a'r gwariant a ragwelwyd ar gyfer pob mesur yn erbyn y gyllideb, Adroddiad Gweithredu Blynyddol am bob rhaglen, sy'n egluro'n fanylach sut mae'r rhaglen wedi perfformio a sut y cafodd ei rheoli yn ystod y flwyddyn flaenorol, a beth sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Cyflwynir yr olaf i'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin bob blwyddyn ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni.

4.76 Y bwlch allweddol yw diffyg gwybodaeth dda ar allbynnau ar hyn o bryd. Mae system wybodaeth newydd WEFO ar fin cael ei chwblhau a dylai hon ei galluogi i fonitro allbynnau arfaethedig o fis Mehefin 2002. Bydd gwybodaeth am allbynnau gwirioneddol - wedi'u casglu o geisiadau prosiectau am arian - ar gael o fis Medi 2002. Mae WEFO wedi cymryd camau i wella ansawdd y wybodaeth am allbynnau, drwy:

- newid targedau yn Nogfen Ategol Rhaglen Amcan 1 er mwyn sicrhau eu bod yn eglur ac yn fesuradwy, a bod y niferoedd ar y cyfan yn gyson â'r Ddogfen Raglennu Sengl. Paratowyd Dogfen Ategol y Rhaglen ar fyrder yn haf 2000 ac arweiniodd hyn at ddiffyg eglurdeb o ran diffinio targedau ac anghysonderau â'r Ddogfen Raglennu Sengl;
- diffinio dangosyddion allweddol megis swyddi, cymorth, cyngor a busnesau newydd, yn fwy manwl gywir. Dylai hyn ddilyn at ddata berfformiad mwy cyson a mwy cadarn, er mai anochel yw angen doethineb o hyd er mwyn amcangyfrif effaith prosiectau unigol ar niferoedd swyddi a chynnydd mewn trosiant; ac
- ei gwneud yn ofynnol yn y dyfodol i bob noddwr prosiect ddadansoddi allbynnau yn ôl lleoliad (awdurdodau lleol) ac yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabledd lle bo hynny'n briodol.

### Y casgliad ynglŷn â'r risg hon

4.77 Mae cynlluniau WEFO i wella'r ffordd y caiff prosiectau unigol a'r rhaglenni cyfan eu monitro yn ddatblygiad i'w groesawu. Bydd y newidiadau hyn, os cânt eu gweithredu'n llawn, yn sicrhau bod gan WEFO wybodaeth gadarn am allbynnau i fonitro'r ffordd y caiff y rhaglenni ei chyflwyno, ac y gall y partneriaethau fonitro gwariant a'r broses gyflwyno ar gyfer eu priod ardaloedd neu themâu. Byddant hefyd yn gwella'r ffordd y caiff cyfle cyfartal ei fonitro drwy roi gwybodaeth sy'n haws ei mesur.

## Risg 9: A gaiff arian ei wario'n ddigon cyflym er mwyn osgoi "dadymrwymo"?

### Cefndir

4.78 Dadymrwymo yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o dynnu'r cronfeydd strwythurol yn ôl. Ar gyfer y cylchoedd cyfredol, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyflwyno rheoliadau sydd â'r nod o osgoi'r tanwariant mawr sydd wedi nodweddu ei raglenni yn y gorffennol. Mae hyn yn golygu y collir arian nad yw wedi'i wario yn unol â'r proffiliau y cytunwyd arnynt. Dengys **Ffigur 15** y targedau ar gyfer tynnu arian o'r cronfeydd - yr isafswm y mae'n rhaid ei hawlio er mwyn osgoi dadymrwymo - a'r gweddill y mae angen ei wario erbyn diwedd 2002 (bydd targedau hefyd yn berthnasol ar ddiwedd pob blwyddyn ganlynol o'r rhaglenni).

4.79 Er mai 31 Rhagfyr 2002 yw'r dyddiad terfynol cyntaf ar gyfer tynnu arian o'r Cronfeydd, oherwydd y cyfnod rhwng noddwyr prosiectau yn hysbysu WEFO o'u gwariant a'r Swyddfa yn gwneud cais i'r Comisiwn Ewropeaidd am yr arian, mae angen gwario ymhell cyn hyn er mwyn i'r gwariant gael ei gynnwys yn y cais i dynnu arian o'r cronfeydd. Mae llawer o brosiectau o dan ESF yn dibynnu ar isgontractwyr, a bydd angen i'r rhain wario a chael

eu talu cyn y gall noddwyr y prosiect wneud cais am arian i WEFO, gan ychwanegu eto at yr amser sydd ei angen i wariant prosiectau gael ei gynnwys yn y cais i Ewrop.

4.80 Mae'n rhaid bod rhagamcanion cywir o geisiadau am arian yn y dyfodol yn sail i'r ffordd y mae WEFO yn monitro'r risg o ddadymrwymo. Mae angen i'r rhain fod yn seiliedig ar y proffiliau ariannol a gyflwynwyd gan ymgeiswyr, gan ganiatáu am lithriant mewn gwariant, ceisiadau hwyr am arian a phrosiectau newydd yn seiliedig ar asesu risg a phrofiad. Mae'n anodd i WEFO lunio rhagamcanion ar hyn o bryd gan nad yw ei systemau gwybodaeth yn ei galluogi i nodi'r rhesymau hyn dros lithriant yn gywir. Dylai oresgyn yr anawsterau hyn ar ôl i'r system TG newydd gael ei chyflwyno. Yn bwysicach fyth, bu'n anodd i WEFO ddarbwyllo noddwyr i lunio rhagamcanion realistig. Fodd bynnag, wrth i WEFO gasglu gwybodaeth hanesyddol am geisiadau am arian, bydd mewn gwell sefyllfa i ystyried pa mor ddilys yw'r rhagamcanion.

4.81 Mae dadymrwymo yn risg anodd i'w rheoli gan ei bod yn adlewyrchu effeithlonrwydd pawb sy'n rhan o'r broses - y partneriaethau (wrth ddatblygu ac asesu prosiectau), WEFO (wrth arfarnu a chymeradwyo prosiectau, ymdrin â cheisiadau a rheoli arian yn dddoeth) a noddwyr prosiectau (wrth reoli eu prosiectau'n dda, eu datblygu'n gyflym a rhoi gwybodaeth gywir). Cyfyd rhai materion anodd hefyd sy'n gofyn am gydbwysedd gan reolwyr i ymdrin â'r canlynol:

- p'un a ddylid gwario'n gyflym neu wario'n strategol: mae WEFO a'r partneriaethau perthnasol wedi dewis treulio amser yn ddatblygu strategaeth ar gyfer seilwaith er mwyn sicrhau bod y prosiectau a ddewisir yn cael y budd mwyaf posibl, er y byddai wedi bod yn hawdd gwario'r arian yn gyflym;
- p'un a ddylid ymrwymo arian mor gyflym â phosibl neu sicrhau bod prosiectau'n cael eu cymeradwyo drwy gydol y rhaglen. Bu rhai mesurau'n boblogaidd iawn ac mae WEFO wedi eu cau dro dros er mwyn sicrhau bod arian ar gael yn nes ymlaen. Bydd hyn yn ei galluogi i werthuso canlyniadau prosiectau cyfredol a'u cynnwys yng nghynllun prosiectau newydd; a
- p'un a ddylid gorymrwymo er mwyn darparu ar gyfer unrhyw leihad ym maint prosiectau. Dengys profiad fod hyn yn risg arbennig o dan ESF ac mae'n bolisi gan WEFO i gymeradwyo

## Ffigur 15

**Gwariant sydd ei angen ar 31 Rhagfyr 2002 i osgoi dadymrwymo**

| Amcan a Chronfa | Targed y swm i'w ddefnyddio £000 | Gwariant ar ddiwedd Mawrth 2002 £000 | Gweddill sydd ei angen £000 | Gweddill sydd ei angen: Canran o'r targed |
|---|---|---|---|---|
| Amcan 1 (ERDF) | 57,489 | 42,627 | 14,862 | 25.9 |
| Amcan 1 (ESF) | 30,414 | 23,215 | 7,199 | 23.7 |
| Amcan 1 (EAGGF) | 6,717 | 671 | 6,046 | 90.0 |
| Amcan 1 (FIFG) | 782 | 6 | 776 | 99.2 |
| **Cyfanswm Amcan 1** | **95,402** | **66,519** | **28,883** | **30.3** |
| Amcan 3 (ESF) | 7,717 | 6,026 | 1,691 | 21.9 |
| **Cyfanswm** | **103,119** | **72,545** | **30,574** | **29.6** |

**NODER**

Mae'r rheol sy'n ymwneud â dadymrwymo yn berthnasol i bob Cronfa o fewn pob rhaglen. Ar gyfer Amcan 2, cytunodd y Comisiwn Ewropeaidd ar ddyddiad terfynol o 31 Rhagfyr 2003 i WEFO fodloni'r targed ar gyfer y swm i'w ddefnyddio am fod y Ddogfen Raglennu Sengl wedi'i chymeradwyo'n hwyr.

*Ffynhonnell: WEFO*

prosiectau hyd at 10 y cant yn uwch na'r dyraniadau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, er mwyn sicrhau y caiff y cronfeydd eu gwario'n llawn ond ar yr amod bod yn rhaid cwtogi ymrwymiadau yn y dyfodol os bydd prosiectau'n gwario eu grant yn llawn.

4.82 Mae sawl ffactor yn effeithio ar lefel y risg o ddadymrwymo:

a) **faint o ddiddordeb sydd yn y rhaglenni**: yn gyffredinol bu cryn ddiddordeb mewn defnyddio'r Cronfeydd, a chyflwynwyd llawer o gynigion ar gyfer prosiectau. Caewyd nifer fawr o'r mesurau sy'n ymwneud â seilwaith. Cymaint yw'r diddordeb y mae'r partneriaethau wrthi'n datblygu strategaeth ar gyfer blaenoriaethu cynigion. Bydd hyn yn arwain at oedi cyn ymrwymo ond dylai arwain at brosiectau gwell nag y byddai wedi bod pe bai prosiectau wedi'u cymeradwyo'n gynnar. Ar y llaw arall, nid oes fawr o brosiectau yn cael eu cyflwyno ar gyfer Blaenoriaeth 3 (datblygu cymunedol) a Blaenoriaeth 5 (datblygu gwledig) a fydd yn golygu cyfnod paratoawl hir ar gyfer troi syniadau am brosiectau yn geisiadau ynghyd â'r gwariant dilynol. Mae WEFO yn parhau i godi'r pwynt hwn gyda'r partneriaethau lleol sydd â rôl o hyrwyddo'r rhaglen a helpu i annog ceisiadau lleol.

b) **pa mor gyflym y caiff prosiect ei gymeradwyo**: cymerodd amser hir i gymeradwyo llawer o brosiectau a gyflwynwyd yng nghylch Medi 2000 ar gyfer Amcan 1 (yn aml oherwydd ansawdd y ceisiadau) ac mewn rhai achosion bu oedi cyn dechrau prosiect sydd yn ei dro wedi gohirio gwariant. Mae'r broses o asesu ac arfarnu prosiect o'r dechrau i'r diwedd yn cymryd sawl mis ac mae goblygiadau i hyn o ran amseriad ceisiadau;

c) **llithriant**: mae llawer o brosiectau yn gohirio gwariant ar ôl iddynt ddechrau, am amryw resymau. Yn y rhan fwyaf o achosion mae WEFO yn cytuno i ailbroffilio'r grant, ond bydd taliadau'n arafach o ganlyniad: a

d) **ceisiadau hwyr am arian**: mae sawl sefydliad, yn aml rhai sy'n arwain prosiectau mawr, wedi methu â hawlio arian yn brydlon. Er enghraifft, allan o gant pumdegchwech o geisiadau a dalwyd ym mis Mawrth 2002, dim ond undegnaw oedd wedi'u derbyn mewn pryd a roedd cant, tri deg saith yn hwyr (roedd cant, dau ddegchwech ohonynt yn fwy na fis yn hwyrach). Mae WEFO yn anfon llythyrau atgoffa, yn cysylltu â noddwyr dros y ffôn, yn cyfarfod â'r prif gyfranogwyr ac yn helpu cyrff llai o ran maint i gwblhau eu ffurflen cais am arian. Mae ganddi y pŵer i dynnu grant yn ôl os yw ceisiadau am arian yn hwyr yn rheolaidd - ond dim ond pan fetho popeth arall ac nid yw wedi digwydd hyd yma. Mae'n debygol y bydd y ceisiadau hwyr am arian yn parhau i fod yn broblem, yn enwedig gan y bydd angen cyflwyno llawer mwy o wybodaeth cyn bo hir.

## Y casgliad ynglŷn â'r risg hon

4.83 Mae'r diffyg profiad blaenorol o'r drefn ariannu newydd, ynghyd â'r ffaith nad oes gwybodaeth reoli soffistigedig, yn golygu mai dim ond yn fras y gellir amcangyfrif effaith tanymrwymo. Yn gyffredinol, fodd bynnag, gellir dod i'r casgliadau canlynol ynglŷn â'r dyddiad terfynol cyntaf ar gyfer dadymrwymo sef 31 Rhagfyr 2002:

- O dan ERDF a ESF ar gyfer Amcan 1 ac Amcan 3 - sy'n cyfrif am 93 y cant o werth cyfan y rhaglenni - mae niferoedd da o brosiectau yn cael eu cymeradwyo ac nid oes ond risg isel o ddadymrwymo ar yr amod na fydd llithriant mawr nac oedi wrth ddychwelyd ceisiadau am arian;
- ceir risg llawer uwch o dan EAGGF ac FIFG gan fod gwariant isel ar y Cronfeydd hyn a lefel isel o ymrwymiad o dan FIFG. Mae WEFO yn dibynnu ar nifer gymharol fach o brosiectau yn mynd yn eu blaen yn ôl y bwriad er mwyn osgoi colli grant. Mae hyn yn arbennig o wir o ran FIFG, lle mae'n rhaid i nifer fach iawn o brosiectau ffermio dŵr fynd yn eu blaen yn gyflym er mwyn i grant o £1.4 miliwn beidio â chael ei ddadymrwymo ar 31 Rhagfyr 2002.

4.84 Mae WEFO yn gwbl ymwybodol o'r risg o ddadymrwymo ac mae'n monitro'r sefyllfa ar bob mesur er mwyn lleihau'r risg y bydd yn digwydd. Mae'n wynebu mwy o her fyth wrth osgoi dadymrwymo yn 2003, pan fydd yn rhaid gwario £207 miliwn yn ychwanegol, o'i gymharu â'r £103 miliwn yn 2002. Dylai'r profiad cynyddol wrth i fwy o brosiectau gychwyn ynghyd â systemau gwybodaeth gwell a rhagamcanion mwy realistig gan noddwyr prosiectau helpu WEFO i ragweld gwariant yn fwy cywir yn y dyfodol a thrwy hynny nodi meysydd sy'n achosi problemau penodol. ***Argymhellwn y dylai WEFO barhau â'i hymdrechion presennol i leihau'r risg y caiff arian o EAGGF ac FIFG ei ddadymrwymo.***

## Risg 10: A oes trefniadau gwerthuso effeithiol?

### Cefndir

4.85 Mae gwerthuso yn elfen allweddol o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhaglen gael ei gwerthuso'n annibynnol ar dri cham: cyn i'r rhaglen ddechrau (y cyn-werthusiad gynt i sicrhau bod sail gadarn i'r strategaeth arfaethedig), ar ganol y rhaglen (y gwerthusiad canol tymor, i asesu'r cynnydd a wneir wrth fodloni amcanion strategol) ac ar ddiwedd y rhaglen (yr ôl-werthusiad gynt neu'r gwerthusiad terfynol i asesu'r effaith economaidd gyffredinol). Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn trefnu'r gwerthusiad terfynol; mae'r awdurdodau rheoli yn trefnu'r lleill, ond mae'n rhaid iddynt gael eu cynnal gan gontractwyr annibynnol yn unol â'r meini prawf manwl a nodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Cwrddir â hanner y gost o'r gyllideb cymorth technegol a'r gweddill o gyllideb cefnogaeth rhaglen WEFO.

### Camau a gymerwyd gan WEFO

4.86 Mae ymagwedd WEFO tuag at werthuso wedi'i chwmpasu yn ei strategaeth, sydd bellach ar gam drafft terfynol, ar gyfer ymchwil, monitro a gwerthuso, a ddatblygwyd gan ei thîm amlddisgyblaeth o arbenigwyr. Er mwyn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer gwerthusiadau canol tymor, mae WEFO wedi sefydlu grŵp llywio i bennu'r cylch gorchwyl. Bydd y gwerthusiadau yn gwneud defnydd helaeth o'r data monitro er mwyn dadansoddi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd pob mesur. Fel y trafodwyd ym mharagraff 4.76, mae WEFO wedi ailwampio'r dangosyddion monitro er mwyn sicrhau eu bod yn gydlynus a'u bod wedi'u diffinio'n briodol, a bydd y system wybodaeth newydd yn ei galluogi i ddadansoddi'r dangosyddion yn ôl lleoliad a'r math o sefydliad sy'n cael grant.

4.87 Yn ogystal ag isafswm gofynion y gwerthusiadau canol tymor, mae cryn le i wneud gwerthusiadau ychwanegol ar themâu penodol neu fathau penodol o brosiect. Byddai angen cyd-drefnu gwaith o'r fath â'r gweithgaredd gwerthuso sy'n mynd rhagddo mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau synergedd ac osgoi dyblygu ymdrech. Er enghraifft, mae ELWa yn gwneud ymchwil helaeth ar y rhai sy'n manteisio ar raglenni hyfforddiant, ac mae gan Awdurdod Datblygu Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru unedau gwerthuso sy'n ystyried meysydd sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol â gweithgareddau a ariennir gan y rhaglenni Ewropeaidd. Mae WEFO eisoes yn gweithio gydag awdurdodau rheoli eraill yn genedlaethol i gynnal arolwg mawr o'r rhai sy'n gadael prosiectau a ariennir o dan ESF, fel y bo modd gwerthuso'r canlyniadau. Mae hefyd wedi trefnu seminar yn cynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, y sector gwirfoddol ac is-adrannau perthnasol o'r Cynulliad i ystyried y synergedd rhwng strategaethau a rhannu adnoddau a gwybodaeth. Cefnogwn gynlluniau WEFO i gynnal adolygiad o'r prosiectau gwerthuso a gynhaliwyd mewn mannau eraill yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, ac i ddatblygu'r strategaeth o safbwynt cyd-drefnu.

4.88 Mae WEFO hefyd yn ystyried y posibilrwydd o werthuso ar lefel prosiectau. Gan fod y rhaglen wedi'i chyflwyno drwy brosiectau, gallai gwerthusiadau o brosiectau roi cipolwg ar faterion sy'n ymwneud â rheoli nad yw gael yn hawdd mewn gwerthusiadau lefel uwch. Mae WEFO yn cynnal trafodaethau gyda'r partneriaethau ar ymestyn eu rôl fonitro ac mae wrthi'n datblygu arweiniad i brosiectau wneud hunan-werthusiadau.

### Y casgliad ynglŷn â'r risg hon

Erbyn hyn mae gan WEFO dîm o bobl â sgiliau arbenigol amlddisgyblaeth i ddatblygu strategaeth, a fydd, os caiff ei gweithredu'n llawn, yn darparu gwasanaeth gwerthuso cynhwysfawr o safon uwch o lawer na'r isafswm safonau a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Dylai gwelliannau i systemau gwybodaeth sicrhau bod data monitro o safon dda ar gael y gellir ei ddefnyddio fel sail i'r gwerthusiadau canol tymor arfaethedig. Mae WEFO yn cymryd camau i gynnwys cymaint o'r partïon perthnasol â phosibl: noddwyr prosiectau, staff WEFO, partneriaethau ac asiantaethau cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â gwerthuso. Mae hyn yn bwysig gan fod cysylltiad agos rhwng y rhaglenni Ewropeaidd ac ystod eang o weithgareddau domestig, ac mae'n bwysig sicrhau bod gwersi a ddysgir yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu ac arfarnu prosiectau.

## Risg 11: A fydd Cymru yn gallu manteisio ar y gronfa berfformiad wrth gefn?

4.90 Clustnodir pedwar y cant o werth prif raglenni'r cronfeydd strwythurol (Amcanion 1, 2 a 3) fel cronfa berfformiad wrth gefn. Nis rhyddheir hyd nes y bydd y gwerthusiad canol tymor wedi'i gwblhau, pan gaiff ei ddyrannu i'r blaenoriaethau sy'n cyflawni orau o fewn pob rhaglen (mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cytuno na chaiff y gronfa wrth gefn ei dyrannu y tu allan i Gymru).

4.91 Mae WEFO yn trafod â'r Comisiwn ar hyn o bryd ynghylch pa feini prawf a gaiff eu defnyddio i ddyrannu'r gronfa wrth gefn. Mae'n rhaid i'r dangosyddion monitro a ddefnyddir (megis nifer y cwmnïau sy'n cael cymorth ariannol, nifer y bobl sy'n cwblhau cyrsiau hyfforddiant a chyfanswm y swyddi a grëir) gwmpasu o leiaf 50 y cant o werth pob blaenoriaeth. Nid oes modd asesu cynnydd eto yn erbyn targedau perfformiad, ond mae'r systemau angenrheidiol wrthi'n cael eu datblygu a dylent fod wedi'u cwblhau erbyn Medi 2002 (caiff y targedau ar gyfer Amcan 2 eu haddasu i adlewyrchu'r ffaith bod y rhaglen wedi dechrau'n hwyr).

4.92 Yn ogystal, mae'n rhaid i WEFO fodloni meini prawf ariannol a rheoli penodol er mwyn cael unrhyw arian o'r gronfa wrth gefn. Nid yw'r rhain wedi'u cwblhau'n derfynol eto, ond byddant yn cynnwys y canlynol:

- ansawdd y systemau monitro. Dylai'r system wybodaeth newydd, a'r staff yn y Tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso, sicrhau bod pob gwariant yn cael ei fonitro'n ddigonol;
- bod pob prosiect a ddewisir yn defnyddio meini prawf dewis penodol - mae WEFO yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn;
- bod y gwerthusiad canol tymor yn cael ei gwblhau'n foddhaol. Mae'r sefyllfa o dan reolaeth gan WEFO (paragraff 4.86);
- na chaiff arian ei ddadymrwymo. Mae'r rhan fwyaf o'r arian yn weddol ddiogel ar gyfer 2002, ond mae mwy o risg i gyfran gymharol fach y rhaglenni a delir o dan EAGGF ac FIFG (paragraff 4.83); a
- canran y buddsoddiad arfaethedig gan y sector preifat wedi'i sicrhau o'i gymharu â'r targed arfaethedig, sef mesur o arian cyfatebol o'r sector preifat yn y rhaglen.

4.93 Er nad yw'r meini prawf ar gyfer dyrannu'r gronfa berfformiad wrth gefn wedi'u cwblhau'n derfynol eto, dylai'r gwaith monitro manwl a'r gwaith rheoli da ar draws pob un o weithgareddau WEFO alluogi Cymru i fanteisio i'r eithaf ar y gronfa wrth gefn.

# ATODIAD 1 METHODOLEG A DDEFNYDDIWYD GAN SWYDDFA ARCHWILIO GENEDLAETHOL CYMRU

1 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gennym i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr astudiaeth hon. Gellir rhannu'r rhain yn bum prif faes, a nodir isod.

## Gwaith cefndirol ar strategaethau a gweithdrefnau

2 Adolygwyd gennym ddatblygiad y strategaeth sy'n sail i'r Rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru a'r gweithdrefnau ar gyfer eu rhoi ar waith. Ein prif ffynonellau tystiolaeth oedd:

- y Dogfennau Rhaglennu Sengl a Dogfennau Ategol Rhaglenni ar gyfer Amcan 1 a 2, a'r Cynllun Gweithredol ar gyfer Amcan 3;
- y rheoliadau Ewropeaidd sy'n rheoli'r defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol, a'r rhestrau gwirio a'r arweiniad a ddatblygwyd gan WEFO er mwyn sicrhau cydymffurfiad;
- cofnodion a phapurau Pwyllgorau Monitro'r Rhaglenni, yn enwedig y rhai ar gyfer Amcan 1;
- y fframweithiau strategol a ddatblygwyd gan bartneriaethau strategaeth Amcan 1;
- meini prawf dewis prosiectau, ffurflenni cais am grant ac arweiniad i ymgeiswyr; a
- trafodaethau gyda staff WEFO a'i harchwilwyr mewnol.

## Adolygu prosiectau

3 Adolygwyd gennym sampl o arfarniadau o brosiectau a gynhaliwyd gan WEFO i asesu a oeddent yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau a'r rheoliadau sefydledig, i ba raddau yr oeddent yn gyson â'r meini prawf dewis perthnasol ac i ba raddau yr oeddent wedi dangos gwerth am arian. Roedd y sampl, a oedd yn cwmpasu ystod o weithgareddau a phrosiectau o wahanol faint, yn cynnwys:

- 24 o brosiectau o'r cylch cyntaf o geisiadau yn 2000 a 18 o'r "rhaglen dreigl" a oedd ar waith o 2001 ymlaen;
- 37 o brosiectau o Amcan 1 a phump o Amcan 3; ac
- 20 o brosiectau ERDF, 17 o brosiectau ESF a phum prosiect EAGGF.

## Arolwg o'r ymgeiswyr dros y ffôn

4 Comisiynwyd gennym arolwg o 100 o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus i'r Cronfeydd. Trefnwyd yr arolwg gan Market Research Wales Limited ar ran Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan WEFO ac a ddilyswyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr roi eu barn ar gyhoeddusrwydd a gwybodaeth, y broses arfarnu, arian cyfatebol, a safon gyffredinol y gwasanaeth a ddarperir gan WEFO. Rhoddir rhagor o fanylion yn Atodiad 4.

## Cyfarfodydd ag ysgrifenyddiaethau partneriaethau

5 Cawsom drafodaethau ar sut yr oedd y Cronfeydd Strwythurol yn gweithredu gyda swyddogion o sampl o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ysgrifenyddiaeth i'r partneriaethau lleol a rhanbarthol yng Nghymru. Cyfarfuom â swyddogion o dair partneriaeth ranbarthol a naw partneriaeth leol (gyda chwech o'r olaf yn rhanbarthau Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a thair yn Nwyrain Cymru). Bu'r trafodaethau'n cwmpasu datblygiad y strategaeth, llunio a gweithredu byrddau partneriaethau, gweithdrefnau ar gyfer datblygu ac asesu prosiectau, ac arian cyfatebol.

## Cymhariaeth â Chernyw, Glannau Merswy a Gweriniaeth Iwerddon

6 Cyfarfuom ag amryw swyddogion yn Awdurdodau Rheoli rhaglenni Amcan 1 mewn dau ranbarth o'r Deyrnas Unedig (Cernyw a Glannau Merswy) ac yng Ngweriniaeth Iwerddon i drafod datblygu strategaeth, arfarnu a dewis prosiectau, arian cyfatebol, rheolaeth ariannol, a monitro a gwerthuso. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, cymharwyd meini prawf dewis, arweiniad ar gyfer staff arfarnu, strategaethau monitro a gweithdrefnau eraill lle y bu cymariaethau o'r fath yn berthnasol i Gymru.

## Adolygu rheolaeth ariannol a threfniadau monitro a gwerthuso

7 Seiliwyd y gwaith hwn gennym yn bennaf ar drafodaethau gyda staff WEFO, adolygiad o systemau gwybodaeth, adolygiad o'r canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer Tîm Rheoli Ariannol WEFO ac ar gyfer archwilwyr allanol o geisiadau am grant, ac adolygiad o'r rheoliadau a'r strategaethau sy'n ymwneud â monitro a gwerthuso. Adolygwyd gennym hefyd wybodaeth reoli WEFO am ymrwymiadau (grantiau a gymeradwywyd), taliadau grant, gwariant a ragwelwyd, ceisiadau am arian heb eu talu a nifer y staff.

# ATODIAD 2 CAMAU ALLWEDDOL YN NATBLYGIAD RHAGLENNI EWROPEAIDD 2000-06

| **Cam allweddol** | **Cymru Amcan 1** | **Cymru Amcan 2** | **Cymru Amcan 3** |
|---|---|---|---|
| Mae Cyngor Ewrop yn penderfynu ar y gyllideb ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a'r rheolau sylfaenol sy'n rheoli'r ffordd y cânt eu defnyddio | Cynhadledd Berlin, Mawrth 1999 (ar draws yr UE gyfan) | | |
| Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi canllawiau thematig cyffredin y mae'n rhaid i bob aelod-wladwriaeth eu hadlewyrchu yn eu cynlluniau ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol | 1 Gorffennaf 1999 (ar draws yr UE gyfan) | | |
| Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn penderfynu pa ranbarthau sy'n gymwys i gael cymorth | 1 Gorffennaf 1999 (ar draws yr UE gyfan) | 30 Mawrth 2000 (DU) | 1 Gorffennaf 1999 (ar draws yr UE gyfan) |
| Mae pob rhanbarth neu aelod-wladwriaeth yn llunio cynllun datblygu ar gyfer y rhanbarthau neu'r grwpiau cymdeithasol yr effeithir arnynt, sy'n ystyried canllawiau thematig y GE. Rhaid i'r cynlluniau adolygu'r sefyllfa economaidd a chymdeithasol gyfredol, nodi blaenoriaethau a chynnig rhaglen integredig o weithgareddau ynghyd â chyllidebau a thargedau penodol i fynd i'r afael â gwendidau. Rhaid i'r cynllun hefyd ystyried datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal, a trefniadau cyflawni. Gelwir y Cynllun hwn yn Ddogfen Raglennu Sengl neu'n Gynllun Gweithredol. Ar gyfer ardaloedd mawr, gellir rhannu'r cam hwn yn ddau drwy gyflwyno Fframwaith Cymorth Cymunedol sy'n nodi amcanion bras a rhaglenni gweithredol ac wedyn datblygu rhaglenni gweithredol ar ôl i'r Fframwaith gael ei gymeradwyo.<br><br>Cyflwynir y cynllun i'r Comisiwn Ewropeaidd, cynhelir negodiadau, a chymeradwyir y cynllun yn ffurfiol gan Gyngor Ewrop ar ôl dod i gytundeb. Ni ellir newid y Ddogfen Raglennu Sengl a'r Rhaglen Weithredol heb ganiatâd yr Undeb Ewropeaidd. | Datblygwyd Maw-Tach 1999<br><br>Cyflwynwyd i'r GE - Tach 1999<br><br>Cymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol - Mai 2000<br><br>Cymeradwywyd gan y GE - Gorff 2000 | Datblygwyd Maw-Tach 1999<br><br>Cyflwynwyd i'r GE Mai 2000<br><br>Cymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol - Mai 2000<br><br>Cymeradwywyd gan y GE - Mawrth 2001 | Datblygwyd Maw-Tach 1999<br><br>Cyflwynwyd i'r GE - Rhag 1999<br><br>Cymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol - Mai 2000<br><br>Cymeradwywyd gan y GE Gorff 2000 |
| Sefydlir Pwyllgor Rhaglen Monitro i oruchwylio pob ond yr Awdurdod Rheoli a enwebir gan yr aelod-wladwriaeth sy'n gyfrifol am reoli'r rhaglen o ddydd i ddydd. | Mawrth 2000 (cysgodol)<br><br>Gorff 2000 (llawn) | Mawrth 2001 | Mawrth 2000 (cysgodol)<br><br>Gorff 2000 (llawn) |
| Mae'r rhanbarthau neu'r aelod-wladwriaethau yn paratoi Dogfen Ategol ar gyfer y Rhaglen, sy'n manylu ar natur, cyllideb a thargedau'r mesurau ar gyfer pob blaenoriaeth. Mae gan yr Awdurdod Rheoli y disgresiwn i newid dogfen Ategol y Rhaglen o fewn cyfyngiadau'r Ddogfen Raglennu Sengl neu'r Cynllun Gweithredol. | Hyd 2000 | Mai 2001 | Hyd 2000 |

| Cam allweddol | Cymru Amcan 1 | Cymru Amcan 2 | Cymru Amcan 3 |
|---|---|---|---|
| Rhoddir y rhaglen ar waith o dan reolaeth yr Awdurdod Rheoli a Phwyllgor Monitro'r Rhaglenni. Mae'r rhanbarth neu'r aelod-wladwriaeth yn talu grantiau i brosiectau, ac yn adhawlio'r elfen Ewropeaidd o'r Comisiwn Ewropeaidd. | O Fedi 2000 | O Ebrill 2001 | O Fedi 2000 |
| Mae pob Awdurdod Rheoli yn cyflwyno adroddiad cyflawni i'r Comisiwn bob blwyddyn, gan ddisgrifio'r cynnydd a wneir, unrhyw afreoleidd-dra a ganfuwyd, ac a fu unrhyw newid yn yr amgylchiadau cymdeithasol neu economaidd a all effeithio ar y rhaglen. | Cyflwynwyd yr Adroddiad cyntaf Mehefin 2001<br><br>I'w gyflwyno ym Mehefin bob blwyddyn | Adroddiad cyntaf i'w gyflwyno Mehefin 2002<br><br>I'w gyflwyno ym Mehefin bob blwyddyn | Cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf Mehefin 2001<br><br>I'w gyflwyno ym Mehefin bob blwyddyn |
| Yn ystod pedwaredd blwyddyn y rhaglenni, caiff effeithiolrwydd pob rhaglen ei werthuso drwy werthusiad canol tymor a drefnir gan y rhanbarth ond yn dilyn arweiniad a ddarperir gan y Comisiwn Ewropeaidd. | I'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2004 | | |
| Dyrennir cronfa berfformiad wrth gefn, sef pedwar y cant o gyfanswm cost pob rhaglen i'r mesurau mwyaf llwyddiannus ymhob aelod-wladwriaeth (ond mae'r Comisiwn wedi cytuno y caiff y gronfa berfformiad wrth gefn sy'n ymwneud â Chymru aros yng Nghymru). | Erbyn 31 Rhag 2003 | | |
| Mae paratoadau'n dechrau ar gyfer y rhaglen newydd (2007-2013). Ar gyfer y rhaglenni cyfredol, rhaid ymrwymo pob cronfa erbyn 31 Rhagfyr 2006, a rhaid talu pob grant erbyn 31 Rhagfyr 2008. Cyflwynir cais terfynol am arian i'r Comisiwn erbyn 31 Hydref 2009 ynghyd â datganiad gan awdurdod sy'n annibynnol yn swyddogaethol (yng Nghymru, gwasanaeth archwilio mewnol y Cynulliad) sy'n nodi a fodlonwyd amodau penodol ai peidio. | | | |

# ATODIAD 3 CYNLLUNIAU ARIANNOL AMCAN 1, 2 A 3

Rhennir pob Amcan yn flaenoriaethau, a is-rennir eto yn fesurau. Dengys y tablau hyn sut y dyrannwyd cyfanswm y grant Ewropeaidd sydd ar gael rhwng pob blaenoriaeth (a phob Mesur ar gyfer Amcan 1) ar gyfer y cyfnod 2000-06, a'r gyfradd grant (rhaid darparu'r gweddill fel arian cyfatebol o ffynonellau domestig).

## Amcan 1

| Blaenoriaeth/Mesur | | Dyraniad £ miliwn | Cyfradd grant % |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Cymorth Ariannol i Fentrau Bach a Chanolig eu Maint (SMEs) | 57.0 | 49.3 |
| 1.2 | Annog Entrepreneuriaeth a Chynyddu Cyfradd Cychwyn SMEs | 46.3 | 50.0 |
| 1.3 | Datblygu natur gystadleuol SMEs | 67.5 | 49.1 |
| 1.4 | Hyrwyddo'r Gallu i Ymaddasu ac Entrepreneuriaeth | 76.8 | 44.2 |
| 1.5 | Darparu Safloedd ac Adeiladau ar gyfer SMEs | 37.2 | 39.9 |
| **Cyfanswm** | **Blaenoriaeth 1: Ehangu a Datblygu Sylfaen Mentrau Bach a Chanolig** | **284.8** | **46.5** |
| 2.1 | Seilwaith TGCh | 24.5 | 37.3 |
| 2.2 | Ysgogi a Chefnogi'r Galw am TGCh | 37.9 | 49.0 |
| 2.3 | Cymorth i Ddatblygu Arloesedd ac Ymchwil a Datblygu | 71.5 | 53.0 |
| 2.4 | Sgiliau ar gyfer Arloesedd a Thechnoleg | 23.2 | 48.4 |
| 2.5 | Datblygiadau Sectorau Ynni Glân | 25.8 | 54.3 |
| **Cyfanswm** | **Blaenoriaeth 2: Datblygu Arloesedd ac Economi sy'n Seiliedig ar Wybodaeth** | **182.9** | **49.0** |
| 3.1 | Gweithredu Cymunedol ar gyfer Cynhwysedd Cymdeithasol | 13.9 | 64.5 |
| 3.2 | Datblygu gallu Partneriaethau a Chymunedau | 20.7 | 72.9 |
| 3.3 | Adfywio Ardaloedd Difreintiedig drwy Weithredu o dan Arweiniad Cymunedol | 52.3 | 70.7 |
| 3.4 | Cymorth i Greu a Datblygu Busnesau yn yr Economi Gymdeithasol | 23.3 | 64.9 |
| **Cyfanswm** | **Blaenoriaeth 3: Adfywio Economaidd Cymunedol** | **110.2** | **68.9** |
| 4.1 | Mesurau Cyflogaeth Ataliol a Gweithredol | 93.6 | 59.2 |
| 4.2 | Cynhwysedd Cymdeithasol | 63.6 | 59.2 |
| 4.3 | Dysgu Gydol Oes i Bawb | 69.3 | 49.6 |
| 4.4 | Gwella'r System Ddysgu | 40.8 | 48.2 |
| 4.5 | Gwella Cyfranogiad Merched yn y Farchnad Waith | 17.7 | 64.4 |
| 4.6 | Rhagweld a Dadansoddi Anghenion Sgiliau | 3.9 | 50.0 |
| **Cyfanswm** | **Blaenoriaeth 4: Datblygu Pobl** | **288.9** | **55.0** |

## Amcan 1

| Blaenoriaeth/Mesur | | Dyraniad £ miliwn | Cyfradd grant % |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Prosesu a Marchnata Cynnyrch Amaethyddol | 23.5 | 20.0 |
| 5.2 | Hyfforddiant: Gwasanaethau i Helpu Ffermwyr i Ymaddasu ac Arallgyfeirio | 8.5 | 50.0 |
| 5.3 | Coedwigaeth | 9.8 | 40.1 |
| 5.4 | Hyrwyddo Addasu a Datblygu Ardaloedd Gwledig | 9.2 | 50.0 |
| 5.5 | Buddsoddiad mewn Daliadau Amaethyddol | 13.0 | 29.6 |
| 5.6 | Hyrwyddo Datblygu Economaidd Lleol | 27.4 | 42.0 |
| 5.7 | Cefn Gwlad Gynaliadwy: Gwella a Diogelu'r Amgylchedd Naturiol a Rheoli Cefn Gwlad | 16.6 | 50.0 |
| 5.8 | Cymorth ar gyfer Cyfleoedd Adloniadol a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol | 14.1 | 47.0 |
| 5.9 | Cymorth i Bysgodfeydd a Ffermio Dŵr | 8.4 | 42.7 |
| **Cyfanswm** | **Blaenoriaeth 5: Datblygu Gwledig a'r Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau Naturiol** | **131.5** | **35.4** |
| 6.1 | Hygyrchedd a Thrafnidiaeth | 51.7 | 35.8 |
| 6.2 | Seilwaith Ynni | 15.9 | 30.0 |
| 6.3 | Safleoedd Cyflogaeth Strategol | 33.6 | 37.2 |
| 6.4 | Seilwaith Amgylcheddol | 28.5 | 40.0 |
| **Cyfanswm** | **Blaenoriaeth 6: Datblygu Seilwaith Strategol** | **129.7** | **36.1** |
| 7.1 | Hyrwyddo Rheoli Rhaglenni'n Effeithiol (ERDF) | 9.7 | 50.0 |
| 7.2 | Hyrwyddo Rheoli Rhaglenni'n Effeithiol (ESF) | 2.4 | 50.0 |
| 7.3 | Codi Ymwybyddiaeth o'r Rhaglen (ERDF) | 3.2 | 50.0 |
| 7.4 | Codi Ymwybyddiaeth o'r Rhaglen (ESF) | 0.8 | 50.0 |
| **Cyfanswm** | **Blaenoriaeth 7: Cymorth Technegol** | **16.1** | **50.0** |
| **Cyfanswm** | **Amcan 1** | **1,144.1** | **47.0** |

# Amcan 2

## Prif ffrwd

| Blaenoriaeth | | Dyraniad £ miliwn | Cyfradd grant % |
|---|---|---|---|
| 1 | Datblygu Natur Gynaliadwy a Chystadleuol Mentrau Bach a Chanolig | 29.2 | 35.8 |
| 2 | Datblygu Gwledig Cynaliadwy | 9.8 | 46.9 |
| 3 | Adfywio Cymunedol Trefol | 9.8 | 50.0 |
| 4 | Cymorth Technegol | 1.5 | 50.0 |
| **Cyfanswm** | **Prif ffrwd Amcan 2** | **50.3** | **40.2** |

## Trosiannol (ar gyfer ardaloedd a gwmpesir gan Amcan 2 neu 5b o dan raglenni 1994-99 ond nad ydynt yn gymwys i gael statws Amcan 2 ar gyfer 2000-06)

| Blaenoriaeth | | Dyraniad £ miliwn | Cyfradd grant % |
|---|---|---|---|
| 1 | Datblygu Natur Gynaliadwy a Chystadleuol Mentrau Bach a Chanolig | 13.1 | 33.8 |
| 2 | Datblygu Gwledig Cynaliadwy | 3.6 | 46.6 |
| 3 | Adfywio Cymunedol Trefol | 7.1 | 50.0 |
| 4 | Cymorth Technegol | 0.7 | 50.0 |
| **Cyfanswm** | **Amcan 2 yn ymwneud ag ardaloedd trosiannol** | **24.5** | **39.4** |
| **Cyfanswm** | **Amcan 2** | **74.8** | **39.9** |

# Amcan 3

| Blaenoriaeth | | Dyraniad £ miliwn | Cyfradd grant % |
|---|---|---|---|
| 1 | Datblygu Polisïau Gweithredol ar y Farchnad Waith i Atal a Gwrthsefyll Diweithdra | 20.4 | 44.6 |
| 2 | Cyfle Cyfartal i Bawb a Hyrwyddo Cynhwysedd Cymdeithasol | 17.1 | 44.6 |
| 3 | Dysgu Gydol Oes | 18.0 | 41.9 |
| 4 | Hyrwyddo Natur Gystadleuol Busnesau | 18.8 | 36.0 |
| 5 | Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhyw yn y Farchnad Waith | 5.7 | 44.6 |
| 6 | Cymorth Technegol | 1.6 | 45.0 |
| **Cyfanswm** | **Amcan 3** | **81.6** | **41.7** |

1 Comisiynwyd yr arolwg gan WEFO i ganfod barnau noddwyr prosiectau ar y ffordd y caiff y Cronfeydd Strwythurol eu rheoli, ac i asesu sut y gellid mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

2 Comisiynwyd Market Research Wales Limited gennym i gynnal arolwg o sampl gynrychioliadol o sefydliadau a wnaeth gais am grantiau Cronfeydd Strwythurol ar 31 Awst 2001, ac a oedd naill ai wedi cael penderfyniad neu wedi tynnu eu cais yn ôl erbyn y dyddiad hwnnw. Felly cwmpaswyd Amcan 1 a 3, ond nid Amcan 2 neu'r Mentrau Cymunedol. Cynlluniwyd yr arolwg ar y cyd gan Market Research Wales a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru mewn ymgynghoriad â WEFO.

3 Ar ôl cynnal arolwg peilot, cyfwelodd Market Research Wales â 100 o noddwyr prosiectau dros y ffôn ym mis Medi 2001, sef 31 y cant o'r holl sefydliadau a oedd wedi bodloni'r meini prawf i gael eu cynnwys yn yr arolwg (poblogaeth yr arolwg). Dewiswyd y sampl ar hap gan adlewyrchu strwythur y boblogaeth gyfan yn fanwl. Felly canolbwyntiodd ar brosiectau a gyflwynwyd yn 2000 pan oedd cryn ansicrwydd ynglŷn â gweithdrefnau, amseroedd arfarnu hirfaith a phan oedd gofynion y rhaglenni newydd yn llai cyfarwydd.

4 Seiliwyd canlyniadau'r arolwg ar sampl, ac felly ni ellir bod yn sicr ei bod yn ailadrodd yn union safbwyntiau'r boblogaeth gyfan. Mae'r sampl a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon yn gadael i ni roi amcangyfrif o gyfran y boblogaeth sy'n dal tyb arbennig o fewn ± deg y cant, gyda lefel hyder o 95%. Mae hyn yn golygu bod tebygolrwydd o 95 y cant bod unrhyw ffigur a roddir o fewn 10 y cant i'r gwerth a fyddai wedi dod i'r amlwg pe bai'r boblogaeth gyfan wedi cael eu cyfweld.


5 Oherwydd y nifer gymharol fach o ymatebwyr - a oedd yn anochel o gofio'r nifer fach ym mhoblogaeth y sampl - nid oedd modd dadansoddi'r data yn ôl categorïau o ymgeiswyr a chynhyrchu canlyniadau sy'n ystadegol-arwyddocaol.

6 Nodir prif ganfyddiadau'r arolwg isod.

## Cyhoeddusrwydd a gwybodaeth

7 Canfu'r arolwg fod prif systemau cyhoeddusrwydd a gwybodaeth WEFO yn hysbys iawn ymhlith ymgeiswyr prosiectau: roedd 88 y cant wedi ymweld â gwefan WEFO, roedd 74 y cant wedi darllen ei newyddlen ac roedd 53 y cant wedi mynychu seminar neu gyflwyniad gan staff WEFO. Fodd bynnag, nid y rhain o reidrwydd oedd y prif ffynonellau o wybodaeth gyffredinol am y Cronfeydd Strwythurol. Pan ofynnwyd i ymgeiswyr enwi eu prif ffynonellau, cafwyd 129 o ymatebion. O'r rhain, cyfeiriodd 52 (40 y cant) yn benodol at WEFO - 20 y cant at staff WEFO, 14 y cant at y wefan a 6 y cant at ddatganiadau i'r wasg a newyddlenni. Prif ffynhonnell gwybodaeth arall oedd ysgrifenyddiaeth partneriaeth leol neu ranbarthol yr ymgeisydd (19 y cant o ymatebion, neu 24 y cant os cynhwysir partneriaethau ac awdurdodau lleol). Soniodd y 36 y cant o ymatebion sy'n weddill am sefydliadau eraill (10 y cant), y cyfryngau (9 y cant), gwefannau eraill (6 y cant), ar air (5 y cant) a ffynonellau eraill (6 y cant).

8 Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (51 y cant) yn fodlon ar ansawdd a defnyddioldeb y cyhoeddusrwydd a'r wybodaeth gyffredinol a roddir gan WEFO, gyda nifer gymharol uchel yn anfodlon (39 y cant):



## Y broses arfarnu

9 Dangosir isod lefelau boddhad ar y broses arfarnu:

| Cwestiwn | | Bodlon | | Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | | Anfodlon | | Ddim yn gwy-bod | Cyfan swm | Cyfar-taledd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Boddhad cyffredinol | 6 | 28 | **34** | 25 | 19 | 21 | **40** | 1 | **100** | 3.22 |
| Nifer y bobl yn ymwneud â'r broses | 10 | 34 | **44** | 11 | 16 | 10 | **26** | 19 | **100** | 2.78 |
| Dealltwriaeth o'r ffordd y rhennir cyfrifoldebau rhwng WEFO a'r cyrff arweiniol | 9 | 37 | **46** | 9 | 29 | 9 | **38** | 7 | **100** | 2.91 |
| Cyfraniad partneriaethau lleol a rhanbarthol wrth wneud penderfyniadau | 8 | 37 | **45** | 11 | 28 | 9 | **37** | 6 | **99** | 2.92 |
| Gwybodaeth | 9 | 51 | **60** | **11** | 13 | 14 | **27** | 2 | **100** | 2.66 |
| Faint o wybodaeth y gofynnwyd amdani ar y ffurflen gais a pha mor gymhleth oedd y wybodaeth honno. | 1 | 22 | **23** | **11** | 34 | 30 | **64** | 2 | **100** | 3.71 |
| Cymorth a roddwyd gan WEFO | 17 | 28 | **45** | **10** | 17 | 15 | **32** | 2 | **89** | 2.83 |
| Gwybodaeth y gofynnwyd amdani gan WEFO ar ôl i'r cais ddod i law | 4 | 45 | **49** | **11** | 15 | 16 | **31** | 2 | **93** | 2.93 |
| Diduedddrwydd WEFO | 18 | 55 | **73** | **5** | 5 | 5 | **10** | 7 | **95** | 2.14 |
| Amser a gymerwyd i ymdrin â cheisiadau | 5 | 25 | **30** | **5** | 20 | 44 | **64** | 1 | **100** | 3.74 |
| Adborth am benderfyniadau | 7 | 22 | **29** | **9** | 16 | 26 | **42** | 5 | **85** | 3.40 |
| *Cyfartaledd heb gynnwys boddhad cyffredinol* | | | | | | | | | | 3.00 |

**NODER**

Mae'r marc yn seiliedig ar gyfartaledd (cymedrig) ymatebion heblaw am "ddim yn gwybod" a "ddim yn berthnasol". Mae'n seiliedig ar raddfa o 1 (bodlon iawn) i 5 (anfodlon iawn), mae tri yn niwtral. Rhoddir is-gyfansymiau ar gyfer y garfan sy'n fodlon a'r garfan sy'n anfodlon yn y colofnau tywyll.

10 Yn gyffredinol, roedd 35 y cant yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar y broses ac roedd 40 y cant yn anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon. Canfuwyd mewn arolwg tebyg a gynhaliwyd ar ran Welsh European Programme Executive Ltd yn 1999 fod 56 y cant yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ac roedd 26 y cant yn anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon ar y gweithdrefnau arfarnu ar y pryd. Dengys hyn fod boddhad ar y broses wedi gostwng yn sylweddol ar gyfer prosiectau a ddaeth i law yng nghylch cyntaf y rhaglenni newydd (Medi 2000), sy'n cyfrif am 79 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg. Efallai nad yw hyn yn syndod gan fod y cylch cyntaf yn gyfnod anodd iawn pan oedd WEFO ar fin cael ei sefydlu, gyda staff newydd a nifer fawr o geisiadau yn cyrraedd ar yr un pryd. Canfyddiadau allweddol eraill o'r arolwg oedd:

- mai'r hyn yr oedd ymgeiswyr fwyaf anfodlon arno oedd yr amser a gymerwyd i ymdrin â cheisiadau: roedd 64 y cant yn anfodlon, ac roedd 44 y cant o'r rhain yn anfodlon iawn;
- bod 64 y cant hefyd yn anfodlon ar faint o wybodaeth y gofynnwyd amdani ar y ffurflen gais a pha mor gymhleth oedd y wybodaeth honno, ac roedd 34 y cant o'r rhain yn anfodlon iawn.
- mai'r hyn yr oedd ymgeiswyr fwyaf bodlon arno oedd didueddrwydd WEFO (roedd 73 y cant yn fodlon ac roedd 18 y cant o'r rhain yn fodlon iawn) a'r wybodaeth a'r arweiniad a roddwyd ganddi (60 y cant, ac roedd naw y cant o'r rhain yn fodlon iawn);
- bod lefelau boddhad ar yr agweddau eraill ar y broses arfarnu yn is na 50 y cant, ond ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhain roedd mwy o ymgeiswyr bodlon nag ymgeiswyr anfodlon.

## Arweiniad ar gyfer ymgeiswyr

11 Y prif ganfyddiadau yw:

- bod y prif ffynonellau o arweiniad ysgrifenedig yn cael eu defnyddio'n helaeth, a bod y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd o'r farn eu bod yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol;
- bod y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn credu bod yr arweiniad yn llai defnyddiol ar gyfer agweddau penodol ar gwblhau'r cais - er enghraifft, wrth fynd i'r afael â themâu trawsbynciol, monitro a gwerthuso'r prosiect a gwneud dadansoddiad o gost ar y ffurflen gais;
- nad oedd cytundeb cryf ynghylch sut yn union y dylid newid yr arweiniad, ond bod pobl yn awyddus yn gyffredinol iddo gael ei symleiddio, ei fyrhau neu ei gyfuno - roedd dymuniad cyffredinol i sicrhau ei fod yn haws ei defnyddio.

*Y prif ffynonellau o arweiniad (canran yr ymatebwyr i'r arolwg a ddefnyddiodd y ffynhonnell) a pha mor ddefnyddiol oedd pob ffynhonnell o arweiniad (sgôr gyfartalog [gymedrig] a roddwyd gan y rhai a ddefnyddiodd y ffynhonnell, lle mae 1 yn ddefnyddiol iawn, 3 heb fod yn ddefnyddiol nac yn annefnyddiol a 5 yn annefnyddiol iawn)*

| **Ffynhonnell arweiniad** | **% a ddefnyddiodd y ffynhonnell** | **Sgôr gyfartalog** |
|---|---|---|
| Nodiadau arweiniol ar gwblhau'r ffurflen gais | 92 | 2.0 |
| Dogfen Raglennu Sengl neu Raglen Weithredol | 85 | 1.9 |
| Cynllun Gweithredu Lleol neu Ranbarthol | 78 | 1.9 |
| Dogfen Ategol y Rhaglen | 71 | 1.8 |
| Ysgrifenyddiaeth partneriaeth leol neu ranbarthol | 70 | 2.0 |
| Canllawiau cyfle cyfartal | 68 | 2.1 |
| Rheoliadau'r UE | 63 | 2.1 |
| Cyngor gan swyddogion WEFO | 60 | 2.2 |

*Pa mor ddefnyddiol oedd y wybodaeth ar agweddau penodol ar y cais (sgôr gymedrig)*

| | |
|---|---|
| Sut i nodi gwariant cymwys a gwariant nad yw'n gymwys | 2.3 |
| Sut i roi prosiect mewn cyd-destun strategol | 2.6 |
| Sut i fynd i'r afael â themâu trawsbynciol | 2.9 |
| Sut i fonitro a gwerthuso'r prosiect | 2.9 |
| Sut i gwblhau'r dadansoddiad o gost ar y ffurflen gais | 2.9 |

*Newidiadau y byddai ymgeiswyr am eu gweld yn yr arweiniad (canran yr ymatebion: cant ac wyth o'r awgrymiadau o gant ac wyth o atebwyr)*

| **Math o newid y gofynnwyd amdano** | **Canran yr ymatebwyr** |
|---|---|
| Haws ei ddeall/yn symlach | 23 |
| Arweiniad byrrach | 21 |
| Cyfuno arweiniad yn un ddogfen | 13 |
| Arweinad manylach ar bwnc penodol | 17 |
| Llinell gymorth ffôn/gweithdy | 5 |
| Arweiniad mwy cyfredol | 4 |
| Ffurflen gais drwy'r wefan/ar-lein | 3 |
| Arall | 14 |
| **Cyfanswm** | **100** |

## Arian cyfatebol

12 Am nad oedd gwybodaeth benodol ar gael, cynhwysodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gwestiynau ynglŷn ag yn yr arolwg o'r ymgeiswyr a gynhaliwyd gan Market Research Wales.

| **Nifer y ffynonellau allanol o arian cyfatebol (Sylfaen :100)** | |
|---|---|
| Un | 30% |
| Dwy | 31% |
| Tair | 10% |
| Pedair | 9% |
| Pump neu ragor | 15% |
| Ddim yn gwybod | 5% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

| **Prif ffynhonnell o arian cyfatebol (Sylfaen: 100)** | |
|---|---|
| Adnoddau'r ymgeisydd ei hun | 36% |
| Sector cyhoeddus (ac eithrio awdurdod lleol) | 32% |
| Sector cyhoeddus (awdurdod lleol) | 11% |
| Sector gwirfoddol/ nad yw'n gwneud elw | 12% |
| Sector preifat | 8% |
| Arall | 1% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

**NODER**

Er bod y canlyniadau hyn yn dangos nifer yr amrywiol ffynonellau o arian cyfatebol a pha mor bwysig ydynt, maent yn ymwneud â nifer y prosiectau a gynhwyswyd yn yr arolwg ac nid gwerth cymharol grantiau prosiectau. Mae'n bosibl y byddai'r canlyniadau yn wahanol iawn pe baent yn cael eu pwysoli yn ôl maint y grant.

13 Hefyd gofynnodd yr arolwg i ymgeiswyr nodi at bwy yr oeddent wedi troi am gyngor am arian cyfatebol, pa mor fodlon oeddent ar y cyngor hwn, a'r newidiadau y byddent am eu gweld yn y ffordd y rhoddir cymorth i ddod o hyd i arian cyfatebol. Y pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r arolwg oedd:

- nad oedd 50 y cant o'r rhai a ymatebodd wedi gofyn am gyngor gan unrhyw un;
- bod gweddill yr ymgeiswyr wedi gofyn i ystod eang o gyrff am gyngor. Cysylltodd 20 y cant ag ysgrifenyddiaeth eu partneriaeth a chysylltodd 14 y cant â Llywodraeth y Cynulliad neu WEFO;
- bod 60 y cant o'r 42 o'r rhai a oedd wedi mynegi barn yn credu bod y cyngor a gawsant yn foddhaol iawn neu'n eithaf boddhaol, a bod 22 y cant yn anfodlon; a
- nad oedd 31 y cant o'r holl ymatebwyr am weld unrhyw newid yn y ffordd y darparwyd arian cyfatebol, ond bod 42 y cant am i WEFO neu'r Cynulliad lunio rhestr o ddarparwyr arian cyfatebol (22 y cant) neu roi cyngor penodol at bwy y dylid troi am gymorth (20 y cant).

## Ansawdd gwasanaeth a chanfyddiadau pobl am WEFO

14 Bu lefel uchel o foddhad ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir gan staff WEFO. Bu lefel ychydig yn is o foddhad ynglyˆn â natur agored a throloyw ganfyddedig WEFO (28 y cant yn anfodlon) a pha mor hawdd oedd cysylltu â'r unigolion perthnasol (28 y cant yn anfodlon).

| | Cytuno'n gryf | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae WEFO yn agored ac yn dryloyw | 17 | 34 | 22 | 11 | 12 | 4 |
| Mae staff WEFO yn gyfeillgar ac yn gymwysgar | 46 | 38 | 7 | 4 | 1 | 4 |
| Mae'n hawdd iawn siarad â'r unigolyn/unigolion perthnasol yn WEFO | 30 | 34 | 6 | 19 | 9 | 2 |
| Mae staff WEFO bob amser yn ymddwyn yn gwrtais | 66 | 29 | 1 | 2 | 0 | 2 |
| Mae staff WEFO bob amser yn ymddwyn yn broffesiynol | 60 | 28 | 3 | 7 | 0 | 2 |

Mae'r niferoedd yn nodi'r rhai ymhob categori; ymhob achos roedd 100 o ymatebion (cyfradd ymateb o 100 y cant).


## Boddhad cyffredinol ynglŷn â'r broses ar gyfer gweinyddu Cronfeydd Strwythurol Ewrop

15 Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd nodi eu boddhad cyffredinol ar raddfa o un i ddeg, gyda 10 yn dynodi'r sgôr uchaf ac un yn dynodi'r sgôr isaf. Dangosir y canlyniadau yn y tabl isod. Yn gyffredinol rhoddodd 40 y cant sgôr o chwech neu fwy (lefel uwch o foddhad), rhoddodd 60 y cant sgôr o bump neu lai (lefel uwch o anfodlonrwydd), a'r sgôr gymedrig oedd 4.69. Roedd 12 y cant yn anfodlon iawn â'r prosesau, o'u cymharu â dim ond tri y cant a oedd yn fodlon iawn.

16 Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd pa newidiadau i'r prosesau ar gyfer gweinyddu'r Cronfeydd Strwythurol y byddent am eu gweld. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd y dylid cyflymu'r broses o ymdrin â cheisiadau (29 y cant). Credid mai hwn hefyd oedd y maes pwysicaf lle yr oedd ymatebwyr am weld newid (19 y cant). Un o'r agweddau eraill yr ystyrid ei bod yn bwysig ac yn ddymunol i'w newid oedd symleiddio'r broses a oedd ynghlwm wrth wneud cais (16 y cant ac 11 y cant yn y graffiau isod yn y drefn honno). Yn yr un modd ystyrid bod arweiniad a chyngor yn faes pwysig i'w newid (18 y cant a 11 y cant yn y ffigurau isod yn y drefn honno).


| Sgôr | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Nifer yr ymatebwyr* | *12* | *7* | *13* | *13* | *14* | *18* | *9* | *9* | *1* | *3* | **100** |

**MEYSYDD Y DYMUNIR EU NEWID -%**




Sylfaen = 100

**Y MEYSYDD PWYSICIAF LLE MAE ANGEN NEWID - %**




Sylfaen = 47

# ATODIAD 5 MEINI PRAWF DEWIS GRANTIAU AMCAN 1, 2 A 3

## Gwiriadau cychwynnol: a yw'r prosiect yn gymwys i gael cymorth?

1 Mae'n rhaid i bob prosiect fodloni meini prawf sylfaenol penodol i fod yn gymwys i gael cymorth. Mae'n rhaid i bob prosiect

- cael ei gynnal o fewn ardal y rhaglen;
- cynnal gweithgaredd y cyfeirir ato yn Nogfen Ategol y Rhaglen;
- dangos gwerth ychwanegol: ni ellir rhoi grantiau ar gyfer prosiectau a fyddai wedi mynd yn eu blaen heb gymorth yr UE, neu ar gyfer prosiectau sy'n dyblygu gweithgaredd sy'n mynd rhagddo eisoes;
- bod â thargedau clir sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at dargedau'r rhaglen;
- bod â ffynonellau arian clir y mae angen eu cadarnhau cyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo;
- peidio â bod yn uwch na'r uchafswm cyfradd grant a nodir yn Nogfen Ategol y Rhaglen (rhwng 40 y cant a 75 y cant ar gyfer Amcan 1, gan ddibynnu ar y mesur);
- peidio â chynnwys unrhyw gostau anghymwys neu beidio ag ymwneud â gweithgareddau anghymwys o dan reoliadau'r UE; a
- cydymffurfio â rheolau'r Undeb Ewropeaidd ynglŷn â chymorth y wladwriaeth (mae'r rheoliadau cymhleth hyn yn cyfyngu ar faint o gymorth y gellir ei roi i ymgymeriadau masnachol, er mwyn atal cystadleuaeth annheg rhwng aelod-wladwriaethau).

2 Os bydd y prosiect yn bodloni'r meini prawf hyn, yna caiff ei asesu yn erbyn meini prawf gwerth-am-arian a gymeradwywyd gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni. Caiff y rhain eu hasesu yn ôl system sgorio.

## Meini prawf dewis ESF

3 Ar gyfer ESF, mae i bob maen prawf nifer benodol o bwyntiau a dyfernir sgôr ar gyfer pob un ohonynt. Caiff unrhyw brosiect sy'n sgorio llai na 98 allan o 150 (65 y cant) ei wrthod yn awtomatig am nad yw wedi cyrraedd yr "isafswm o ran ansawdd". Yn y gorffennol, defnyddiwyd y sgôr hon i roi prosiectau yn eu trefn yn ystod cylchoedd cynnig cystadleuol a dyrannwyd yr adnoddau a oedd ar gael i'r prosiectau a gafodd y sgôr uchaf. Nid yw hynny'n wir bellach ar gyfer Amcan 1 gan nad oes unrhyw ddyddiadau cau penodol ar gyfer derbyn ceisiadau, ac mae'r penderfyniad terfynol yn seiliedig ar argymhelliad Partneriaeth Strategaeth Asedau Adnoddau Dynol. Mae'r meini prawf - a'r ffordd y dosbarthwyd pwyntiau - fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Pam bod angen y prosiect: tystiolaeth fanwl leol gan sector penodol, y rhwystrau a wyneba'r grwpiau targed, cysylltiadau â strategaethau neu fentrau eraill y Llywodraeth | 33 o bwyntiau (22%) |
| I bwy y mae'r prosiect: a yw'n targedu'r bobl iawn? | 20 o bwyntiau (13%) |
| Sut y caiff y prosiect ei gynllunio, ei weithredu a'i rheoli er mwyn diwallu anghenion y grŵp targed? | 18 o bwyntiau (12%) |
| Canlyniadau'r prosiect- fel arfer cymwysterau, mwy o fusnes neu gyflogaeth | 15 o bwyntiau (10%) |
| Cefnogi a hyrwyddo cyfle cyfartal | 12 o bwyntiau (8%) |
| Datblygu cynaliadwy- diogelu'r amgylchedd, defnydd gofalus o adnoddau naturiol "cynnydd sy' n cydnabod anghenion pawb", lefelau uwch a chyson o dwf economaidd a chyflogaeth | 12 o bwyntiau (8%) |
| Cymdeithas wybodaeth- y defnydd o TG a'r manteision a ddaw yn sgîl hynny | 12 o bwyntiau (8%) |
| Cydweddu â mentrau lleol | 8 o bwyntiau (6%) |
| Hyrwyddo dysgu gydol oes | 20 o bwyntiau (13%) |

## Meini prawf dewis y ERDF, EAGGF ac FIFG

4 Nid yw'r system sgorio mor fanwl gywir â'r system ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol eraill, ac fe'i defnyddir fel canllaw yn hytrach na ffactor sy'n penderfynu wrth ddewis prosiect. Ni ddyrennir sgôr gyffredinol fel yn achos ESF. Rhoddir pwys uchel, canolig neu isel i bob maen prawf gan ddibynnu ar fesur y rhaglen y cyflwynir y rhaglen oddi tani. Yna rhoddir sgôr uchel, canolig neu isel i bob maen prawf yn seiliedig ar y wybodaeth yn y ffurflen gais.

5 Os caiff prosiect sgôr "isel" ar gyfer prosiect sydd â phwys "uchel", byddai WEFO yn gofyn i'r ymgeisydd wella'r agwedd berthnasol ar ei gais cyn cymeradwyo'r prosiect.

6 Mae'r naill system a'r llall yn defnyddio'r un meini prawf yn gyffredinol. Mae systemau ESF yn nodi'n fanylach yr hyn sydd ei angen, ac yn sgorio nodweddion penodol megis profiad yr ymgeisydd yn y maes perthnasol a'i ymchwil i anghenion y grwpiau targed nad ydynt yn cael eu hystyried yn benodol ar gyfer y Cronfeydd eraill. Un gwahaniaeth sylweddol yw na chaiff monitro a gwerthuso eu sgorio ar gyfer ESF; fe'u trinnir fel mater o gymhwyster sylfaenol.

## Ystyriaeth gan y bartneriaeth strategaeth (Amcan 1 yn unig)

7 Ar gyfer Amcan 1, mae'r penderfyniad terfynol ar bob prosiect wedi'i seilio ar argymhelliad y bartneriaeth strategaeth berthnasol. Mae bwrdd y bartneriaeth yn cael adroddiad byr gan WEFO, sy'n nodi sgoriau, costau, y canlyniadau a ddisgwylir ac unrhyw faterion allweddol. Bydd y bartneriaeth yn argymell p'un a ddylid derbyn y prosiect ai peidio, neu bydd yn gohirio penderfyniad nes y daw ragor o wybodaeth i law. Mae penderfyniad y bartneriaeth yn un ansoddol, yn seiliedig ar farn y bartneriaeth ar y cyd ac nid o reidrwydd ar y sgôr a gafodd y prosiect. Fodd bynnag, ni chaiff prosiect fel arfer ei gyflwyno i'r bartneriaeth strategaeth hyd nes y bydd WEFO yn ystyried ei fod o ansawdd digon da - ac mae hyn yn seiliedig ar ganlyniad y system sgorio.

| Maen prawf | Dulliau dewis |
|---|---|
| Canlyniadau / gwerth am arain | Creu swyddi a/neu gynyddu trosiant y busnes |
| Trosoledd | Faint o gyfraniad a wneir gan y sector preifat |
| Natur strategol | Yn cydweddu â pholisïau ac amcanion y Ddogfen Raglennu Sengl a Dogfen Ategol y Rhaglen |
| Integreiddio | Cysylltiadau uniongyrchol a chydlyniad at gynlluniau a phrosiectau, a digonolrwydd y strwythur cyfathrebu |
| TGCh | Cyfrannu at y strategaeth ar gyfer datblygu TGCh a nodir yn y Ddogfen Raglennu Sengl |
| Cyfle cyfartal | Cyfrannu at y strategaeth ar gyfer cyfle cyfartal a nodir yn y Ddogfen Raglennu Sengl a Dogfen Ategol y Rhaglen |
| Monitro a gwerthuso | Tystiolaeth o system fonitro a gwerthuso cadarn mewn lle, wedi'i ariannu'n briodol |
| Meini prawf sy'n benodol i'r mesur | Bydd gan fesur rhwng un a thri o feini prawf penodol a ddefnyddir i arfarnu prosiectau. Fel arfer mae o leiaf un yn ymwneud ag arfer amgylcheddol, a gallai eraill ymwneud â gweithgareddau sy'n ychwanegu gwerth megis cyngor gan reolwyr ar gynlluniau grant i fusnesau bach, ac ymgynghori lleol ar gyfer prosiectau adfywio cymunedol. |

# ATODIAD 6 AMODAU GRANT

**Amod (rhaid i'r ymgeisydd):**

Gwario yn unol â'r proffil y cytunwyd arno gyda WEFO

Cyflwyno ffurflenni cais cyflawn yn brydlon (fel arfer gofynnir am geisiadau bob chwarter, a rhaid iddynt gynnwys gwybodaeth am allbynnau hyd yn oed os nad oes grant yn daladwy)

Peidio â throsglwyddo mwy na 10 y cant o'r gwariant rhwng y categorïau ar y ffurflen gais, heb ganiatâd WEFO

Trefnu archwiliad allanol annibynnol o geisiadau am arian o dan y grant bob blwyddyn a chyflwyno cais am arian wedi'i archwilio i WEFO

Cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n ymwneud â nawdd y wladwriaeth a chyhoeddusrwydd

Pan ofynnir iddo, ad-dalu'r grant os yw WEFO o'r farn:

- bod newid sylweddol yn natur, graddau neu amseriad y prosiect;
- bod dyfodol y prosiect yn y fantol;
- bod gordaliad o'r grant;
- na wnaed cynnydd boddhaol tuag at gwblhau'r prosiect;
- na wnaed cynnydd boddhaol tuag at gyflawni'r allbwn a ragwelwyd fel y nodwyd yn y llythyr cymeradwyo

Ar gyfer ceisiadau prosiectau a ddaeth i law yn 2000, bodlonir y meini prawf adolwg:

Os mae'r prosiect wedi dechrau ar ei waith neu wedi rhoi'r prif gontract cyn i'r grant gael ei gymeradwyo:

- o ragweld y câi'r grant ei gymeradwyo, mae prosiectau eraill wedi'u gohirio neu wedi'u cwtogi
- mae rhaglen gwariant cyffredinol y sefydliad wedi cynyddu
- mae benthyciadau wedi'u trefnu i dalu am y cyfraniad posibl

**Sut y mae WEFO yn cadarnhau bod yr amod wedi'i fodloni**

Mae'r tîm taliadau yn adolygu gwariant y prosiect yn erbyn y proffil pan ddaw pob cais am arian i law, a bydd yn trafod newidiadau sylweddol â noddwr y prosiect

Gwiriadau gan y tîm taliadau. Bydd WEFO yn mynd ar drywydd ceisiadau hwyr am arian trwy anfon cyfres o lythyrau, ond nid oes ond ychydig o sancsiynau ar gael os na fydd noddwr y prosiect yn ymateb

Gwiriadau gan y tîm taliadau

Mae timau taliadau yn anfon tystygrifiau archwilio ynghyd â'r ffurflenni cais perthnasol. Eir ar drywydd unrhyw rai nad ydynt yn eu dychwelyd yn brydlon ac efallai na chaiff ceisiadau dilynol am arian eu talu os na chyflwynir y dystysgrif archwilio ar amser

Arolygiadau 5% gan y Tîm Rheoli Ariannol

- Archwiliad blynyddol o geisiadau am arian gan brosiectau
- Dim rheolaethau ffurfiol
- Grant wedi'i ddiwygio os oes gordaliad
- Allbynnau prosiectau yn cael eu monitro yn erbyn y llythyr cymeradwyo. O fis Mehefin 2002, bydd amseriad cyflwyno allbynnau yn cael ei fonitro yn erbyn y proffiliau a gyflwynwyd gan noddwr y prosiect. Ni chaiff allbynnau eu cadarnhau gan archwilwyr ond cânt eu cadarnhau drwy'r adolygiadau 5 y cant gan WEFO

Nis cynhwysir yn benodol

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o weithdrefnau WEFO*